[4] **Lynne Neagle:** Mae a wnelo fy nghwestiynau i â'r rhagolygon niferoedd ymwelwyr. Mae paragraffau 2.6 i 2.9 yn yr adroddiad yn ymdrin â rhagolygon niferoedd ymwelwyr. A gadael o'r neilltu, am y tro, gwestiynau am natur yr atyniad a'r polisi codi tâl, pam yr oedd y rhagolygon ar gyfer niferoedd ymwelwyr mor bell ohoni?

Mr Tyndall: I think that the Auditor General has set out some fairly accurate reasons for that. There are a number of reasons that need to be taken into account. There was a degree of optimism as to the likely attractiveness of the scheme that was not borne out in practice. There was a change of horses in midstream, if you like, in the sense that the original proposals suggested that there would be touring art shows from artists who had large—if you will excuse the phrase—box office appeal. The likes of Picasso and Matisse were mentioned. Clearly, in the event, the exhibitions that were displayed did not have that kind of attractiveness to a general audience. There are some very detailed reasons why the assumptions were inaccurate, to do with the demography of the catchment area. I think that assumptions were made regarding the likelihood of individuals attending which did not take account of the particular area that was within easy travelling distance of Cardiff and did not take account

Mr Tyndall: Yr wyf yn meddwl fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi amlinellu rhai rhesymau eithaf cywir am hynny. Mae nifer o resymau y mae angen eu hystyried. Yr oedd gradd o optimistiaeth ynghylch atyniad tebygol y cynllun nad oedd wedi'i gyfiawnhau yn ymarferol. Newidiwyd ceffylau ar hanner ffordd, os mynnwch, yn yr ystyr bod y cynigion gwreiddiol yn awgrymu y ceid sioeau celf teithiol gan arlunwyr a fyddai—os esgusodwch yr ymadrodd—ag apêl eang. Soniwyd am enwau fel Picasso a Matisse. Yn amlwg, fel y digwyddodd pethau, nid oedd gan yr arddangosfeydd a ddangoswyd y math hwnnw o atyniad i gynulleidfa gyffredinol. Mae rhai rhesymau manwl iawn pam y bu'r rhagdybiaethau'n anghywir, y mae a wnelont â demograffeg y dalgylch. Yr wyf yn meddwl y gwnaethpwyd rhagdybiaethau ynghylch y tebygolrwydd y byddai unigolion yn ymweld, heb gymryd i ystyriaeth yr ardal arbennig a oedd o fewn pellter teithio rhwydd i Gaerdydd a heb

of deprivation and so on. They were generalised assumptions. So I think that there are a variety of reasons and I tend to agree with the conclusions of the Auditor General in the report, but the reasons I have outlined are probably among the more prominent.

ystyried amddifadedd ac ati. Rhagdybiaethau wedi'u cyffredinoli oeddent. Felly credaf fod amrywiaeth o resymau a thueddaf i gytuno â chasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad, ond mae'r rhesymau a amlinellais ymhlith y rhai mwyaf amlwg, mae'n debyg.

[5] **Lynne Neagle:** Why was so much reliance placed on a feasibility report undertaken in 1992—some three years before the first lottery application and seven years before the centre opened—particularly as there were some fundamental changes to the concept of the project subsequent to this study, which inevitably impacted on visitor numbers?

[5] **Lynne Neagle:** Pam y dibynnwyd cymaint ar adroddiad ymarferoldeb a wnaethpwyd yn 1992—rhyw dair blynedd cyn y cais loteri cyntaf a saith mlynedd cyn agor y ganolfan—yn enwedig gan fod rhai newidiadau sylfaenol i gysyniad y prosiect yn dilyn yr astudiaeth hon, a gafodd effaith anochel ar niferoedd ymwelwyr?

Mr Tyndall: If I may, in answering the question, talk a little bit about how such a project would be assessed today, I think it would be instructive. First, there would have to have been a separate business case produced. That business case would have been assessed by someone who specialised in the assessment of that business case. In addition, any changes, once grant had been given, would be covered by a legal agreement between the council and the recipient of the grant, which would oblige them to inform the council of any material changes and which would enable the council to withhold grant if changes had been made. None of that framework was in place at that time. I think, to answer the question, this was probably the first lottery grant made in Wales; certainly

Mr Tyndall: Os caf, wrth ateb y cwestiwn, sôn ychydig am y modd yr asesid prosiect o'r fath heddiw, yr wyf yn meddwl y byddai hynny'n ddadlennol. Yn gyntaf, buasai'n rhaid bod wedi cynhyrchu achos busnes ar wahân. Buasai'r achos busnes hwnnw wedi'i asesu gan rywun a arbenigai mewn asesu'r achos busnes hwnnw. At hynny, byddai unrhyw newidiadau, unwaith y byddai grant wedi'i roi, yn destun cytundeb cyfreithiol rhwng y cyngor a derbynwyr y grant, lle byddai'n rhaid iddynt hysbysu'r cyngor am unrhyw newidiadau materol, ac y gallai'r cyngor ddal grant yn ôl pe bai newidiadau wedi'u gwneud. Nid oedd dim o'r fframwaith hwnnw yn ei le ar y pryd. Credaf, i ateb y cwestiwn, mai hwn yn ôl pob tebyg oedd y grant loteri cyntaf yng Nghymru; yn sicr y

the first large lottery grant made in Wales. I think that that comes out in the Auditor General's report. If you were to ask why the systems were so deficient, then I think that, in general, it was principally because of two things. One was inexperience—that the arts council had not previously been connected with the awards of grants of this kind. Thus it made mistakes that, in retrospect, it should not have made, but, in the event, there would not have been the experience there to enable it to understand the potential significance of some of what was being done. The second point I want to make is that the council, in dealing with the application at the time, was under a considerable degree of time pressure. It is very clear from the written material that, particularly given the potential loss of the grant from the then Cardiff City Council—ultimately Cardiff City and County Council—of £3 million and the possible loss of the building and elements of doubt about other parts of the funding, people felt that there was an urgency attached to processing the application, which may have led them to be less thorough. That is the best interpretation, supported by the facts from the Auditor General's report.

grant loteri mawr cyntaf i'w roi yng Nghymru. Yr wyf yn meddwl fod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi hynny. Pe baech yn gofyn pam y bu'r systemau mor ddiffygiol, yna yr wyf o'r farn, yn gyffredinol, fod dau brif reswm. Un oedd diffyg profiad—nad oedd cyngor y celfyddydau wedi ymwneud â dyfarniadau grant o'r math hwn o'r blaen. Felly gwnaeth gangymeriadau na ddylasai fod wedi'u gwneud, o edrych yn ôl, ond ar y pryd ni fuasai'r profiad ar gael yno i'w alluogi i ddeall arwyddocâd potensial yr hyn oedd yn digwydd. Yr ail bwynt yr hoffwn ei wneud yw bod y cyngor, wrth ddelio â'r cais ar y pryd, dan gryn dipyn o bwysau amser. Mae'n glir iawn o'r deunydd ysgrifenedig, yn enwedig yn wyneb y posibilrwydd o golli'r grant gan Gyngor Dinas Caerdydd fel yr oedd ar y pryd—Cyngor Sir a Dinas Caerdydd bellach—o £3 miliwn a'r posibilrwydd o golli'r adeilad, ac elfennau o amheuaeth ynghylch rhannau eraill o'r cyllid, fod pobl yn teimlo fod prosesu'r cais yn fater o frys, a allai fod wedi'u harwain i fod yn llai trwyadl. Dyna'r dehongliad gorau, ar sail y ffeithiau o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

[6] **Lynne Neagle:** On the issue of comparator museums and galleries, the forecast of 250,000 visitors in year 1 was higher than all but one of the comparators in Wales and above the average for the whole of the UK. Do you think that this was a sensible assumption in view of the fact that the actual

[6] **Lynne Neagle:** Ar fater cymharu ag amgueddfeydd ac orielau eraill, yr oedd y rhagolwg o 250,000 o ymwelwyr ym mlwyddyn 1 yn uwch na phob un ond un o'r cymaryddion yng Nghymru ac yn uwch na'r cyfartaledd i'r DU gyfan. A ydych yn meddwl fod hynny'n ragdybiaeth gall yn

number of visitors in the first year was just 47,000?

wyneb y ffaith mai dim ond 47,000 oedd nifer gwirioneddol yr ymwelwyr yn y flwyddyn gyntaf?

Mr Tyndall: Clearly, with the benefit of hindsight it is easy to see that it was not a sensible assumption. More usefully, I have to say that, were those figures put forward today, they would not survive the analysis of the business case. In a sense, it is difficult to see that there were robust systems in place at the time to actually permit an analysis. However, no, they were not reasonable figures.

Mr Tyndall: Wrth reswm, gyda'r fantais o edrych yn ôl mae'n hawdd gweld nad oedd yn rhagdybiaeth gall. Yn fwy defnyddiol, mae'n rhaid imi ddweud, pe cyflwynid y ffigurau hynny heddiw, na fyddent yn pasio dadansoddiad yr achos busnes. Mewn un ystyr, mae'n anodd gweld fod systemau cadarn yn eu lle ar y pryd i ganiatáu dadansoddiad. Fodd bynnag, na, nid oeddent yn ffigurau rhesymol.

[7] **Lynne Neagle:** I note that the visitor numbers for comparator museums and galleries in the UK—figure 7 on page 9 of the Auditor General's report—vary significantly from nearly 600,000 to just 40,000. Did this not alert the arts council to the real risk that the Centre for Visual Arts might attract lower numbers, towards the lower end of the scale?

[7] **Lynne Neagle:** Sylwaf fod y niferoedd ymwelwyr i'r amgueddfeydd ac orielau y cymharwyd â hwy yn y DU—ffigur 7 ar dudalen 9 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol—yn amrywio'n sylweddol o bron 600,000 i gwta 40,000. Oni wnaeth hyn rybuddio cyngor y celfyddydau o'r perygl gwirioneddol y gallai Canolfan y Celfyddydau Gweledol ddenu niferoedd is, tua phen isaf y raddfa?

Mr Tyndall: The evidence suggests that the arts council, when it first considered this application for funding, was advised by its assessor that these numbers were, if anything, pessimistic. When the council itself considered the application, it was advised that the numbers were realistic. In fact, what was concluded was that, in some ways, the

Mr Tyndall: Awgryma'r dystiolaeth fod cyngor y celfyddydau, pan ystyriodd y cais hwn am gyllid gyntaf, wedi cael cyngor gan ei asesydd fod y niferoedd hyn, os rhywbeth, yn besimistaidd. Pan ystyriodd y cyngor ei hun y cais, cynghorwyd ef fod y niferoedd yn realistig. Mewn gwirionedd, y casgliad y daethpwyd iddo oedd fod yr asesiad hwnnw,

extent of that assessment had been prudent, if not actually pessimistic. So the council was advised at the time that more people would attend than were in the estimates.

mewn rhai ffyrdd, wedi bod yn ddoeth, os nad yn besimistaidd, o ran ei gyrraethiad. Felly cynghorwyd y cyngor ar y pryd y byddai mwy o bobl yn ymweld na'r hyn a nodwyd yn yr amcangyfrifon.

[8] **Lynne Neagle:** This is my last question. Why did you not ensure that a sensitivity analysis had been undertaken to assess the risk of the centre attracting fewer visitors than forecast and to assess the impact of this on the financial viability of the project?

[8] **Lynne Neagle:** Dyma fy nghwestiwn olaf. Pam na wnaethoch chi sicrhau fod dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i wneud i asesu'r perygl bod y ganolfan yn denu llai o ymwelwyr na'r rhagolwg ac i asesu effaith hyn ar hyfywdra ariannol y prosiect?

Mr Tyndall: Looking at the papers, ultimately, a sensitivity analysis was undertaken, but it was confined to a 10 per cent variation. Consequently, that does not really allow for the extent of the variation on the figures. Again, I would say that the sensitivity analysis that was undertaken in the context of this project was very crude, was not proportionate to risk, and would not meet the requirements that we would currently have for a project of this scale.

Mr Tyndall: O edrych ar y papurau, yn y bôn, fe wnaethpwyd dadansoddiad sensitifrwydd, ond yr oedd yn gyfyngedig i amrywiad o 10 y cant. O ganlyniad, nid yw hynny mewn gwirionedd yn caniatáu ar gyfer maint yr amrywiad yn y ffigurau. Eto, fe ddywedwn fod y dadansoddiad sensitifrwydd a wnaethpwyd yng nghyd-destun y prosiect hwn yn un amrwd iawn, nad oedd yn gymesur â'r risg, ac na fyddai'n ateb y gofynion a fyddai gennym erbyn hyn ar gyfer prosiect o'r maint hwn.

[9] **Alison Halford:** Mr Tyndall, I have enormous sympathy for you. You have not got an easy row to hoe in any shape or form, have you? Perhaps Mr Parry could help you out sometimes. How long have you been with the arts council, Mr Parry?

[9] **Alison Halford:** Mr Tyndall, mae gennyf gydymdeimlad mawr â chi. Nid oes gennych gwys hawdd i'w thorri ar unrhyw olwg na ffurf, nac oes? Efallai y gallai Mr Parry eich cynorthwyo weithiau. Ers faint o amser yr ydych gyda chynghor y celfyddydau, Mr Parry?

Mr Parry: Two and a half years.

Mr Parry: Dwy flynedd a hanner.

[10] **Alison Halford:** Soon after this?

[10] **Alison Halford:** Yn fuan ar ôl hyn?

Mr Parry: When the building was nearing its completion.

Mr Parry: Pan oedd yr adeilad bron wedi'i gwblhau.

[11] **Alison Halford:** Right. We must congratulate you on the fact that you have been promoted, but the press release did not indicate that you had been working in the arts council before that.

[11] **Alison Halford:** Iawn. Rhaid inni'ch llongyfarch chi ar y ffaith ichi ennill dyrchafiad, ond ni soniodd y datganiad i'r wasg eich bod wedi bod yn gweithio yng nghyngor y celfyddydau cyn hynny.

Mr Parry: I was not.

Mr Parry: Nid oeddwn i ddim.

[12] **Alison Halford:** You was not—oh dear, my grammar—you were not. I will start again and put some more teeth in, they might speak a little better in the grammatical sense. So, when did you become a member of the arts council organisation?

[12] **Alison Halford:** *You was not*—o diar, fy ngramadeg—*you were not*. Dechreuaf eto a rhoi mwy o ddannedd i mewn, efallai y siaradant fymryn yn well o ran gramadeg. Felly, pa bryd y daethoch yn aelod o sefydliad cyngor y celfyddydau?

Mr Parry: Two and a half years ago, in May 1999.

Mr Parry: Ddwy flynedd a hanner yn ôl, ym mis Mai 1999.

[13] **Alison Halford:** Thank you. Going back to Mr Tyndall, you felt that, because this was the first big lottery fund project that occurred in Wales—and this is certainly what the Auditor General's report tells us—that

[13] **Alison Halford:** Diolch. A throi'n ôl at Mr Tyndall, yr oeddech yn teimlo, am mai hwn oedd prosiect mawr cyntaf cronfa'r loteri i ddigwydd yng Nghymru—ac yn sicr dyma a ddywed adroddiad yr Archwilydd

perhaps you had not, or I should say your predecessors had not, quite grasped the learning curve. I would like to draw your attention to page 20 in the Auditor General's report, which seems to give a fairly clear indication of what the National Lottery Act 1993 required. Would that not have helped the learning curve, in the eyes of your predecessors?

Cyffredinol wrthym—nad oeddech chi efallai, neu dylwn ddweud nad oedd eich rhagflaenwyr, wedi cael llawer o brofiad i ddysgu oddi wrtho. Hoffwn dynnu'ch sylw at dudalen 20 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sydd i'w weld yn rhoi amcan gweddol glir o'r hyn oedd yn ofynnol dan Ddeddf Loteri Genedlaethol 1993. Oni fuasai hynny wedi helpu'r broses ddysgu, yn llygaid eich rhagflaenwyr?

Mr Tyndall: The requirements of the Act are clear, as you say. It is a question as to how they were interpreted and how rigorously they were applied. It is easier for me to comment that the systems were not sufficiently rigorous. I do not doubt that the council—

Mr Tyndall: Mae gofynion y Ddeddf yn glir, fel y dywedwch. Cwestiwn ydyw o sut y'u dehonglwyd a pha mor drwyadl y'u dilynwyd. Mae'n haws i mi ddweud nad oedd y systemau'n ddigon trwyadl. Nid wyf yn amau nad oedd y cyngor—

[14] **Alison Halford:** It was the systems and not the information available that was possibly the problem?

[14] **Alison Halford:** Y systemau ac nid y wybodaeth oedd ar gael oedd y broblem, efallai?

Mr Tyndall: The systems for assessing the information were not sufficiently rigorous.

Mr Tyndall: Nid oedd y systemau ar gyfer asesu'r wybodaeth yn ddigon trwyadl.

[15] **Alison Halford:** One more thing before the Chair takes over again. You said, I believe, that you felt, from the work that you have had to do, that the figures were realistic, notwithstanding the fact that the Auditor General does not seem to be saying that in his report.

[15] **Alison Halford:** Un peth arall cyn i'r Cadeirydd gymryd yr awenau eto. Dywedasoch, mi gredaf, eich bod yn teimlo, yn ôl y gwaith y bu raid ichi ei wneud, fod y ffigurau'n realistig, er gwaethaf y ffaith nad yw'n ymddangos bod yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud hynny yn ei adroddiad.

Mr Tyndall: Sorry, I did not intend to convey that, and certainly the figures were not realistic, but the council received advice at the time from its independent assessor which said that the figures were realistic. Clearly, in answer to the earlier question, even without the benefit of hindsight, it would be difficult to sustain the figures, as the Auditor General reports.

Mr Tyndall: Mae'n ddrwg gennyf, nid oeddwn yn bwriadu cyfleu hynny, ac yn sicr nid oedd y ffigurau'n realistig, ond cafodd y cyngor gyngor ar y pryd gan ei asesydd annibynnol a ddywedodd fod y ffigurau'n realistig. Yn amlwg, i ateb y cwestiwn cynharach, hyd yn oed heb y fantais o allu edrych yn ôl, byddai'n anodd cynnal y ffigurau, fel y dywed yr Archwilydd Cyffredinol.

[16] **Janet Davies:** Alun Cairns would like to ask some questions on this part of the report and on the next part—the research of the local market.

[16] **Janet Davies:** Hoffai Alun Cairns ofyn ychydig o gwestiynau ar y rhan hon o'r adroddiad ac ar y rhan nesaf—yr ymchwil i'r farchnad leol.

[17] **Alun Cairns:** Mr Tyndall, I also sympathise with you, as I am sure does every other member of the Committee, in terms of the position that you find yourself in, but clearly we need to ask questions about the evidence that you may have come across since you have found yourself in post. I hope you will try to reflect on that when answering the questions. Do you think that it was sensible to include as comparators, when assessing likely visitor numbers, those attractions that had free admission?

[17] **Alun Cairns:** Mr Tyndall, yr wyf innau'n cydymdeimlo â chi, fel y mae pob aelod arall o'r Pwyllgor, yr wyf yn siwr, o ran y sefyllfa y cewch eich hun ynddi, ond yn amlwg mae angen inni ofyn cwestiynau am y dystiolaeth yr ydych efallai wedi dod ar ei thraws ers ichi'ch cael eich hun yn y swydd. Gobeithiaf y ceisiwch fyfyrion ar hynny wrth ateb y cwestiynau. A ydych yn meddwl ei bod yn synhwyrol cynnwys at ddibenion cymharu, wrth asesu niferoedd ymwelwyr tebygol, yr atyniadau hynny a oedd yn cynnig mynediad am ddim?

Mr Tyndall: There is some very very reliable evidence regarding the impact of charging on admission to museums and

Mr Tyndall: Mae tystiolaeth ddibynadwy iawn iawn ar gael ynghylch effaith codi tâl am fynediad i amgueddfeydd ac orielau, a

galleries, and this Committee and the Assembly will be well aware of the impact of removing the admission charges on visitor numbers at the National Museums and Galleries of Wales. So the answer to that has to be that you simply cannot make a direct comparison between a gallery or a museum that charges and one that does not. There is a known impact on the figures. I do not know whether that information was as well known at the time because much of the information has become known as a consequence of the proposals to introduce and then remove charges. So I could not say if it was as well known at the time.

[18] **Alun Cairns:** Do you think that the chairman, the chief executive and the board were aware that the number of visitors at the National Museums and Galleries of Wales had dropped by 65 per cent as a result of the charging introduced in 1988?

Mr Tyndall: I really do not know.

[19] **Alun Cairns:** Do you think that they should have been aware of it? You said that perhaps this information came to light after the difficulties that the centre had. If you were the chief executive or chairman of a board that was spending more than £3 million in total, do you think that it would be sensible to be aware of such factors at that time?

bydd y Pwyllgor hwn a'r Cynulliad yn ymwybodol iawn o effaith dileu tâl mynediad ar niferoedd ymwelwyr yn Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Felly yr ateb i hynny o reidrwydd yw na ellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng oriel neu amgueddfa lle codir tâl ac un lle na chodir tâl. Y mae effaith wybyddus ar y ffigurau. Ni wn a oedd y wybodaeth honno mor hysbys ar y pryd oherwydd daeth llawer o'r wybodaeth yn hysbys o ganlyniad i'r cynigion i gyflwyno ac wedyn i ddileu taliadau. Felly ni allwn ddweud a oedd mor wybyddus ar y pryd.

[18] **Alun Cairns:** A ydych yn meddwl fod y cadeirydd, y prif weithredwr a'r bwrdd yn ymwybodol fod nifer yr ymwelwyr ag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru wedi cwmpo 65 y cant yn sgîl cyflwyno taliadau yn 1988?

Mr Tyndall: Wn i ddim yn wir.

[19] **Alun Cairns:** A ydych yn meddwl y dylasant fod yn ymwybodol ohono? Dywedasoeh fod y wybodaeth hon efallai wedi dod i'r amlwg ar ôl yr anawsterau a gafodd y ganolfan. Pe baech chi'n brif weithredwr neu'n gadeirydd bwrdd a oedd yn gwario mwy na £3 miliwn i gyd, a ydych yn meddwl y byddai'n ddoeth bod yn ymwybodol o'r ffactorau hyn ar y pryd?

Mr Tyndall: You asked me to be mindful of the evidence that is available to me. There is no reference whatsoever to the impact of the introduction of charging at the National Museums and Galleries of Wales in any of the information that I have had sight of.

Mr Tyndall: Gofynasoch imi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael imi. Nid oes unrhyw gyfeiriad o gwbl at effaith cyflwyno taliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn unrhyw wybodaeth a welais i.

[20] **Jocelyn Davies:** Do you need to be an expert to work out that if people can see something for free, more people would go to see it?

[20] **Jocelyn Davies:** A oes angen ichi fod yn arbenigwr i ddeall os caiff pobl weld rhywbeth am ddim, y byddai mwy o bobl yn mynd i'w weld?

Mr Tyndall : Probably not.

Mr Tyndall: Nagoes, mae'n debyg.

[21] **Alun Cairns:** Do you also think it was sensible to include as comparators those attractions that were an integral part of much larger tourist attractions? The Auditor General for Wales's report highlights that the Tate Gallery—I apologise, my mobile phone has just rang—in Liverpool, for example, is part of a much larger tourist attraction network. Do you think that it was sensible to make comparisons with those attractions in estimating visitor numbers?

[21] **Alun Cairns:** A ydych yn meddwl hefyd ei bod yn synhwyrol cynnwys ymhlith yr atyniadau cymharol rai a oedd yn rhan annatod o atyniadau ymwelwyr llawer mwy? Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru'n tynnu sylw at y ffaith fod Oriel y Tate—mae'n ddrwg gennyf, mae fy ffôn symudol newydd ganu—yn Lerpwl, er enghraifft, yn rhan o rwydwaith atyniad twristaidd llawer mwy. A ydych yn meddwl ei bod yn synhwyrol gwneud cymariaethau â'r atyniadau hynny wrth amcangyfrif niferoedd ymwelwyr?

Mr Tyndall: Again, it is difficult to find exact comparators for any individual gallery or new attraction. What I would say is that, where factors like that are being used, it

Mr Tyndall: Eto, mae'n anodd canfod cymaryddion union ar gyfer unrhyw oriel unigol neu atyniad newydd. Yr hyn yr hoffwn ei ddweud yw, lle y defnyddir ffactorau fel y

would probably be best to consider whether some element of discounting needed to be built in. You might want to use equivalent schemes, but you might want to take account of the fact that they were a different kind of attraction, for example, or did not charge, or were located elsewhere, in making your comparisons.

rheini, y byddai'n well, mae'n debyg, ystyried a oes angen cynnwys rhyw elfen o ddisgownt. Gallech ddymuno defnyddio cynlluniau cyfwerth, ond gallech fod eisiau ystyried y ffaith eu bod yn fath gwahanol o atyniad, er enghraifft, neu nad oeddent yn codi tâl, neu eu bod mewn lleoliad arall, wrth wneud eich cymariaethau.

[22] **Alun Cairns:** Even in looking at comparators in Wales, the Royal Welch Fusiliers Regimental Museum at Caernarfon castle, for example, is it fair to assume that the castle itself was attracting visitors to the area who then may well go on to visit the museum as well?

[22] **Alun Cairns:** Hyd yn oed wrth edrych ar y cymaryddion yng Nghymru, Amgueddfa Gatrodol Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru yng Nghaernarfon, er enghraifft, a ydyw'n deg tybio fod y castell ei hun yn denu ymwelwyr i'r ardal a allai'n wir fynd ymlaen i ymweld â'r amgueddfa hefyd?

Mr Tyndall: The Auditor General for Wales has drawn that conclusion and I would not demur.

Mr Tyndall: Daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad hwnnw ac ni fyddwn yn anghytuno.

[23] **Alun Cairns:** Is it fair to say that it was not sensible to make comparisons with other larger attractions that were part of a network of visitor attractions?

[23] **Alun Cairns:** A ydyw'n deg dweud nad oedd yn synhwyrol gwneud cymariaethau gydag atyniadau eraill mwy a oedd yn rhan o rwydwaith o atyniadau i ymwelwyr?

Mr Tyndall: As I say, in making any comparisons, I think that it would be sensible to take account of factors that might influence the validity of the comparison.

Mr Tyndall: Fel y dywedais, wrth wneud unrhyw gymariaethau, yr wyf yn meddwl y byddai'n synhwyrol ystyried ffactorau a allai ddylanwadu ar ddilysrwydd y gymhariaeth.

[24] **Alun Cairns:** What about museums and

[24] **Alun Cairns:** Beth am amgueddfeydd

galleries? Do you think that they operate in the same market, as it were?

ac orielau? A ydych o'r farn eu bod yn gweithredu yn yr un farchnad, fel petai?

Mr Tyndall: They certainly share elements of the same market, but there would be elements which differ.

Mr Tyndall: Maent yn sicr yn rhannu elfennau o'r un farchnad, ond fe fyddai elfennau sydd yn wahanol.

[25] **Alun Cairns:** What about the Museum of Welsh Life at St Fagans? Is it fair to compare that with the Centre for Visual Arts?

[25] **Alun Cairns:** Beth am yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan? A ydyw'n deg cymharu honno â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol?

Mr Tyndall: Again, the Auditor General for Wales concludes that that is an all-day family attraction and is likely to have a different potential audience to a gallery.

Mr Tyndall: Eto, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad fod hwnnw'n atyniad i'r teulu am y dydd a'i bod yn debygol o fod â darpar gynulleidfa wahanol i oriel.

[26] **Alun Cairns:** I appreciate, Mr Tyndall, that this is obviously very difficult, but I am trying to get into the minds of the people who were responsible at the time by considering their thought processes. You are in the difficult position of seeking to answer on their behalf. However, if you were in that position, on the verge of spending over £3 million, would you have thought it sensible to compare the Museum for Welsh Life at St Fagans with the Centre for Visual Arts?

[26] **Alun Cairns:** Sylweddolaf, Mr Tyndall, fod hyn yn amlwg yn anodd iawn, ond yr wyf yn ceisio treiddio i feddyliau'r bobl a oedd yn gyfrifol ar y pryd drwy ystyried eu prosesau meddwl. Yr ydych chi yn y sefyllfa anodd o geisio ateb ar eu rhan. Fodd bynnag, pe baech chi yn y sefyllfa honno, ar fin gwario dros £3 miliwn, a fuasech wedi meddwl ei bod yn synhwyrol cymharu Amgueddfa Werin Sain Ffagan â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol?

Mr Tyndall: Were we considering the scheme today, the scrutiny that was applied

Mr Tyndall: Pe baem ni'n ystyried y cynllun heddiw, byddai'r archwiliad a wneid ar y

to those figures would have been such as to produce a different conclusion.

ffigurau hynny wedi arwain at gasgliad gwahanol.

[27] **Alun Cairns:** Do you say that in light of the evidence that has been provided, or would it be sensible for anyone in a senior position such as yours to think of that anyway?

[27] **Alun Cairns:** A ydych yn dweud hynny yng ngolau'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ynteu a fyddai'n synhwyrol i unrhyw un mewn uchel swydd fel eich un chi feddwl am hynny beth bynnag?

Mr Tyndall: I would expect, were it me, to think of it anyway, but then I have the benefit of this report.

Mr Tyndall: Byddwn i'n disgwyl, pe bawn i yn y sefyllfa honno, y byddwn yn meddwl am hynny beth bynnag, ond wedyn mae gennyf fi'r fantais o fod wedi gweld yr adroddiad hwn.

[28] **Alun Cairns:** Thank you. You mentioned in your response to Lynne Neagle a little earlier that there was an independent assessment on the Centre for Visual Arts by McCann Matthews Millman, a firm of business and management consultants. I refer to paragraph 2.4. What did its assessment say? I assume that you have had the opportunity to scrutinise that.

[28] **Alun Cairns:** Diolch. Fe soniasoch yn eich ymateb i Lynne Neagle ychydig yn gynharach y gwnaethpwyd asesiad annibynnol ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol gan McCann Matthews Millman, cwmni o ymgynghorwyr busnes a rheoli. Cyfeiriai at baragraff 2.4. Beth ddywedodd ei asesiad? Yr wyf yn cymryd eich bod wedi cael cyfle i archwilio hwnnw.

Mr Tyndall: Yes. I will refer to it, if I may. I will take the assessor's summary report and run through the headings that the assessor considered in reaching a conclusion. These are a standard set of headings which assessors at that time were required to use. The ratings run from one, very low, to five, which represents very high. Four is fairly

Mr Tyndall: Do. Mi gyfeiriai ato, os caf. Cymeraf grynoded adroddiad yr asesydd a rhedeg drwy'r penawdau a ystyriodd yr asesydd wrth ddod i gasgliad. Set safonol o benawdau yw'r rhain yr oedd yn ofynnol i aseswyr bryd hynny eu defnyddio. Mae'r sgoriau'n rhedeg o un, isel iawn, i bump, sy'n cynrychioli uchel iawn. Mae pedwar yn

high, and three is average.

weddol uchel, a thri yn ganolig.

On the issue of the benefit to the people and communities of Wales across regional, cultural and economic sectors, it was rated 'very high'. On access for disabled people, it was rated 'fairly high'. On quality and design, it was rated 'fairly high'. On whether a reasonable percentage of the proposal's costs would come from another source, it was rated 'very high'. On financial viability, it was rated 'fairly high'. On effective marketing and education outreach plans, it was rated 'very high'. On the viability of the management structure to produce the project successfully, it was rated 'very high'. Overall, it was rated as 'fairly high'. That translated into a project officer's report, which rated it as 'very high'.

Ar gwestiwn y budd i bobl a chymunedau Cymru ar draws sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd, fe'i sgoriwyd yn 'uchel iawn'. Ar fynediad i bobl anabl, sgoriodd yn 'weddol uchel'. Ar ansawdd a dyluniad, sgoriodd yn 'weddol uchel'. Ar pa un ai y byddai canran resymol o gostau'r cynnig yn dod o ffynhonnell arall, sgoriodd yn 'uchel iawn'. Ar hyfywdra ariannol, sgoriodd yn 'weddol uchel'. Ar gynlluniau addysg allanol a marchnata effeithiol, sgoriodd yn 'uchel iawn'. Ar hyfywdra'r strwythur rheoli i gynhyrchu'r prosiect yn llwyddiannus, sgoriodd yn 'uchel iawn'. Yn gyffredinol, sgoriodd yn 'weddol uchel'. Troswyd hynny'n adroddiad swyddog prosiect, a'i sgoriodd yn 'uchel iawn'.

[29] **Alun Cairns:** Thank you very much. Does that report say how much the scrutiny by these independent auditors cost?

[29] **Alun Cairns:** Diolch yn fawr. A ddywed yr adroddiad beth oedd cost yr archwiliad gan yr archwilwyr annibynnol hyn?

Mr Tyndall: No.

Mr Tyndall: Na.

[30] **Alun Cairns:** So we do not know how much it cost?

[30] **Alun Cairns:** Felly ni wyddom faint a gostiodd?

Mr Tyndall: No, I have not got that information to hand, but I can provide it in

Mr Tyndall: Na, nid yw'r wybodaeth honno gennyf wrth law, ond gallaf ei darparu ar

writing.

bapur.

[31] **Janet Davies:** That would be very helpful.

[31] **Janet Davies:** Byddai hynny'n gymorth mawr.

[32] **Alun Cairns:** I am intrigued by the responses that it gave. Effective management and the financial viability were 'fairly high'. Does the document highlight on what basis the firm came to that conclusion?

[32] **Alun Cairns:** Yr wyf yn rhyfeddu at yr ymatebion a roddodd. Yr oedd rheolaeth effeithiol a'r hyfywdra ariannol yn 'weddol uchel'. A ydyw'r ddogfen yn amlygu ar ba sail y daeth y cwmni i'r casgliad hwnnw?

Mr Tyndall: If I may, I will choose a couple of extracts again, which may be helpful, particularly on the business plan. I will return momentarily to the issue of sensitivity analysis of the business plan and go on from there.

Mr Tyndall: Os caf, dewisaf un neu ddau o ddyfyniadau eto, a all fod o gymorth, yn enwedig ar y cynllun busnes. Dychwelaf am ennyd at fater dadansoddiad sensitifrwydd y cynllun busnes a mynd ymlaen o'r fan honno.

'The financial projections had been subjected to a sensitivity analysis of 10 per cent, and expects to be able to reduce expenditure, should this be required in the event of income streams falling. While remaining aware of the need to sustain a quality product, overall sensitivity has been a major issue for the applicant.'

'Bu'r rhagamcanion ariannol yn destun dadansoddiad sensitifrwydd o 10 y cant, a disgwylir gallu lleihau gwariant, pe bai angen hyn pe byddai ffrydiau incwm yn gostwng. Tra'n dal i fod yn ymwybodol o'r angen i gynnal cynnyrch o ansawdd, bu sensitifrwydd cyffredinol yn bwnc pwysig i'r ymgeisydd.'

It goes on to say that

Eir ymlaen i ddweud

'the business plan, as presented, is as robust as it is possible to be for a new and non-tried

'mae'r cynllun busnes, fel y'i cyflwynwyd, mor gadarn ag y mae'n bosibl bod ar gyfer

project. While careful monitoring will be a prerequisite, the plans demonstrate a good level of financial viability being possible.'

prosiect newydd sydd heb ei brofi. Tra bydd yn rhaid wrth fonitro gofalus, dengys y cynlluniau fod lefel dda o hyfywdra cyllidol yn bosibl.'

[33] **Alun Cairns:** How was the firm selected to conduct this assessment? Are you aware of the process?

[33] **Alun Cairns:** Sut y dewiswyd y cwmni i wneud yr asesiad hwn? A ydych chi'n ymwybodol o'r broses?

Mr Tyndall: I am. If you will bear with me again, I wish to refer to some papers. In 1995, the Arts Council of Wales publicised the need to create a pool of external assessors to evaluate applications for capital lottery funding. A public meeting was held, which was attended by over 100 individuals drawn from a wide range of professions, including architects, quantity surveyors, marketing and business consultants, disability advisers and so on. Attendees were then invited to submit CVs, which were evaluated by the lottery division director. I cannot tell from the files what the specific method of evaluation was, but it appears likely that they were judged within the context of relevant experience in their particular field. The assessor who undertook this work was selected on that basis.

Mr Tyndall: Ydwyf. Os maddeuwch imi eto, hoffwn gyfeirio at rai papurau. Yn 1995, rhoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru gyhoeddusrwydd i'r angen i greu cronfa o aseswyr allanol i werthuso ceisiadau am gyllid loteri cyfalaf. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus, a fynychwyd gan dros 100 o unigolion wedi'u tynnu o amrediad eang o broffesiynau, yn cynnwys penseiri, maintfesurwyr, ymgynghorwyr marchnata a busnes, cynghorwyr anabledd ac ati. Wedyn gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno eu CV, a gafodd eu gwerthuso gan gyfarwyddwr adran y loteri. Ni allaf ddweud o edrych ar y ffeiliau pa ddull penodol o werthuso a ddefnyddiwyd, ond mae'n ymddangos yn debygol iddynt gael eu barnu o fewn cyd-destun profiad perthnasol yn eu maes arbennig. Dewiswyd yr asesydd a wnaeth y gwaith hwn ar y sail honno.

[34] **Alun Cairns:** Would you say that the taxpayer received value for money from this assessment?

[34] **Alun Cairns:** A fyddech yn dweud fod y trethdalwr wedi cael gwerth am arian o'r asesiad hwn?

Mr Tyndall: I find it difficult to speculate as to that. Clearly, in retrospect, some of the assumptions in the assessment did not prove to be robust.

Mr Tyndall: Yr wyf yn ei chael yn anodd damcaniaethu ynghylch hynny. Yn amlwg, o edrych yn ôl, profwyd nad oedd rhai o'r rhagdybiaethau yn yr asesiad yn gadarn.

[35] **Alun Cairns:** Do you think that the taxpayer or the National Assembly, or even the arts council, would have recourse to make a claim against the advice that the assessor had given?

[35] **Alun Cairns:** A ydych yn meddwl y byddai gan y trethdalwr neu'r Cynulliad Cenedlaethol, neu hyd yn oed gyngor y celfyddydau, le i wneud hawliad yn erbyn y cyngor a roddodd yr asesydd?

Mr Tyndall: That would rather depend on the nature of the contract with the assessor.

Mr Tyndall: Byddai hynny'n dibynnu braid ar natur y contract gyda'r asesydd.

[36] **Alun Cairns:** Have you analysed that?

[36] **Alun Cairns:** A ydych wedi dadansoddi hynny?

Mr Tyndall: In so far as I can determine, there is not scope for such a claim.

Mr Tyndall: Cyn belled ag y gallaf fi ddirnad, nid oes lle i hawliad o'r fath.

[37] **Alun Cairns:** Perhaps now is not the time, Chair, but I suggest that we might want to consider how the contracts are developed. That could be a lesson for the future.

[37] **Alun Cairns:** Efallai nad dyma'r amser, Gadeirydd, ond awgrymaf efallai yr hoffem ystyried sut y datblygwyd y contractau. Gallai hynny fod yn wers i'r dyfodol.

[38] **Janet Davies:** Yes, I think that that might very well be a good idea. We will look at the best way of doing that.

[38] **Janet Davies:** Ie, yr wyf yn meddwl y gallai hynny yn wir fod yn syniad da. Fe edrychwn ar y ffordd orau i wneud hynny.

[39] **Alun Cairns:** I will conclude asking my

[39] **Alun Cairns:** Gorffennaf ofyn fy

questions on this section of the report. I have two questions to follow. Is it fair to say that the whole project was viewed through rose-coloured spectacles and that there was an ideological agenda to get the project off the ground at all costs, or no matter what the cost?

Mr Tyndall: What is very evident is that there was considerable commitment to the project as one of quality, offering something that was not then available in Wales. As to the interpretation of that as proceeding at all costs, it seems to me that steps were taken to gain advice and that that advice was taken into account, but, in retrospect, the advice did not prove to be robust in the context of the eventual outcomes. So I am not sure that I could sustain that particular view, but it would, in any event, be speculation.

[40] **Alun Cairns:** Paragraph 2.4 highlights the criteria against which the assessment was made. Would you suggest to the Assembly that those criteria should be reviewed in light of the experience at the Centre for Visual Arts?

Mr Tyndall: The criteria have changed very substantially since then. It may be helpful for me at this point to refer to—sorry, I apologise, I misinterpreted your question. The difficulty was not with the assessment

nghwestiynau ar yr adran hon o'r adroddiad. Mae gennyf ddau gwestiwn i ddilyn. A ydyw'n deg dweud yr edrychwyd ar yr holl brosiect drwy wydrau rhosliw, a bod agenda ideolegol yn bodoli i gychwyn y prosiect ar unrhyw gost, neu gostied a gostio?

Mr Tyndall: Yr hyn sydd yn amlwg iawn yw bod cryn ymrwymiad i'r prosiect fel un o safon, yn cynnig rhywbeth nad oedd ar gael bryd hynny yng Nghymru. O ran dehongli hynny fel mynd rhagddi costied a gostio, mae'n ymddangos i mi y cymerwyd camau i gael cyngor ac y cymerwyd y cyngor hwnnw i ystyriaeth, ond, wrth edrych yn ôl, ni phrofodd y cyngor yn gadarn yng nghydestun y canlyniadau ar ddiwedd y dydd. Felly nid wyf yn siwr y gallwn i gynnal y farn honno, ond byddai, beth bynnag, yn fater o ddamcaniaeth.

[40] **Alun Cairns:** Mae paragraff 2.4 yn tanlinellu'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth wneud yr asesiad. A fydddech yn awgrymu wrth y Cynulliad y dylid adolygu'r meini prawf hynny yng ngoleuni'r profiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol?

Mr Tyndall: Mae'r meini prawf wedi newid yn sylweddol iawn ers hynny. Efallai y bydd o gymorth yn y fan hon os cyfeirïaf at—mae'n ddrwg gennyf, yr wyf yn ymddiheuro, camddehonglais eich cwestiwn. Nid gyda'r

criteria within the lottery Act, but with the rigour in which they were applied in the sense of the rigour of the systems that were used to establish whether those criteria were complied with.

meini prawf asesu o fewn Deddf y loteri yr oedd yr anhawster, ond gyda pha mor drwyadl y'u defnyddiwyd, hynny yw trylwyredd y systemau a ddefnyddiwyd i sefydlu a oeddid yn cydymffurfio â'r meini prawf hynny.

[41] **Alun Cairns:** In your position now, would you find it useful were there further guidance on how the criteria should be assessed and followed?

[41] **Alun Cairns:** Yn eich sefyllfa chi yn awr, a fydddech yn ei chael yn ddefnyddiol pe bai mwy o arweiniad ar sut y dylid asesu a dilyn y meini prawf?

Mr Tyndall: There has been considerable guidance since then, not least from the National Audit Office in 1999 as a consequence of a review of large-scale lottery funded projects in England. More recently, I am aware that similar conclusions were drawn in respect of the Millennium Dome. So, there has been considerable guidance since, with which we now comply.

Mr Tyndall: Cafwyd cryn arweiniad ers hynny, nid yn lleiaf gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1999 yn sgîl adolygiad o brosiectau mawr a ariennir gan y loteri yn Lloegr. Yn fwy diweddar, yr wyf yn ymwybodol y daethpwyd i gasgliadau tebyg yng nghyswllt Cromen y Mileniwm. Felly, cafwyd cryn arweiniad ers hynny, a byddwn yn cydymffurfio ag ef.

[42] **Alun Cairns:** In your position now, if you were looking forward to another significant project on this scale, would you accept that that guidance supports you or would you require further guidance or more detailed guidance or changes to that guidance?

[42] **Alun Cairns:** Yn eich sefyllfa chi yn awr, pe baech yn edrych ymlaen at brosiect sylweddol arall ar y raddfa hon, a fydddech yn derbyn fod yr arweiniad hwnnw'n eich cynnal ynteu a fyddai arnoch eisiau arweiniad pellach neu arweiniad mwy manwl neu newidiadau i'r arweiniad hwnnw?

Mr Tyndall: The judgment is that the lessons of earlier lottery projects have been taken into account in producing the current

Mr Tyndall: Y farn yw fod gwersi prosiectau loteri cynharach wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth lunio'r arweiniad cyfredol a'i

guidance and that it is far more robust than what was available at that time, in the very early days.

fod yn llawer cadarnach na'r hyn oedd ar gael bryd hynny, yn y dyddiau cynnar iawn.

[43] **Alun Cairns:** Thank you. Paragraph 2.16 on page 11 of the Auditor General's report lists a number of assumptions on which the potential visitor market was based. What was the basis of these assumptions, and how sure was the council that they were sound?

[43] **Alun Cairns:** Diolch. Mae paragraff 2.16 ar dudalen 11 yn adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol yn rhestru nifer o ragdybiaethau y seiliwyd y ddarpar farchnad ymwelwyr arnynt. Beth oedd sail y rhagdybiaethau hyn, a pha mor sicr oedd y cyngor eu bod yn gadarn?

2. **Mr Tyndall:** The assumptions were based on market research, using some of the well known processes available to the assessor for determining what the likely visitor numbers were. The council, it seems to me, would have asked, and did ask, the assessor to verify whether they were sound or not and, at the time, the judgment was that they were.

3. **Mr Tyndall:** Yr oedd y rhagdybiaethau wedi'u seilio ar ymchwil i'r farchnad, gan ddefnyddio rhai o'r prosesau adnabyddus oedd ar gael i'r asesydd ar gyfer penderfynu beth fyddai'r niferoedd ymwelwyr tebygol. Mae'n ymddangos i mi y buasai'r cyngor wedi gofyn, ac yn wir fe ofynasant, i'r asesydd gadarnhau a oeddent yn gadarn ai peidio, ac, ar y pryd, y farn oedd eu bod.

4.

5. [44] **Alun Cairns:** In September 1996, the trust commissioned an attitude survey in support of the third lottery application, but this did not include any areas outside Cardiff County Council, thus

6. [44] **Alun Cairns:** Ym mis Medi 1996, comisiynodd yr ymddiriedolaeth arolwg barn i gefnogi'r trydydd cais loteri, ond nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw ardaloedd y tu allan i Gyngor Sir

ignoring the population of the surrounding area. It also did not address the question of whether people were prepared to pay. Do you consider that these were fundamental weaknesses in that survey?

Caerdydd, gan anwybyddu felly boblogaeth yr ardal o gwmpas y ddinas. Ni cheisiwyd ateb ychwaith i'r cwestiwn a fyddai pobl yn barod i dalu. A ydych yn ystyried fod y rhain yn wendidau sylfaenol yn yr arolwg?

7.

8. **Mr Tyndall:** In retrospect, it is difficult to consider otherwise.

9. **Mr Tyndall:** Wrth edrych yn ôl, mae'n anodd dod i gasgliad arall.

10.

11. [45] **Alison Halford:** In reply to one of Alun's questions—and I assure you that we are pussy-cats compared with the House of Commons select committees—you talked about the pool of assessors and how the arts council went on to select the firm that it used. You mentioned the role of the lottery division director—that is, presumably, Jo Weston. Are you capable of enlarging upon what her role was in relation to the pool of people and how the arts council was trying to find the best people to give independent advice?

1. [45] **Alison Halford:** Wrth ateb un o gwestiynau Alun—ac fe'ch sicrhaf chi ein bod ni'n glên iawn o gymharu â phwyllgorau dethol Ty'r Cyffredin—soniasoch am y gronfa aseswyr a'r modd yr aeth cyngor y celfyddydau ati i ddewis y cwmni a ddefnyddiodd. Cyfeiriasoch at rôl cyfarwyddwr adran y loteri—sef, mae'n debyg, Jo Weston. A allwch chi ddweud mwy am beth oedd ei rôl hi mewn perthynas â'r gronfa o bobl a sut yr oedd cyngor y celfyddydau'n ceisio cael y bobl orau i roi cyngor annibynnol?

13.

14. **Mr Tyndall:** The process that I described, where there was a public meeting and then a subsequent process of assessment, is all that I

15. **Mr Tyndall:** Y broses a ddisgrifiais, lle cafwyd cyfarfod cyhoeddus ac wedyn broses o asesu, yw'r cwbl yr wyf wedi

have been able to deduce from the files available to me. More detail than that does not appear to be held.

llwyddo i'w ganfod o'r ffeiliau sydd ar gael imi. Nid yw'n ymddangos y cedwir mwy o fanylion na hynny.

16.

17. [46] **Alison Halford:** But you did mention the lottery division director in your evidence. Can you explain why you mentioned that individual? Did she take a particular role in assessing the pool of assessors or whatever?

[46] **Alison Halford:** Ond fe wnaethoch chi grybwyll cyfarwyddwr adran y loteri yn eich tystiolaeth. A allwch egluro pam ichi grybwyll yr unigolyn hwnnw? A gymerodd hi rôl arbennig wrth asesu'r gronfa aseswyr neu beth bynnag?

18.

19. **Mr Tyndall:** She did make the selection.

20. **Mr Tyndall:** Hi wnaeth y dewis.

21.

22. [47] **Alison Halford:** She made the selection—

24. [47] **Alison Halford:** Hi wnaeth ddewis—

23.

25.

26. **Mr Tyndall:** I believe.

27. **Mr Tyndall:** Mi gredaf.

28.

29. [48] **Alison Halford:** —of the firm that should be used?

30. [48] **Alison Halford:** —y cwmni y dylid ei ddefnyddio?

31.

32. **Mr Tyndall:** Of the firm that should be used, but also of who should be on the panel.

33. **Mr Tyndall:** Y cwmni y dylid ei ddefnyddio, ond hefyd pwy ddylai fod ar y panel.

34.

35. [49] **Alison Halford:** Right. Did

36. [49] **Alison Halford:** Iawn. A

she do that on her own?

wnaeth hi hynny ar ei phen ei hun?

37.

38. **Mr Tyndall:** I really do not know. I am sorry, I have looked at what evidence is available on this on the files, but that is the extent—

39. **Mr Tyndall:** Ni wn i ddim wir. Mae'n ddrwg gennyf, yr wyf wedi edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn ar y ffeiliau, ond dyna'r graddau—

40.

41. [50] **Alison Halford:** We accept that it is entirely impossible for you to know everything. This is not an exercise to embarrass or trap you, so please accept that.

42. [50] **Alison Halford:** Derbyniwn ei bod yn gwbl amhosibl i chi wybod popeth. Nid ymarferiad i'ch baglu na'ch dal chi yw hyn, felly derbyniwch hynny, os gwelwch yn dda.

43.

44. **Mr Tyndall:** The reply was not frank enough. I understood that. I did not wish to speculate beyond the facts available to me.

45. **Mr Tyndall:** Nid oedd yr ateb yn ddigon agored. Deallais hynny. Nid oeddwn yn dymuno damcaniaethu y tu hwnt i'r ffeithiau a oedd ar gael imi.

46.

47. [51] **Alison Halford:** Do you consider that any of your colleagues might be able to answer my question?

48. [51] **Alison Halford:** A ydych yn tybio y gallai unrhyw un o'ch cydweithwyr ateb fy nghwestiwn efallai?

49.

50. **Mr Tyndall:** I think that neither Frances or Rhys were with the

51. **Mr Tyndall:** Credaf nad oedd Frances na Rhys gyda'r cyngor ar y

council at the time that—

pryd y—

52.

53. [52] **Alison Halford:** They have a little more relevant experience than you, Mr Tyndall, with the greatest respect.

54. [52] **Alison Halford:** Mae ganddynt dipyn mwy o brofiad perthnasol na chi, Mr Tyndall, gyda phob parch.

55.

56. **Mr Tyndall:** Slightly more, I think.

57. **Mr Tyndall:** Ychydig yn fwy, dybiwn i.

58.

59. [53] **Alison Halford:** Considerably more—six weeks is your record, with the greatest respect again.

60. [53] **Alison Halford:** Cryn dipyn yn fwy—chwe wythnos yw'ch record chi, gyda phob parch eto.

61.

62. **Mr Tyndall:** I think that none of the senior managers who were involved in those early decisions, and none of the council members, are currently with the council.

63. **Mr Tyndall:** Yr wyf yn meddwl nad oes yr un o'r uwch reolwyr a fu'n ymwneud â'r penderfyniadau cynnar hynny, nac yr un o aelodau'r cyngor, gyda'r cyngor ar hyn o bryd.

64.

65. [54] **Alison Halford:** The only point that I was trying to make—and, again, if it is an unfair one, I accept that—was that, obviously, I would presume that the director of lottery funding played a significant part in the decision-making process,

66. [54] **Alison Halford:** Yr unig bwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud—ac, eto, os ydyw'n un annheg, derbynïaf hynny—oedd y tybiwn i, wrth reswm, y byddai cyfarwyddwr cyllid y loteri wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y

and that accounts for a large sum of the money that went missing. Therefore, it is of interest to me how much independent power the director of the lottery division had in selecting independent firms, which, notwithstanding, led to a vast loss of lottery money. Was she working on her own, in a vacuum, or did she have the support of the chair of the arts council, the finance director of the arts council, and all the other people who were responsible for the arts council at the time?

broses o wneud penderfyniadau, a bod hynny i gyfrif am swm fawr o'r arian a aeth ar goll. Felly, mae o ddiddordeb i mi faint o rym annibynnol a oedd gan gyfarwyddwr adran y loteri wrth ddewis cwmnïau annibynnol, a arweiniodd, serch hynny, at golled enfawr o arian loteri. A oedd hi'n gweithio ar ei phen ei hun, mewn faciwm, ynteu a oedd ganddi gefnogaeth cadeirydd cyngor y celfyddydau, cyfarwyddwr cyllid cyngor y celfyddydau, a'r holl bobl eraill a oedd yn gyfrifol am gyngor y celfyddydau ar y pryd?

67.

68. **Mr Tyndall:** I cannot give you an answer.

69. **Mr Tyndall:** Ni allaf roi ateb ichi.

70.

71. [55] **Alison Halford:** Okay, fine. Thank you.

72. [55] **Alison Halford:** O'r gorau, iawn. Diolch.

73.

74. [56] **David Lloyd:** At key stages in the project, the projected number of visitor numbers was reduced from 282,000 to 182,000 progressively. Why was there not a corresponding reduction in forecast admission income and why did you not raise this with the trust?

76. [56] **David Lloyd:** Ar gyfnodau allweddol yn y prosiect, gostyngwyd y rhagolwg niferoedd ymwelwyr o 282,000 i 182,000 yn raddol. Pam na chafwyd gostyngiad cyfatebol yn y rhagolwg incwm tâl mynediad a pham na chodwyd hyn gyda'r ymddiriedolaeth?

75.

78. **Mr Tyndall:** The principal reason why there was not a reduction in forecast admission income was to do with increases in the charges; thus a smaller number of people would generate the same amount of income because they would pay more. It clearly begs the following question: in which case, would that not have further depressed visitor numbers? I cannot find evidence that that question was put and answered in a detailed fashion. So the question was asked and answered but, clearly, there were other implications to the answer.

79.

80. [57] **Janet Davies:** Thank you. Val?
83. [58] **Val Lloyd:** Shall I ask my set questions now?
86. [59] **Janet Davies:** Yes, although you can ask any question you wish to ask, Val. You do not have to stick to anything.
89. [60] **Val Lloyd:** Thank you very

77.

Mr Tyndall: Y prif reswm pam na fu gostyngiad yn y rhagolwg incwm tâl mynediad oedd cynnydd yn y taliadau; felly byddai nifer lai o bobl yn cynhyrchu'r un faint o incwm am y byddent yn talu mwy. Mae'n amlwg yn codi'r cwestiwn canlynol: os felly, oni fyddai hynny wedi gostwng niferoedd ymwelwyr ymhellach? Ni allaf ddod o hyd i dystiolaeth y gofynnwyd y cwestiwn hwnnw na'i ateb yn fanwl. Felly cafodd y cwestiwn ei ofyn a'i ateb ond, yn amlwg, yr oedd goblygiadau eraill i'r ateb.

81. [57] **Janet Davies:** Diolch. Val?

82.

84. [58] **Val Lloyd:** A ddylwn i ofyn fy nghwestiynau gosod yn awr?

85.

87. [59] **Janet Davies:** Dylech, er y cewch ofyn unrhyw gwestiwn y dymunwch ei ofyn, Val. Nid oes raid ichi lynu at ddim.

88.

90. [60] **Val Lloyd:** Diolch yn fawr.

much. That is very kind of you,
Chair.

Mae hynny'n garedig iawn ar eich
rhan, Gadeirydd.

91.

92. Mr Tyndall, my initial questions relate to paragraphs 2.20 and 2.21. I am sure that in the art world, as in all other spheres, the price charged for something directly affects how much people will consume or take up. So the change in the pricing structure between the 1992 feasibility study and the 1995 lottery application must have radically altered the demand; it went up considerably. However, I see no evidence of an assessment of the impact on projected visitor numbers. Was such an assessment undertaken?

1. Mr Tyndall, mae a wnelo fy nghwestiynau cyntaf â pharagraffau 2.20 a 2.21. Yr wyf yn siwr fod y pris a godir am rywbeth yn y byd celf, fel ym mhob byd arall, yn effeithio'n uniongyrchol ar faint o bobl fydd yn dewis ei brynu neu ei ddefnyddio. Felly mae'n rhaid fod y newid yn y strwythur prisio rhwng astudiaeth ymarferoldeb 1992 a chais loteri 1995 wedi creu newid mawr yn y galw; aeth i fyny'n sylweddol. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw dystiolaeth o asesiad o'r effaith ar y niferoedd ymwelwyr a ragwelid. A wnaethpwyd asesiad o'r fath?

94.

95. **Mr Tyndall:** I am not aware of such an assessment.

96. **Mr Tyndall:** Nid wyf yn ymwybodol o asesiad o'r fath.

97.

98. [61] **Val Lloyd:** Thank you. I am aware that there was a projected 11 per cent decrease in numbers, but I am trying to find out how that 11 per cent was arrived at and why was it 11 and not 30 or 5 per cent. That was where my question was

99. [61] **Val Lloyd:** Diolch. Yr wyf yn ymwybodol y rhagamcanwyd gostyngiad o 11 y cant yn y niferoedd, ond yr wyf yn ceisio darganfod sut y daethpwyd at yr 11 y cant hwnnw a pham mai 11 ydoedd ac nid 30 neu 5 y cant.

leading. Was there an assessment?

Dyna lle'r oedd fy nghwestiwn yn arwain. A wnaethpwyd asesiad?

100.

101. **Mr Tyndall:** No, I am sorry, the answer remains that there is no information available on the file to support that change.

102. **Mr Tyndall:** Na, mae'n ddrwg gennyf, yr ateb o hyd yw nad oes dim gwybodaeth ar gael ar y ffeil i gefnogi'r newid hwnnw.

103.

104. [62] **Val Lloyd:** So the assumption I must take from that is that there was no assessment. The 11 per cent was plucked from the air.

105. [62] **Val Lloyd:** Felly yr hyn y mae'n rhaid imi ei dybio ar sail hynny yw na wnaethpwyd unrhyw asesiad. Tynnwyd yr 11 y cant o'r awyr.

106.

107. I will move on to paragraphs 2.22 to 2.24. Again, I think it is a fairly basic fact that the quality of what is on offer is a key determinant of what people will consume or take up. The type of programme detailed in the lottery submission was significantly different to that in the feasibility study. I note that the Arts Council for Wales was alerted to the fact that changes in the programme, as well as the non-inclusion of the tourist information service, were likely to have an adverse effect on visitor numbers and, therefore, revenue. Why did the Arts Council for Wales not

108. Symudaf ymlaen at baragraffau 2.22 i 2.24. Eto, yr wyf yn meddwl ei bod yn ffaith eithaf sylfaenol fod ansawdd yr hyn a gynigir yn ffactor allweddol o ran penderfynu beth y bydd pobl yn barod i'w brynu neu ei ddefnyddio. Yr oedd y math o raglen a ddisgrifiwyd yn y cais loteri yn wahanol iawn i'r hyn a gaed yn yr astudiaeth ymarferoldeb. Nodaf y rhybuddiwyd Cyngor Celfyddydau Cymru am y ffaith y byddai newidiadau yn y rhaglen, ynghyd â hepgor y gwasanaeth gwybodaeth i ymwelwyr, yn debygol o gael effaith andwyol ar niferoedd ymwelwyr ac, felly, ar

follow up those concerns with the trust?

refeniw. Pam nad aeth Cyngor y Celfyddydau at yr ymddiriedolaeth gyda'r pryderon hyn?

109.

110. **Mr Tyndall:** There are difficulties in the audit trail in establishing what information went to whom and when. It is clear that there was concern, particularly that the changes to the nature of the material being exhibited would impact on the likely visitor numbers. At this point, it is difficult to see how that information was utilised in terms of influencing any subsequent decisions. It is very clear that, from the point at which the centre opened, there were active discussions about the visitor numbers not being up to projections and what steps might be taken in order to deal with that. Nevertheless, in the intervening period no substantial changes were made to the project which would have addressed those concerns.

111. **Mr Tyndall:** Wrth geisio dilyn trywydd yr archwiliad mae'n anodd sefydlu pa wybodaeth aeth at bwy a pha bryd. Mae'n glir bod pryder, yn enwedig y byddai'r newidiadau i natur y deunydd a arddangosid yn effeithio ar y nifer debygol o ymwelwyr. O'r fan yma, mae'n anodd gweld sut y defnyddiwyd y wybodaeth honno o ran dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau wedi hynny. Mae'n glir iawn fod trafodaethau bywiog o'r adeg pan agorwyd y ganolfan ynghylch bod nifer yr ymwelwyr yn is na'r hyn a ragamcanwyd a pha gamau y gellid eu cymryd i ddellio â hynny. Serch hynny, yn y cyfamser ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau o sylwedd i'r prosiect a fyddai wedi gwneud rhywbeth am y pryderon hynny.

112.

113. [63] **Val Lloyd:** Thank you very much. I have no further questions.

114. [63] **Val Lloyd:** Diolch yn fawr. Nid oes gennyf ragor o gwestiynau.

115.

116. [64] **Janet Davies:** On that issue,

117. [64] **Janet Davies:** Ar y mater

Mr Tyndall, one of the things that struck me when I read the report was that, although there were comments about the possible impact of visitor numbers on the viability of the centre, there did not seem to be anything about what steps might have been taken to increase them. You have just commented on that; could you expand on it? For example, were coach operators contacted to arrange tours there, or were there any other particular steps that could have been taken?

hwnnw, Mr Tyndall, un o'r pethau a'm trawodd i pan ddarllenais yr adroddiad oedd, er bod sylwadau ynghylch effaith bosibl niferoedd ymwelwyr ar allu'r ganolfan i ddal ei thir, nid oedd dim i'w weld ynghylch pa gamau y gallesid eu cymryd i gynyddu'r niferoedd. Yr ydych newydd wneud sylw ar hynny; a allech chi ymhelaethu arno? Er enghraifft, a gysylltwyd â chwmnïau bysiau i drefnu teithiau yno, neu a oedd unrhyw gamau penodol eraill y gallesid eu cymryd?

118.

Mr Tyndall: It seems to me that, from the evidence available to the council at the time, probably one of the most significant items relating to this was the letter from Hugh Hudson Davies, which is referred to in the Auditor General's report and which first raises the particular issue about the changes in the nature of what was being exhibited. Unfortunately, the conclusion to that letter, which does raise the issue, is particularly concerned with the issue of there not being clashes between the programming at the National Museum and Gallery at Cathays Park and at the Old Library. The consequence of that was that action was taken on that letter and—[*Coughing.*]

Mr Tyndall: Mae'n ymddangos i mi, o'r dystiolaeth oedd ar gael i'r cyngor ar y pryd, mai un o'r eitemau mwyaf arwyddocaol ynglyn â hyn, mae'n debyg, oedd y llythyr oddi wrth Hugh Hudson Davies, y cyfeirir ato yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac sydd yn codi gyntaf y mater penodol ynghylch y newidiadau yn natur yr hyn a arddangosid. Yn anffodus, mae diwedd glo'r llythyr hwnnw, sydd yn codi'r mater, yn ymwneud yn benodol â'r angen i osgoi gwrthdaro rhwng rhaglen yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays ac un yr Hen Lyfrgell. Canlyniad hynny oedd y gweithredwyd ar y llythyr hwnnw ac—[*Pesychu.*]

Mr Tyndall: Sorry, Chair, we have all got

Mr Tyndall: Mae'n ddrwg gennyf,

your cold at this end of the table. If I am struggling a little it is because my ear, rather than my throat, has been affected.

Gadeirydd, mae eich annwyd chi arnom i gyd wrth ben yma'r bwrdd. Os ydwyf yn cael anhawster, mae hynny oherwydd mai fy nghlust, yn hytrach na fy llwnc, sydd yn dioddef.

What was indicated as being an absolute prerequisite was that there should be a memorandum of understanding between the museum and the Centre for Visual Arts in order to avoid clashes in programming that would impact on visitor numbers. As far as can be seen, once that memorandum was put in place, that appears to have been the action that was taken arising from the letter. Consequently, you can see that there was an issue raised, not by the assessor, but in the letter from Hugh Hudson Davies. The issue was raised and the arts council responded. The response was in line with the letter, but it was not a wholly adequate response. There were other elements that might have been picked up from the letter.

Yr hyn a nodwyd fel gofyniad hanfodol oedd y dylai fod memorandwm dealltwriaeth rhwng yr amgueddfa a Chanolfan y Celfyddydau Gweledol er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng rhaglenni a fyddai'n effeithio ar niferoedd ymwelwyr. Hyd y gellir gweld, ar ôl i'r memorandwm hwnnw gael ei roi ar waith, mae'n ymddangos mai dyna'r hyn a wnaethpwyd yn sgîl y llythyr. Felly, fe welwch y codwyd cwestiwn, nid gan yr asesydd, ond yn y llythyr gan Hugh Hudson Davies. Codwyd y cwestiwn ac ymatebodd cyngor y celfyddydau. Yr oedd yr ymateb yn unol â'r llythyr, ond nid oedd yn ymateb cwbl ddigonol. Yr oedd elfennau eraill y gallesid eu codi o'r llythyr.

[65] **Janet Davies:** I find it quite odd that it was necessary to establish a memorandum of understanding. Clearly, there were two museums or galleries that must have been cutting across each other to some extent if there had to be a memorandum of understanding. I would have thought that someone would have considered whether the Centre for Visual Arts would have any viability if it was going to clash with the national museum at Cathays Park. Is there

[65] **Janet Davies:** Yr wyf yn ei gweld braidd yn hynod bod angen sefydlu memorandwm dealltwriaeth. Yn amlwg, yr oedd dwy amgueddfa neu oriel a oedd yn torri ar draws ei gilydd i ryw raddau, mae'n rhaid, os bu'n rhaid cael memorandwm dealltwriaeth. Buaswn wedi tybio y byddai rhywun wedi ystyried a fyddai modd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol fod yn hyfyw o gwbl os oedd yn mynd i wrthdaro â'r amgueddfa genedlaethol ym Mharc

any information on that at all?

Cathays. A oes gwybodaeth ar hynny o gwbl?

Mr Tyndall: Yes. In essence, it is the letter from Hugh Hudson Davies and the subsequent memorandum of understanding and the minutes of the council which reflect that. However, as far as you can read, the issue was taken as being dealt with by the completion of the memorandum of understanding. That is, in essence, by agreeing not to programme in a competitive way and to be complementary, so that if there were to be a blockbuster exhibition at the museum at Cathays Park it would not clash with the opening of, for instance, a similar exhibition at the CVA.

Mr Tyndall: Oes. Yn eu hanfod, y llythyr oddi wrth Hugh Hudson Davies a'r memorandwm dealltwriaeth a chofnodion y cyngor wedi hynny sydd yn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, hyd y gellir darllen, cymerwyd bod y mater wedi'i setlo wrth gwblhau'r memorandwm dealltwriaeth; hynny yw, yn y bôn, drwy gytuno i beidio â rhaglennu mewn ffordd gystadleuol ac i fod yn gyflenwol, felly os byddai arddangosfa fawreddog yn agor yn yr amgueddfa ym Mharc Cathays, na fyddai'n gwrthdaro ag agoriad, er enghraifft, arddangosfa debyg yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol.

[66] **Janet Davies:** I can understand that that particular issue would be quite sensible. You are not, therefore, suggesting that the Centre for Visual Arts was not going to be viable unless the museum at Cathays Park could possibly transfer some of its visitors to it, if I can put it that way?

[66] **Janet Davies:** Gallaf ddeall y byddai'r mater arbennig hwnnw'n eithaf doeth. Nid ydych, felly, yn awgrymu nad oedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn mynd i allu dal ei thir oni allai'r amgueddfa ym Mharc Cathays o bosibl drosglwyddo rhai o'i hymwelwyr iddi, os caf ei roi fel hynny?

Mr Tyndall: No. I do not think that that was the issue that was raised. I think that the critical thing to me is that it seems that the clash with the National Museum and Gallery was probably the lesser of the two points raised by Hugh Hudson Davies, but it was the one that was addressed.

Mr Tyndall: Na. Nid wyf yn meddwl mai dyna'r mater a godwyd. Yr wyf yn meddwl mai'r peth allweddol i mi yw ei bod yn ymddangos, mae'n debyg, mai'r gwrthdrawiad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol oedd y lleiaf o'r ddau bwynt a godwyd gan Hugh Hudson Davies, ond mai hwnnw oedd yr un a gafodd sylw.

[67] **Janet Davies:** Thank you.

[67] **Janet Davies:** Diolch.

[68] **David Lloyd:** I turn to the concerns raised by the external assessor. The external assessor raised concerns with you about the level of expertise within the centre, the undervaluing of marketing and public relations, the absence of a marketing plan and so on. Why did the council not act on these warnings?

[68] **David Lloyd:** Trof at y pryderon a fynegwyd gan yr asesydd allanol. Mynegodd yr asesydd allanol bryderon i chi ynghylch lefel arbenigedd yn y ganolfan, y diffyg pwyslais ar farchnata a chysylltiadau cyhoeddus, absenoldeb cynllun marchnata ac ati. Pam na weithredodd y cyngor ar y rhybuddion hyn?

Mr Tyndall: Clearly, the Centre for Visual Arts did have a requirement to generate large amounts of sponsorship income. That was raised by the assessor but, if there was an intervention, it did not prove effective. I think that that is all I can say.

Mr Tyndall: Yn amlwg, yr oedd gofyniad i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol gynhyrchu symiau mawr o incwm nawdd. Codwyd hynny gan yr asesydd ond, os bu ymyriad, ni fu'n effeithiol. Yr wyf yn meddwl mai dyna'r cwbl y gallaf ei ddweud.

[69] **David Lloyd:** Following on from that, there were similar warnings about that lack of private sector sponsorship and revenue support. Why, again, did the council fail to react to these warnings and to ask the centre to address the problem?

[69] **David Lloyd:** Yn sgîl hynny, cafwyd rhybuddion tebyg am y diffyg nawdd gan y sector preifat a'r diffyg cymorth refeniw. Pam, eto, y methodd y cyngor ag adweithio i'r rhybuddion hyn a methu â gofyn i'r ganolfan roi sylw i'r broblem?

Mr Tyndall: I think that the council began to react at the point at which the centre opened and the problems became apparent. Such action as may have taken place before then did not prove effective—if, indeed, it took place.

Mr Tyndall: Yr wyf yn meddwl y dechreuodd y cyngor ymateb ar yr adeg yr agorodd y ganolfan ac y daeth y problemau i'r amlwg. Yr oedd unrhyw weithredu a ddigwyddodd cyn hynny wedi profi'n aneffeithiol—os, yn wir, y digwyddodd.

[70] **Janet Davies:** Okay. We now turn to the poor quality of the initial building estimates. Numerous changes had to be made to the building plans between 1995 and 1997. Table 10 on page 14 shows the changes. Those changes increased the cost by £1.8 million. On what basis was the first estimate considered to be reliable and on what grounds did the council feel justified in providing additional lottery grant to cover most of the increase?

[70] **Janet Davies:** Iawn. Trown yn awr at ansawdd gwael yr amcanbrisiau adeiladu cychwynnol. Bu'n rhaid gwneud nifer o newidiadau i'r cynlluniau adeiladu rhwng 1995 a 1997. Mae tabl 10 ar dudalen 14 yn dangos y newidiadau. Ychwanegodd y newidiadau hynny £1.8 miliwn at y gost. Ar ba sail yr ystyriwyd bod yr amcanbris cyntaf yn ddibynadwy ac ar ba seiliau y teimlai'r cyngor fod cyfiawnhad dros ddarparu grant loteri ychwanegol i dalu'r rhan fwyaf o'r cynnydd?

Mr Tyndall: Again, I need to preface these remarks with comments on how applications are judged at the moment compared to how this one was judged and how applications were judged at the time. The principal difference between the first application and the second stage was that there had been a change of consultants at that point: a new team of consultants had been taken on. Having taken them on, they undertook the detailed survey work of the building, which is a grade II* listed building—clearly, a building that would require considerable work in order to be suited for its new purpose.

Mr Tyndall: Eto, mae angen imi ragflaenu'r sylwadau hyn gyda sylwadau ar y modd y bernir ceisiadau ar hyn o bryd o gymharu â'r modd y barnwyd hwn a'r modd y bernid ceisiadau ar y pryd. Y prif wahaniaeth rhwng y cais cyntaf a'r ail gam oedd y bu newid ymgynghorwyr ar y pwynt hwnnw: cyflogwyd tîm newydd o ymgynghorwyr. Wedi rhoi'r gwaith iddynt, gwnaethant arolwg manwl o'r adeilad, sydd yn adeilad cofrestredig gradd II*—yn amlwg, yn adeilad y byddai angen gwaith sylweddol arno i'w addasu ar gyfer ei bwrpas newydd.

Were this proposal to be scrutinised today, there would be a three-stage scrutiny process. The application would not have been considered for grant funding until it had reached Royal Institute of British Architects stage D. In theory, that first application was

Pe archwilid y cynnig hwn heddiw, ceid proses archwilio tri cham. Ni fuasid wedi ystyried rhoi grant i'r cais heb iddo gyrraedd cam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. Mewn egwyddor, yr oedd y cais cyntaf hwnnw wedi cyrraedd cam C. Barnodd yr

at stage C. The subsequent consultants judged it to be at stage A or B. In other words, it was at the design and development stage and not at a point at which reliable estimates had been prepared. Consequently, today, that application would not have been considered. It simply could not be considered because those figures would not be expected to be robust. Until you actually begin your survey work and until you have a detailed design and detailed cost assessment, it is impossible to produce reliable estimates. So it is no surprise to me that there is such a huge variation because the first set of figures are not suitable for assessment as an application for lottery funding for a project costing in excess of £100,000.

ymgynghorwyr dilynol ei fod wedi cyrraedd cam A neu B. Mewn geiriau eraill, yr oedd ar y cam dylunio a datblygu ac nid ar bwynt lle'r oedd amcanbrisiau dibynadwy wedi'u paratoi. O ganlyniad, heddiw, ni fuasid wedi ystyried y cais hwnnw. Ni ellid ei ystyried oherwydd ni fyddai disgwyl i'r ffigurau hynny fod yn gadarn. Hyd nes ichi ddechrau mewn gwirionedd ar eich gwaith maintfesur a hyd nes bod gennych ddyluniad manwl ac asesiad costau manwl, mae'n amhosibl llunio amcanbrisiau dibynadwy. Felly, nid wyf yn synnu at amrywiaeth mor enfawr, oherwydd nid yw'r set gyntaf o ffigurau'n addas i'w hasesu fel cais am arian loteri ar gyfer prosiect yn costio dros £100,000.

[71] **Janet Davies:** It still seems surprising that the arts council did not realise that the original building estimates were so unreliable. I know that the situation has changed now, but was no independent assurance sought from an external assessor?

[71] **Janet Davies:** Mae'n dal i ymddangos yn rhyfedd bod cyngor y celfyddydau heb sylweddoli bod yr amcanbrisiau adeiladu gwreiddiol mor annibynadwy. Gwn fod y sefyllfa wedi newid bellach, ond oni cheisiwyd sicrwydd annibynnol gan asesydd allanol?

Mr Tyndall: Again, the current assessment process involves not a single assessor, but would involve an architect, a quantity surveyor, a building assessor, a disability assessor and additional specialist assessors as required. So there would be people specialising in each element of the project, assessing that element of it. In the case of this particular project there was a single

Mr Tyndall: Eto, nid yw'r broses asesu gyfredol yn cynnwys un asesydd unigol, ond byddai'n cynnwys pensaer, maintfesurwr, asesydd adeiladau, asesydd anabledd ac aseswyr arbenigol ychwanegol yn ôl y gofyn. Felly byddai pobl yn arbenigo ym mhob elfen o'r prosiect, yn asesu'r elfen honno. Yn achos y prosiect penodol hwn un asesiad a wnaethpwyd. Ni fyddem bellach yn disgwyl i

assessment. We would not now expect an individual assessor to cover the breadth of issues that need to be assessed to achieve reliable conclusions about the likely accuracy of costings and the likely sustainability of the proposals.

asesydd unigol ymdrin â'r ystod eang o faterion y mae angen eu hasesu i gael casgliadau dibynadwy ynghylch cywirdeb tebygol costïadau a'r tebygolrwydd bod y cynigion yn gynaliadwy.

[72] **Janet Davies:** I realise that, in its short life, there were not any of what have been described as blockbuster exhibitions. However, were the adaptations done in such a way that such exhibitions could have been held there, in a physical and practical sense?

[72] **Janet Davies:** Sylweddolaf na chafwyd, yn ystod ei hoes fer, unrhyw arddangosfa y gellid ei disgrifio fel un anferth, ysgubol. Fodd bynnag, a wnaethpwyd yr addasiadau yn y fath fodd fel y gallesid cynnal arddangosfeydd anferth o'r fath yno, o safbwynt corfforol ac ymarferol?

Mr Tyndall: There are two answers to that question, in a sense. Throughout the life of the project design and development, the intention was that the security levels within the gallery would be developed to be capable of holding such exhibitions. One of the requirements for holding such exhibitions is secure storage. In the event, that secure storage was not provided in the final design. Again, I would like to refer to current procedures and procedures at the time. Now, an award of lottery grant would be accompanied by a legal agreement which obliges the recipient to inform the council of any material changes to the design. At that time, such an obligation did not exist, and it is clear from the evidence that changes were made of which the council was unaware.

Mr Tyndall: Mae dau ateb i'r cwestiwn hwnnw, mewn ffordd. Trwy gydol oes dylunio a datblygu'r prosiect, y bwriad oedd datblygu lefelau diogelwch o fewn yr oriel i allu cynnal arddangosfeydd o'r fath. Un o ofynion cynnal arddangosfeydd o'r fath yw storfa ddiogel. Fel y digwyddodd pethau, ni ddarparwyd y storfa honno yn y dyluniad terfynol. Eto, hoffwn gyfeirio at weithdrefnau cyfredol a gweithdrefnau'r adeg honno. Heddiw, wrth ddyfarnu grant loteri byddid yn cynnwys cytundeb cyfreithiol a fyddai'n mynnu bod y derbyniwr yn hysbysu'r cyngor am unrhyw newidiadau materol i'r dyluniad. Bryd hynny, nid oedd gofyniad o'r fath yn bodoli, ac mae'n glir oddi wrth y dystiolaeth y gwnaethpwyd newidiadau heb yn wybod i'r cyngor.

[73] **Janet Davies:** Thank you.

[73] **Janet Davies:** Diolch.

Mr Tyndall: Coming back to your earlier question, should you require it, I am capable of providing detailed figures as to the variation between those two columns in figure 10, if members would find that helpful. I can address them now, and provide them separately in writing.

Mr Tyndall: A dychwelyd at eich cwestiwn blaenorol, pe dymunech, gallwn ddarparu ffigurau manwl parthed yr amrywiad rhwng y ddwy golofn hynny yn ffigur 10, pe bai hynny yn ddefnyddiol i'r aelodau. Gallaf siarad amdanynt yn awr, a'u darparu ar wahân mewn ysgrifen.

[74] **Janet Davies:** That would be very helpful, yes. Thank you.

[74] **Janet Davies:** Byddai hynny'n ddefnyddiol iawn, byddai. Diolch.

[75] **Eleanor Burnham:** I have some further questions about the building costs. Three points come to mind from reading the auditor's report. First, the fact that the Cardiff Old Library Trust made a number of amendments and changes. I also note that the design team changed. The third point that comes to mind is that the council was mindful of the April 1996 date, otherwise it would not have been possible to transfer the building and related funding from the then Cardiff City Council. I presume that those were some of the major considerations that perhaps hindered what might be a much easier scenario these days.

[75] **Eleanor Burnham:** Mae gennyf ragor o gwestiynau am y costau adeiladu. Daw tri phwynt i'r meddwl o ddarllen adroddiad yr archwilydd. Yn gyntaf, y ffaith i Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd wneud nifer o addasiadau a newidiadau. Nodaf hefyd y newidiwyd y tîm dylunio. Y trydydd pwynt a ddaw i'm meddwl yw bod y cyngor yn ymwybodol o'r dyddiad Ebrill 1996, neu fel arall ni fuasai'n bosibl trosglwyddo'r adeilad a'r cyllid cysylltiedig oddi wrth Gyngor Dinas Caerdydd fel yr oedd. Tybiaf fod y rhain yn rhai o'r ystyriaethau mawr a fu'n faen tramgwydd efallai i sefyllfa a fyddai o bosibl yn llawer haws y dyddiau hyn.

Mr Tyndall: Yes. I have obviously had occasion to consider the time pressure and how it was dealt with because, clearly, the

Mr Tyndall: Ie. Yn amlwg cefais achos i ystyried y pwysau amser a sut y deliwyd â hynny oherwydd bod y gallu i fynd ymlaen

capacity to proceed with the project, at least on the surface, depended on decisions being made within a particular timescale because of the constraints of local government reorganisation and the need to transfer the building and secure the grant funding from the authority and so on. That meant that the time available for scrutiny was perhaps less than might have been the case otherwise. You cannot but speculate that it may have been a contributory factor. Clearly, also, there were difficulties in the relationship between the trust and the design team, which led to the design team being changed.

â'r prosiect, o leiaf ar yr wyneb, yn dibynnu, wrth reswm, ar wneud penderfyniadau o fewn amser penodol oherwydd cyfyngiadau ad-drefnu llywodraeth leol a'r angen i drosglwyddo'r adeilad a sicrhau'r cyllid grant oddi wrth yr awdurdod ac ati. Golygodd hynny fod llai o amser ar gael ar gyfer archwilio efallai nag a fuasai fel arall. Ni ellir ond damcaniaethu y gallai hynny fod wedi bod yn ffactor cyfrannol. Yn amlwg, hefyd, yr oedd anawsterau yn y berthynas rhwng yr ymddiriedolaeth a'r tîm dylunio, a arweiniodd at newid y tîm dylunio.

119. However, I think that they are not the only factors. There are other factors as well. Without doing a survey on a building of that kind, it is very very difficult to know what you will find when you start to dig. I think that members are probably well aware that there were difficulties with the sub-structure, but also that the original building had been built on part of the churchyard of St John's church, and—

Fodd bynnag, nid dyna'r unig ffactorau yn fy marn i. Mae ffactorau eraill hefyd. Heb wneud arolwg o adeilad o'r math hwnnw, mae'n anodd iawn iawn gwybod beth ddaw i'r golwg pan ddechreuwch gloddio. Mae'n debyg gennyf fi fod yr aelodau'n ymwybodol iawn y cafwyd anawsterau gyda'r isadeiledd, ond hefyd fod yr adeilad gwreiddiol wedi'i godi ar ran o fynwent eglwys Sant Ioan, a—

120.

121. [76] **Eleanor Burnham:** Not quite as easy as if you were starting from scratch.

122. [76] **Eleanor Burnham:** Heb fod lawn mor hawdd â phe baech yn dechrau o'r dechrau.

123.

124. **Mr Tyndall:** No, absolutely not. It was a very very difficult project. It was a listed building, very prominent, with a lot of particular difficulties associated with it. Taking all of those factors into account, it meant that a decision was taken early on that, in fact, it was inevitable that the costs would differ in the event. What it might be worth saying—and I think it probably is—is that once the second stage tender had been produced using a procedure very much closer to the one that we would now use in order to produce figures for assessment, ultimately the project was then delivered on budget. So I think that it is important to say that that is largely the basis on which figures would be prepared for consideration were they prepared today.

125. **Mr Tyndall:** Na, yn hollol. Yr oedd yn brosiect anodd iawn iawn. Yr oedd yn adeilad cofrestredig, yn amlwg iawn, gyda llawer o anawsterau arbennig cysylltiedig ag ef. Ac ystyried y ffactorau hynny i gyd, golygai y gwnaethpwyd penderfyniad yn gynnar a'i bod, mewn gwirionedd, yn anochel y byddai'r costau'n wahanol ar ddiwedd y dydd. Efallai y byddai'n werth dweud—a chredaf ei bod hi—fod y prosiect yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb yn y diwedd, ar ôl i dendr yr ail gam gael ei lunio gan ddefnyddio trefn lawer iawn agosach at yr un a ddefnyddiem ni yn awr i gynhyrchu ffigurau ar gyfer asesiad. Felly yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig dweud mai ar y sail honno yn gyffredinol y câi ffigurau eu paratoi i'w hystyried pe baent yn cael eu paratoi heddiw.

126.

127. [77] **Eleanor Burnham:** Further to that and, obviously, as the other Members have said, it is not a personal vendetta against you, we are just looking at the enormous changes and I was wondering if

128. [77] **Eleanor Burnham:** Yn codi o hynny, ac, wrth reswm, fel y dywedodd yr aelodau eraill, nid ymgyrch bersonol yn eich erbyn chi yw hon, dim ond edrych yr ydym ar y newidiadau enfawr, ac yr oeddwn

some of them were fully justified and essential—for instance, the upgrading of fixtures and fittings, internal doors, the glass lobby—or were they part and parcel of what you just described as a very difficult building? For instance, I notice that the information technology had been completely omitted from the budget.

yn meddwl tybed a oedd cyfiawnhad llawn dros rai ohonynt ac a oeddent yn hanfodol—er enghraifft, uwchraddio gosodion a ffitiadau, drysau mewnol, y cyntedd gwydr—ynteu a oeddent yn rhan annatod o'r hyn yr ydych newydd ei ddisgrifio fel adeilad anodd iawn? Er enghraifft, sylwaf fod technoleg gwybodaeth wedi'i hepgor yn llwyr o'r gyllideb.

129.

130. **Mr Tyndall:** To look at some of the issues around fixtures and fittings, I will give a particular example because I think that it is quite indicative. If you look at internal doors, the original allowance was for paint quality doors and painted softwood frames with medium quality ironmongery. Subsequently, there were veneered timber doors with all good hardware ironmongery. I know that that is a very particular example, but I can choose individual ones like that. The conclusion, by and large, was that the original specifications were not commensurate with the intended use of the building. Consequently, the trust's view, which was supported by the arts council's

131. **Mr Tyndall:** Ac edrych ar rai o'r cwestiynau ynghylch gosodion a ffitiadau, rhoddaf un enghraifft benodol gan fy mod yn meddwl ei bod yn eithaf dadlennol. Os edrychwch ar ddrysau mewnol, yr oedd y swm cyntaf ar gyfer drysau o ansawdd paent a fframiau pren meddal wedi'u paentio gyda gwaith haearn o ansawdd canolig. Wedi hynny, cafwyd drysau pren wedi'i argaenu gyda gwaith haearn da i gyd. Gwn mai enghraifft benodol iawn yw hon, ond gallaf ddewis esiamplau unigol fel honno. Y casgliad, ar y cyfan, oedd nad oedd y fanyleb wreiddiol yn gymesur â'r defnydd a fwriedid i'r adeilad. Felly, barn yr ymddiriedolaeth, a gefnogwyd gan benderfyniad cyngor y celfyddydau i ariannu'r

decision to fund the changes, was that the building was originally underspecified and that contributed to the additional costs as well.

newidiadau, oedd bod manyleb wreiddiol yr adeilad yn annigonol, a chyfrannodd hynny at y costau ychwanegol hefyd.

132.

133. [78] **Eleanor Burnham:** That answers my next question really, about the substructure costs rising from £14,000 to £199,000 and the cost of the internal doors from £97,000 to £522,000. I think that you have answered that question. I think the last—

134. [78] **Eleanor Burnham:** Mae hynny'n ateb fy nghwestiwn nesaf, a dweud y gwir, ynghylch costau'r isadeiledd yn codi o £14,000 i £199,000 a chost y drysau mewnol o £97,000 i £522,000. Yr wyf yn meddwl eich bod wedi ateb y cwestiwn hwnnw. Yr wyf yn meddwl mai'r un olaf—

135.

136. **Mr Tyndall:** On the issue of the substructure, in fact, when the survey was undertaken, the foundations were found to be inadequate and piling had to be provided. Consequently, that added substantially to the cost.

Mr Tyndall: Ar fater yr isadeiledd, mewn gwirionedd, pan wnaethpwyd yr arolwg, canfuwyd bod y sylfeini'n annigonol a bu'n rhaid darparu pileri. O ganlyniad, ychwanegodd hynny at y gost yn sylweddol.

138.

137.

139. [79] **Eleanor Burnham:** My last question, which I do not even understand in reading it, is about an item relating to design interface costs and main contractor discount. Can you explain that please, because table 10 shows that it was included in the estimate at the

140. [79] **Eleanor Burnham:** Mae fy nghwestiwn olaf, nad ydwyf i hyd yn oed yn ei ddeall wrth ei ddarllen, yn ymwneud ag eitem ynghylch costau rhyngwyneb dylunio a disgownt prif contractwr. A allwch egluro hynny os gwelwch yn dda, oherwydd bod tabl 10 yn

lottery application stage but gave rise to a cost of £198,000 at the tender stage? I do not even understand. Perhaps you could help me.

dangos ei fod wedi'i gynnwys yn yr amcanbris pan wnaethpwyd y cais loteri ond ei fod wedi peri cost o £198,000 yn y cam tendro? Nid wyf i hyd yn oed yn deall. Efallai y gallech fy helpu.

141.

142. **Mr Tyndall:** I think that I will have to volunteer, with the Chair's agreement, to provide the answer to that question in writing subsequently.

143. **Mr Tyndall:** Yr wyf yn meddwl y bydd yn rhaid imi wirfoddoli, gyda chytundeb y Cadeirydd, i ddarparu'r ateb i'r cwestiwn hwnnw mewn ysgrifen yn ddiweddarach.

144.

145. [80] **Eleanor Burnham:** I will be fascinated. Thank you.

[80] **Eleanor Burnham:** Byddaf wedi fy nghyfareddu. Diolch.

146.

147. [81] **Janet Davies:** I would like to pursue the issue of the—sorry Eleanor, have you finished?

148. [81] **Janet Davies:** Hoffwn ddilyn mater y—mae'n ddrwg gennyf, Eleanor, ydych chi wedi gorffen?

149.

150. [82] **Eleanor Burnham:** Yes, thank you very much indeed. I cannot wait now; I will not be able to sleep tonight for wanting to know what that means.

151. [82] **Eleanor Burnham:** Ydwyf, diolch yn fawr iawn. Yr wyf ar bigau'r drain yn awr; byddaf yn methu â chysgu heno gan fy mod eisiau gwybod beth yw ystyr hyn.

152.

153. **Mr Tyndall:** I will get it to you by

154. **Mr Tyndall:** Fe e-bostiaf yr ateb

e-mail straight away.

atoch yn syth bin.

155.

156. [83] **Janet Davies:** I would like to pursue the issue of the need to transfer by 1996. From a different point of view, I was very involved with local government reorganisation, so I understand the problems that were arising at that time. However, if it was a viable project and it was going to be a good thing for Cardiff, I cannot see why there had to be that concern that reorganisation could have stopped it happening.

157. [83] **Janet Davies:** Hoffwn i fynd ar ôl yr angen i drosglwyddo erbyn 1996. O safbwynt gwahanol, yr oeddwn innau'n gyfrannog yn ad-drefnu llywodraeth leol, felly deallaf y problemau a godai bryd hynny. Fodd bynnag, os oedd yn brosiect ymarferol ac os oedd am fod yn beth da i Gaerdydd, ni allaf weld pam yr oedd angen y pryder hwnnw y gallai'r ad-drefnu fod wedi'i atal rhag digwydd.

158.

159. **Mr Tyndall:** I can give a partial answer and perhaps a suggestion as to what the remainder may be. It seems to me that the issue of grant funding—the £3.1 million provided by Cardiff—is that that was a Cardiff City Council commitment. My understanding of the position is that it could not commit its successor body to such a sum. However, I could be wrong about that. Certainly, the files indicate that that was the concern at the time, that, whereas Cardiff City Council had been involved in the project for several years since its inception, the new authority might

1. **Mr Tyndall:** Gallaf roi ateb rhannol ac efallai awgrym ynghylch beth allai'r gweddill fod. Mae'n ymddangos i mi, ynglyn â'r grant—y £3.1 miliwn a ddarparwyd gan Gaerdydd—mai ymrwymiad Cyngor Dinas Caerdydd ydoedd. Fy nealltwriaeth i o'r sefyllfa yw na allai rwyddo ei olynydd i swm o'r fath. Fodd bynnag, gallwn fod yn anghywir ynghylch hynny. Yn sicr, dengys y ffeiliau mai dyna oedd y pryder ar y pryd, sef, tra bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi bod yn ymwneud â'r prosiect am rai blynyddoedd ers ei gychwyn, y gallai'r awdurdod newydd fod â

take a different view as to its priorities. Therefore, there was an urgency for the grant to be dealt with. I think that that is a reasonable construction on the basis of what evidence is available.

161.

162. As to the building—again, you may wish to take advice on this—if it was not required by the successor authority, then my recollection of the arrangements at local government reorganisation was that it would have transferred to the residuary body, which would have been obliged to dispose of it. Certainly, that appears to have been the thinking that lay behind the urgency attached to the funding.

163.

166. [84] **Janet Davies:** Does that not suggest that perhaps there was some concern about the viability? Cardiff City Council became Cardiff City and County Council, obviously with greatly increased functions, as it was taking over the county functions, but, nevertheless, it was a council that was based on the same area.

barn wahanol am ei flaenoriaethau. Felly, yr oedd delio â'r grant yn fater brys. Credaf fod hynny'n ddamcaniaeth resymol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

161.

164. O ran yr adeilad—eto, efallai yr hoffech geisio cyngor ar hyn—pe na fyddai ei eisiau ar yr awdurdod olynol, yna fy nghof i o'r trefniadau adeg ad-drefnu llywodraeth leol yw y byddid wedi'i drosglwyddo i'r corff gweddilliol, a fuasai wedi gorfod ei werthu. Yn sicr, dyna, fe ymddengys, oedd y meddylfryd y tu ôl i'r brys o ran ariannu.

165.

[84] **Janet Davies:** Onid yw hynny'n awgrymu efallai fod rhywfaint o bryder ynghylch yr hyfywdra? Trodd Cyngor Dinas Caerdydd yn Gyngor Sir a Dinas Caerdydd, yn amlwg gyda chynnydd mawr mewn swyddogaethau, gan ei fod yn ymgymryd â swyddogaethau'r sir, ond, serch hynny, cyngor yn seiliedig ar yr un ardal ydoedd.

167.

Mr Tyndall: I do not think that is necessarily so, Chair. This is an issue about capital funding and the building. At no stage had the

Mr Tyndall: Nid wyf yn meddwl bod hynny'n wir o reidrwydd, Gadeirydd. Mater ynghylch cyllid cyfalaf a'r adeilad yw hwn.

council made a commitment to revenue funding, so the council's ongoing commitment was not a requirement of the original revenue proposals. However, that capital input and the input of the building were obviously crucial to the project.

Nid oedd y cyngor ar unrhyw bryd wedi ymrwymo i ddarparu cyllid refeniw, felly nid oedd ymrwymiad parhaus y cyngor yn ofynnol dan y cynigion refeniw gwreiddiol. Fodd bynnag, yr oedd y cyfraniad cyfalaf hwnnw a mewnbwn yr adeilad yn amlwg yn allweddol i'r prosiect.

[85] **Alison Halford:** It seems to my inexperienced ear that, although Cardiff City Council was not really changing, there was some fairly indecent haste to set the centre up because something might happen that was not going to happen.

[85] **Alison Halford:** Mae'n ymddangos i'm clust ddibrofiad i, er nad oedd Cyngor Dinas Caerdydd yn newid mewn gwirionedd, fod rhywfaint o frys anweddus braidd i sefydlu'r ganolfan oherwydd y gallai rhywbeth ddigwydd nad oedd yn mynd i ddigwydd.

Mr Tyndall: You may well want to take further advice on the issue of whether the building would have transferred to the residuary body, in which case, the scheme, effectively, could not have gone ahead. That does not really relate to the intentions of the authority necessarily, it just simply relates to the mechanisms that were associated with local government reorganisation. Although the successor authority covered, as you say, broadly the same landmass as its predecessor, there was no guarantee that the new authority, once elected, would be bound by the priorities of its predecessor. In fact, inevitably, it must be bound by its own priorities, being newly elected. So I suppose that, from that point of view, there was no guarantee that, although a grant was available from Cardiff City Council, the same grant could have been made available by the

Mr Tyndall: Efallai'n wir y bydd arnoch eisiau cael cyngor pellach ar y cwestiwn a fuasid wedi trosglwyddo'r adeilad i'r corff gweddilliol, a fyddai wedi golygu, i bob pwrpas, na allai'r cynllun fod wedi mynd rhagddo. Nid yw hynny yn wir yn berthnasol i fwriadau'r awdurdod o reidrwydd, ond dim ond yn berthnasol i'r peirianweithiau a oedd yn gysylltiedig ag ad-drefnu llywodraeth leol. Er bod yr awdurdod olynol, fel y dywedasoch, yn awdurdod dros yr un arwynebedd tir yn fras â'i ragflaenydd, nid oedd dim gwarant y byddai'r awdurdod newydd, unwaith y byddai wedi'i ethol, wedi'i glymu gan flaenoriaethau ei ragflaenydd. Yn wir, yn anochel, byddai'n rhaid iddo gael ei glymu gan ei flaenoriaethau ei hun, ac yntau newydd ei ethol. Felly mae'n debyg, o'r safbwynt hwnnw, nid oedd dim gwarant, er y byddai

Cardiff City and County Council, as it was subsequently.

grant ar gael gan Gyngor Dinas Caerdydd, y gallai'r un grant gael ei gynnig gan Gyngor Sir a Dinas Caerdydd, fel yr oedd wedyn.

[86] **Alison Halford:** So had you been responsible at the time, what advice would you have given yourself over whether it moved into the residual body or not?

[86] **Alison Halford:** Felly pe buasech chi'n gyfrifol ar y pryd, pa gyngor fydddech chi wedi'i roi ichi'ch hun ynghylch a fyddai'n symud i'r corff gweddilliol ai peidio?

Mr Tyndall: Were there to be similar time pressure on an application today, in the sense that if certain key decisions were not taken quickly the project would fail, and the implication of that was that scrutiny could not be properly undertaken, then we would have to not go ahead with the project, because it is evident that, in order to satisfy ourselves as a lottery distributor, and to satisfy the taxpayer that money is being properly spent, we need properly robust scrutiny measures. If the time taken to do that means that some projects cannot go ahead, then so be it.

Mr Tyndall: Pe bai pwysau amser tebyg ar gais heddiw, yn yr ystyr pe na wneid rhai penderfyniadau allweddol ar fyrder y byddai'r prosiect yn cwmpo, a phetai goblygiadau hynny'n golygu na ellid cyflawni'r archwiliad priodol, yna byddai'n rhaid inni beidio â mynd ymlaen â'r prosiect, oherwydd ei bod yn amlwg, er mwyn bodloni'n hunain fel dosbarthydd loteri, ac er mwyn bodloni'r trethdalwr bod arian yn cael ei wario'n briodol, fod angen mesurau archwilio cadarn a phriodol. Os yw'r amser a gymer i wneud hynny'n golygu na all rhai prosiectau fynd yn eu blaenau, yna bydded felly.

[87] **Janet Davies:** Before we go on to the issue of the construction and the operation of the project, we will have a coffee break.

[87] **Janet Davies:** Cyn inni fynd ymlaen at fater adeiladu a gweithredu'r prosiect, cymerwn egwyl goffi.

[Cynhaliwyd egwyl goffi rhwng 3.15 p.m. a 3.25 p.m.]

[A coffee break was held between 3.15 p.m. and 3.25 p.m.]

[88] **Janet Davies:** We will now turn to part 3 of the report, on the council's monitoring arrangements in relation to the project and to the closure of the centre. Paragraph 3.2 sets out your—well, not yours; the then arts councils'—responsibilities under directions issued by the Secretary of State for Wales in this regard. My first question must be, in view of those responsibilities, why was a full risk assessment not undertaken on the project and why were contingency plans not put into place in case those risks materialised?

Mr Tyndall: Clearly, Chair, it is a requirement now, for any project of this scale, that a full-scale risk assessment process be put in place for the building project and a sensitivity analysis, as we discussed earlier, for the business plan. At the time, that did not form part of the procedures of the arts council.

[89] **Janet Davies:** Do you think that losses could have been prevented if there had been adequate contingency planning?

Mr Tyndall: We will come later, Chair, to the issue of whether it was possible to reduce the running costs of the centre in order to produce viability in the context of the income, which was lower than originally projected. Some of the decisions that were taken were taken by the trust, rather than by

[88] **Janet Davies:** Trown yn awr at ran 3 yr adroddiad, ar drefniadau'r cyngor i fonitro'r prosiect a chau'r ganolfan. Mae paragraff 3.2 yn amlinellu'ch cyfrifoldebau—wel, nid eich rhai chi; rhai cyngor y celfyddydau ar y pryd—dan gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru parthed hyn. Rhaid i'm cwestiwn cyntaf fod, yn wyneb y cyfrifoldebau hynny, pam nad ymgwymerwyd ag asesiad risg llawn ar y prosiect a pham na sefydlwyd cynlluniau wrth-gefn rhag ofn i'r risgiau hynny ddod yn wir?

Mr Tyndall: Yn amlwg, Gadeirydd, mae'n ofynnol bellach, gydag unrhyw brosiect o'r maintoli hwn, sefydlu proses asesu risg ar raddfa lawn ar gyfer y prosiect adeiladu a dadansoddiad sensitifrwydd, fel y trafodasom yn gynharach, ar gyfer y cynllun busnes. Ar y pryd, nid oedd hynny'n rhan o weithdrefnau cyngor y celfyddydau.

[89] **Janet Davies:** A ydych yn meddwl y gallesid atal colledion pe ceid cynlluniau wrth-gefn digonol?

Mr Tyndall: Deuwn yn ddiweddarach, Gadeirydd, at y cwestiwn a oedd yn bosibl lleihau costau rhedeg y ganolfan er mwyn sicrhau hyfywdra yng nghyd-destun yr incwm, a oedd yn is nag a ragamcanwyd yn wreiddiol. Yr ymddiriedolaeth, yn hytrach na chyngor y celfyddydau, a wnaeth rai o'r

the arts council. I think that it is important to remember that the project was run by an independent trust and, therefore, some of the decisions it took will have impacted upon that. In terms of the losses—. This is a complex question to answer. I will just raise a couple of points. In the first instance, obviously, if the visitor projections had been subject to more rigorous assessment, then it is likely that the conclusion would have been that those levels of income were unlikely and then, in assessing the business plan, it would have been necessary to produce a revised budget that either showed income from an alternative source or, alternatively, showed expenditure at a lower level in order to achieve viability. As I say, were the project to be scrutinised today, that degree of scrutiny would be applied and different conclusions would have been reached.

pendenfyniadau a wnaethpwyd. Yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig cofio bod y prosiect yn cael ei redeg gan ymddiriedolaeth annibynnol ac, felly, bydd rhai o'r penderfyniadau a wnaeth wedi effeithio ar hynny. Yn nhermau'r colledion—. Dyma gwestiwn cymhleth i'w ateb. Codaf gwpl o bwyntiau yn unig. Yn y lle cyntaf, yn amlwg, pe bai'r rhagamcanion ymwelwyr wedi'u hasesu'n fwy trwyadl, yna mae'n debygol y buasid wedi dod i'r casgliad bod y lefelau incwm hynny'n annhebygol ac yna, wrth asesu'r cynllun busnes, buasai angen llunio cyllideb ddiwygiedig a fyddai naill ai'n dangos incwm o ffynhonnell arall neu, fel arall, yn dangos gwariant ar lefel is er mwyn sicrhau hyfywdra. Fel y dywedais, pe archwilid y prosiect heddiw, byddid yn mynd ati gyda'r radd honno o drylwyredd a buasid wedi dod i gasgliadau gwahanol.

[90] **Alison Halford:** May I come in on this, Chair?

[90] **Alison Halford:** A gaf fi ddod i mewn ar hyn, Gadeirydd?

[91] **Janet Davies:** Yes.

[91] **Janet Davies:** Cewch.

[92] **Alison Halford:** Mr Tyndall, you say that risk assessment was not part of the requirement at the time, but it is now. What changed that?

[92] **Alison Halford:** Mr Tyndall, dywedwch nad oedd asesu risg yn rhan o'r gofynion ar y pryd, ond ei fod bellach. Beth a achosodd y newid hwnnw?

Mr Tyndall: The principal changes brought in by the arts council came about as a

Mr Tyndall: Yr oedd y prif newidiadau a gyflwynwyd gan gyngor y celfyddydau yn

consequence of two things. First of all, the council clearly learned from projects, particularly this one, as it reviewed and revised its procedures over time. Also, I think that one of the most significant changes was the 1999 report from the National Audit Office, which clearly set out some of the lessons learned from the large English projects and set out a more stringent basis for scrutiny of projects. The new procedure was introduced later in that same year by the arts council.

ganlyniad dau beth. Yn gyntaf oll, yn amlwg fe ddysgodd y cyngor oddi wrth brosiectau, yn enwedig hwn, wrth iddo adolygu a diwygio'i weithdrefnau dros amser. Hefyd, yr wyf yn meddwl mai un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol oedd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1999, a amlinellodd yn glir rai o'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth y prosiectau mawr yn Lloegr ac a amlinellodd sail fwy cadarn i archwilio prosiectau. Cyflwynwyd y weithdrefn newydd yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn gan gyngor y celfyddydau.

[93] **Alison Halford:** Okay. Would you not have thought that a body of the calibre of the arts council should have determined that a risk assessment was required, and have not had to learn by all these mistakes? We were paying pretty senior managers, in pretty high places previously. A fairly basic thing, perhaps?

[93] **Alison Halford:** Iawn. Oni fuasech wedi meddwl y dylasai corff o safon cyngor y celfyddydau fod wedi penderfynu bod angen asesiad risg, a heb fod wedi gorfod dysgu oddi wrth yr holl gamgymeriadau hyn? Yr oeddem yn talu i reolwyr tra uchel, a fu mewn swyddi tra uchel gynt. Peth eithaf sylfaenol, efallai?

Mr Tyndall: Clearly, today, that would be an easy conclusion to reach.

Mr Tyndall: Yn amlwg, heddiw, byddai hynny'n gasgliad hawdd i ddod iddo.

[94] **Alison Halford:** It is not so long ago, Mr Tyndall.

[94] **Alison Halford:** Nid yw mor bell yn ôl, Mr Tyndall.

Mr Tyndall: I think that the one factor that I would take into account is that this was an organisation that was not originally set up for the purpose of assessing large lottery capital

Mr Tyndall: Yr wyf yn meddwl mai'r un ffactor y byddwn i'n ei ystyried yw mai corff oedd hwn na sefydlwyd yn wreiddiol i ddiben asesu grantiau cyfalaf loteri mawr o'r math

grants of this kind, and that it took it on in the course of its activities.

yma, a'i fod wedi ymgymryd â'r gwaith yng nghwrs ei weithgareddau.

[95] **Alison Halford:** So you are saying that it was not sufficiently competent, and yet it squandered £3.2 million of lottery money not knowing exactly what it was doing?

[95] **Alison Halford:** Felly yr ydych yn dweud nad oedd yn ddigon abl, ac eto iddo wastraffu £3.2 miliwn o arian loteri heb wybod yn union beth yr oedd yn ei wneud?

Mr Tyndall: I think that I was saying that it was inexperienced.

Mr Tyndall: Yr wyf yn meddwl mai dweud ei fod yn ddibrofiad yr oeddwn i.

[96] **Alison Halford:** So I repeat the question: a board took responsibility for a huge amount of lottery money without the competence to do so?

[96] **Alison Halford:** Felly ailadroddaf y cwestiwn: cymerodd y bwrdd gyfrifoldeb dros swm enfawr o arian loteri heb fod ganddo'r cymhwysedd i wneud hynny?

Mr Tyndall: Certainly, in retrospect, that might be a conclusion that you would reach.

Mr Tyndall: Yn sicr, o edrych yn ôl, dyna gasgliad y gallech ddod iddo.

[97] **Jocelyn Davies:** I should say that I was a member of the Post-16 Education and Training Committee, which heard from the Centre for Visual Arts that its financial position was buoyant about two weeks before it closed. The Committee, of course, believed the centre, but then we were inexperienced at the time, so I hope that you will forgive me for that. We have heard that, at the time, the arts council was acting in good faith in relying on the independent assessment by McCann Matthews Millman that this would probably be a viable project. I accept that.

[97] **Jocelyn Davies:** Dylwn ddweud imi fod yn aelod o'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, a glywodd gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol fod ei sefyllfa ariannol yn dda ryw bythefnos cyn iddi gau. Wrth gwrs, credodd y Pwyllgor y ganolfan, ond wedyn yr oeddem ninnau'n ddibrofiad ar y pryd, felly gobeithio y gwnewch faddau imi am hynny. Yr ydym wedi clywed bod cyngor y celfyddydau, ar y pryd, yn gweithredu'n ddifffuant wrth ddibynnu ar asesiad annibynnol McCann Matthews Millman y byddai hyn yn ôl pob tebyg yn brosiect

However, why did the arts council fail to act on concerns that were expressed later? This follows on from the questions which Dai Lloyd asked earlier, when you indicated that the intervention, if it existed at all, was ineffective. Paragraph 3.9 of the report states that the council's monitoring of this project consisted of informal discussions with the project monitor. Over a period of nearly six years between the first lottery application and the opening of the centre, only five written reports were provided by the project monitor. With hindsight, was that an adequate level of monitoring, given that £3.2 million of lottery money was at stake?

hyfyw. Derbyniaf hynny. Fodd bynnag, pam y methodd cyngor y celfyddydau â gweithredu ar bryderon a fynegwyd yn ddiweddarach? Mae hyn yn dilyn oddi ar y cwestiynau a ofynnodd Dai Lloyd yn gynharach, pan ddywedasoch fod yr ymyriad, os digwyddodd o gwbl, yn aneffeithiol. Noda paragraff 3.9 yr adroddiad bod gwaith monitro'r cyngor ar y prosiect hwn ar ffurf trafodaethau anffurfiol gyda monitor y prosiect. Dros gyfnod o bron chwe blynedd rhwng y cais loteri cyntaf ac agor y ganolfan, dim ond pum adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd gan fonitor y prosiect. O edrych yn ôl, a oedd hynny'n lefel ddigonol o fonitro, a chofio bod £3.2 miliwn o arian loteri yn y fantol?

Mr Tyndall: With hindsight, the monitoring arrangements then in place by the arts council were insufficiently robust.

Mr Tyndall: O edrych yn ôl, nid oedd y trefniadau monitro a sefydlwyd ar y pryd gan gyngor y celfyddydau yn ddigon cadarn.

[98] **Jocelyn Davies:** It seems that the success of the project rested on several layers of expertise and it seems that a number of individuals and consultants were just ignored. Have you any evidence that any intervention took place?

[98] **Jocelyn Davies:** Mae'n ymddangos bod llwyddiant y prosiect yn gorffwys ar sawl lefel o arbenigedd ac mae'n ymddangos yr anwybyddwyd nifer o unigolion ac ymgynghorwyr. A oes gennych unrhyw dystiolaeth y bu unrhyw ymyriad o gwbl?

Mr Tyndall: If I were to characterise the series of events around the revenue funding and the income which, I think, in the income estimates were being below what they should have been, it seems to me that the initial

Mr Tyndall: Pe bawn i'n disgrifio'r gyfres o ddigwyddiadau o gwmpas y cyllid refeniw a'r incwm, a oedd, mi gredaf, yn yr amcangyfrifon incwm yn is na'r hyn y dylasent fod, mae'n ymddangos i mi bod yr

report and the initial assessment gave the arts council a degree of reassurance. Subsequently came the letter from Hugh Hudson Davies, which raised some doubts. However, they were addressed by putting in place the memorandum of understanding, which, as I said earlier, was an insufficient response to those other issues. However, that appears to have been the response to that. Subsequently, as far as I can determine from the evidence now available, the next step was the suggestion that the visitor numbers would be lower than were originally anticipated but that the impact of that on the bottom line would be resolved by increasing the charging. So you still have a situation where, theoretically at least, there is a level of income which would sustain the business plan. There was always a presumption of losses in the early years; the centre was never expected to break even until year 3. So there was always some presumption of losses but, ultimately, there was a presumption that those losses would be turned around as the centre built up attendance and so on. The issue then arises of at what point is there an assessment that visitor numbers are going to be significantly lower and that changing the charging will not, in itself, meet the requirement to produce a balanced revenue account. I can find no evidence of what action was taken when that information became available. Once the centre opened then, almost immediately, it was evident that the visitor numbers were below the projection; there were difficulties with the finances and there were a series of

adroddiad cychwynnol a'r asesiad cychwynnol wedi rhoi rhyw radd o sicrwydd i gyngor y celfyddydau. Wedyn daeth y llythyr oddi wrth Hugh Hudson Davies, a gododd rai amheuan. Fodd bynnag, deliwyd â'r rhain drwy sefydlu'r memorandwm dealltwriaeth, a oedd, fel y dywedais yn gynharach, yn ymateb annigonol i'r materion eraill hynny. Fodd bynnag, dyna, mae'n debyg, oedd yr ymateb i hynny. Wedi hynny, cyn belled ag y gallaf ganfod oddi wrth y dystiolaeth sydd yn awr ar gael, y cam nesaf oedd yr awgrym y byddai'r niferoedd ymwelwyr yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol ond y gellid datrys effaith hynny ar y llinell waelod drwy gynyddu'r taliadau a godid. Felly yr ydych yn dal i fod mewn sefyllfa lle, yn ddamcaniaethol o leiaf, mae lefel o incwm a fyddai'n cynnal y cynllun busnes. Yr oedd bob amser ragdybiaeth o golledion yn y blynyddoedd cynnar; ni ddisgwyliwyd erioed i'r ganolfan dalu'i ffordd tan flwyddyn 3. Felly yr oedd rhyw ragdybiaeth o golledion erioed, ond, yn y pen draw, yr oedd rhagdybiaeth y câi'r colledion hynny eu troi o gwmpas wrth i'r ganolfan ddenu ymwelwyr ac ati. Cyfyd y cwestiwn wedyn ar ba bwynt y ceir asesiad y bydd niferoedd ymwelwyr yn sylweddol is ac na fydd newid y taliadau, ynddo'i hun, yn ateb y gofyn i gynhyrchu cyfrif refeniw cytbwys. Ni allaf ganfod unrhyw dystiolaeth o beth a wnaethpwyd pan ddaeth y wybodaeth honno i law. Unwaith yr agorodd y ganolfan yna, bron yn syth, yr oedd yn amlwg fod y niferoedd ymwelwyr yn is na'r rhagamcan; yr oedd trafferthion gyda'r cyllid a chafwyd

interventions. However, there appears to me to be, potentially, a point before the construction was completed and the building opened when effective intervention seems to have commenced.

cyfres o ymyriadau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi fod yna, o ran potensial, bwynt cyn cwblhau'r gwaith adeiladu ac agor yr adeilad pryd y mae'n debyg y dechreuwyd ymyrryd yn effeithiol.

[99] **Jocelyn Davies:** I see. So when you said that the intervention, if it existed at all, was ineffective, you cannot find any evidence that it existed at all?

[99] **Jocelyn Davies:** Yr wyf yn gweld. Felly pan ddywedasoch fod yr ymyriad, os digwyddodd o gwbl, yn aneffeithiol, ni allwch ganfod unrhyw dystiolaeth iddo fodoli o gwbl?

Mr Tyndall: No.

Mr Tyndall: Na.

[100] **Jocelyn Davies:** Okay, thank you. The Auditor General's report records that you had difficulty obtaining financial information from the trust during the construction phase and also when the centre was opened to the public. Consequently, you were unsighted when the centre was experiencing financial difficulties. Why was this, and what should you have done to get more information? How was the trust allowed to get away with denying you that information?

[100] **Jocelyn Davies:** Iawn, diolch. Cofnoda adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ichi gael trafferth cael gwybodaeth ariannol oddi wrth yr ymddiriedolaeth yn ystod y cam adeiladu a hefyd pan agorwyd y ganolfan i'r cyhoedd. O ganlyniad, nid oeddech yn gallu gweld pan oedd y ganolfan mewn trafferthion ariannol. Pam yr oedd hyn, a beth ddylech chi fod wedi'i wneud i gael mwy o wybodaeth? Sut y caniatwyd i'r ymddiriedolaeth gadw'r wybodaeth honno rhagoch chi?

Mr Tyndall: Again, if I can refer to the current arrangements, the current arrangements put in place a legal agreement with the offer of grant, and that agreement obliges the recipient of the grant to provide information to the arts council. Such a legal agreement, with that obligation, and in that

Mr Tyndall: Eto, os caf gyfeirio at y trefniadau cyfredol, mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys cytundeb cyfreithiol gyda'r cynnig grant, ac mae'r cytundeb hwnnw'n mynnu bod y sawl sy'n derbyn y grant yn darparu gwybodaeth i gyngor y celfyddydau. Nid oedd cytundeb cyfreithiol o'r fath, gyda'r

way, was not in place at that time with the trust. So the arts council was obliged to rely on the trust providing the information, because it did not have arrangements in place to compel it to provide the information.

amod hwnnw, ac yn y ffordd honno, yn bodoli ar yr adeg honno gyda'r ymddiriedolaeth. Felly bu'n rhaid i gyngor y celfyddydau ddibynnu ar yr ymddiriedolaeth i ddarparu'r wybodaeth, oherwydd nid oedd ganddo drefniadau yn eu lle i'w gorfodi i ddarparu'r wybodaeth.

[101] **Jocelyn Davies:** It could not compel or legally demand it, but surely, as the trust was relying considerably on the arts council for funding, you had a deterrent or something that you could use so that you could get information from it? It did not have all the cards, did it? You had some of them.

[101] **Jocelyn Davies:** Ni allai orfodi na'i hawlio'n gyfreithiol, ond siawns, gan fod yr ymddiriedolaeth yn dibynnu'n helaeth ar gyngor y celfyddydau am arian, nad oedd gennych chi fesur atal neu rywbeth y gallech ei ddefnyddio er mwyn cael gwybodaeth oddi wrthi? Nid hi oedd yn dal y cardiau i gyd, nage? Yr oedd gennych chi rai.

Mr Parry: One of the few measures that we used, certainly in the last stages of when the centre was open, was to withhold money. We were giving it an annual revenue grant by that time, which was paid in stages and, towards the point in time close to the closure of the centre, the centre wanted the next instalment, but we withheld it. In figure 6 you will see that we did not pay the total revenue aid for 2000-01. If you like, by that time, the centre had got into difficulties where we could not agree on the final solution.

Mr Parry: Un o'r ychydig fesurau a ddefnyddiasom, yn sicr yn y cyfnod olaf yr oedd y ganolfan yn agored, oedd cadw arian yn ôl. Erbyn hynny yr oeddem yn rhoi grant refeniw blynyddol iddi, a delid fesul tipyn, a thua'r amser yn agos at y pryd y caewyd y ganolfan, yr oedd ar y ganolfan eisiau'r rhandaliad nesaf, ond bu inni ei gadw'n ôl. Yn ffigur 6 fe welwch na wnaethom dalu cyfanswm y cymorth refeniw am 2000-01. Os mynnwch, erbyn hynny, yr oedd y ganolfan wedi mynd i drafferthion lle na allem gytuno ar yr ateb terfynol.

[102] **Jocelyn Davies:** But up until that point, the arts council continued to give funding, even though it was being denied

[102] **Jocelyn Davies:** Ond hyd at y pwynt hwnnw, parhaodd cyngor y celfyddydau i roi arian, er bod y ganolfan yn gwrthod rhoi

financial information?

gwybodaeth ariannol iddo?

Mr Tyndall: Some of the information that has been referred to were changes to the design of the building, which had cost consequences. The difficulty there was that changes were being made without recourse to the council, so the council was not aware that information was being withheld until it became aware of the changes. Once it was aware of the changes, it could demand the information. As part of the process of monitoring the build contract, changes were made to the way in which information had to be provided by the trust, which prevented that from recurring. Those changes were subsequently consolidated into the ones I described, which are now based upon legal agreement and forbid those kind of changes unless the information is provided. However, the two issues are separate. On the revenue side, grant was withheld because it was known that information was required that had not been provided on the capital side. The difficulty was that the changes were made without the arts council's knowledge, and therefore, we were not aware that information was not being provided until subsequent to the changes coming to light.

Mr Tyndall: Rhan o'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati oedd newidiadau i ddyluniad yr adeilad, yr oedd canlyniadau cost iddynt. Yr anhawster yn y fan honno oedd bod newidiadau'n cael eu gwneud heb gyfeirio at y cyngor, felly nid oedd y cyngor yn ymwybodol bod gwybodaeth yn cael ei gadw'n ôl hyd nes y daeth i wybod am y newidiadau. Unwaith yr oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, gallai hawlio'r wybodaeth. Fel rhan o broses monitro'r contract adeiladu, gwnaethpwyd newidiadau i'r modd yr oedd yn rhaid i wybodaeth gael ei darparu gan yr ymddiriedolaeth, er mwyn sicrhau na ddigwyddai hynny eto. Cafodd y newidiadau hynny eu cydgyfnerthu yn ddiweddarach i roi'r amodau a ddisgrifiais, sydd bellach yn seiliedig ar gytundeb cyfreithiol ac sydd yn gwahardd y math hwnnw o newidiadau oni ddarperir y wybodaeth. Fodd bynnag, dau fater gwahanol yw'r rhain. Ar yr ochr refeniw, cadwyd grant yn ôl oherwydd y gwyddid fod gwybodaeth yn eisiau a heb ei darparu ar yr ochr gyfalaf. Yr anhawster oedd fod y newidiadau wedi'u gwneud heb yn wybod i gyngor y celfyddydau, ac felly, nad oeddem yn ymwybodol fod gwybodaeth heb ei darparu hyd nes yr oedd y newidiadau wedi dod yn hysbys.

[103] **Jocelyn Davies:** Well, obviously, you could not ask about something that you did not know existed. However, how do you deal

[103] **Jocelyn Davies:** Wel, yn amlwg, ni allech holi am rywbeth nad oeddech yn gwybod am ei fodolaeth. Fodd bynnag, sut

with independent assessors' concerns now? Do the independent assessors that you use now attend decision meetings?

fyddwch chi'n delio â phryderon aseswyr annibynnol erbyn hyn? A fydd yr aseswyr annibynnol a ddefnyddiwyd erbyn hyn yn mynychu cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau?

Mr Tyndall: No. There is a formal process. It involves the independent assessor's report being provided to the capital committee and being taken into account by the project officer. It may be helpful, and perhaps the Committee would like me to provide copies of this, but just to illustrate the scale of the difference I will show you two flowcharts. (1) You will not be able to see the detail, but it gives the scale. One shows the assessment procedure undertaken at the time and the other shows the current assessment procedure. At this point, this box shows the independent assessments which are taken at the development stage of the application, so there is more detail available and the assessment is likely to be more robust in any event. That is fed into the full application submission and assessment. Then, again, the external assessors are involved in a second phase of consideration. So, in that instance, you have one external assessor involved once. At the subsequent stage you have the project going through, with the external assessors involved as the project develops, so that they are in a position to pick up those changes and to comment on them. Their comments are then available to the capital committee in making its recommendation.

Mr Tyndall: Na. Mae yna broses ffurfiol. Dan honno darperir adroddiad yr asesydd annibynnol i'r pwyllgor cyfalaf ac fe'i hystyrir gan y swyddog prosiect. Efallai y bydd o gymorth, ac efallai yr hoffai'r Pwyllgor imi ddarparu copïau o hyn, ond er mwyn darlunio maint y gwahaniaeth fe ddangosaf ddau siart llif ichi. (1) Ni fyddwch yn gallu gweld y manylion, ond mae'n rhoi'r raddfa. Mae un yn dangos y drefn asesu a ddilynwyd ar y pryd ac mae'r llall yn dangos y drefn asesu gyfredol. Yn y pwynt hwn, mae'r blwch hwn yn dangos yr asesiadau annibynnol a wneir yng nghyfnod datblygu'r cais, felly mae mwy o fanylion ar gael ac mae'r asesiad yn debygol o fod yn gadarnach beth bynnag. Bwydir hynny i mewn i gyflwyniad ac asesiad y cais llawn. Yna, eto, mae'r aseswyr allanol yn cymryd rhan mewn ail gam ystyried. Felly, yn yr enghraifft honno, mae un asesydd allanol yn cyfrannu un waith. Yn y cam canlynol mae'r prosiect yn mynd drwodd, gyda chyfranogiad yr aseswyr allanol wrth i'r prosiect ddatblygu, felly maent mewn safle i nodi'r newidiadau hynny a rhoi sylwadau arnynt. Wedyn bydd eu sylwadau ar gael i'r pwyllgor cyfalaf wrth iddo wneud ei argymhelliad.

168. It may interest you to know that, at the capital committee meeting tomorrow, one of the projects going before it is recommended to be deferred because the assessment of the business plan suggests that there are over-ambitious projections with regard to income. So constantly since, there are examples of the new process operating and detecting the kind of shortcomings found here and acting upon them. There are far more checks and balances and controls within the system. It has probably led to suggestions that it has become more difficult and more bureaucratic, but I think that you will understand that that is a necessary part of it. When you look at the flowcharts, there simply is no real comparison between what was in place originally and what is in place now.

Efallai y bydd o ddiddordeb ichi wybod fod argymhelliad i ohirio un o'r prosiectau sydd yn mynd ger bron y pwyllgor cyfalaf yfory oherwydd fod yr asesiad o'r cynllun busnes yn awgrymu fod rhagamcanion goruchelgeisiol o ran incwm. Felly yn gyson ers hynny, ceir enghreifftiau o'r broses newydd ar waith ac yn canfod y math o ddiffygion a ganfuwyd yma ac yn gweithredu arnynt. Mae llawer mwy o fesurau pwyso-a-mesur a rheoli o fewn y system. Mae'n debyg fod hyn wedi arwain at awgrymiadau ei bod wedi mynd yn anoddach ac yn fwy biwrocataidd, ond yr wyf yn meddwl y deallwch fod hynny'n rhan angenrheidiol ohoni. Pan edrychwch ar y siartiau llif, does dim gwir gymhariaeth yn y bôn rhwng yr hyn oedd yn digwydd yn wreiddiol a'r hyn sydd yn digwydd yn awr.

[104] **Jocelyn Davies:** In early 1998, the monitor, who was appointed by the arts council, alerted you to problems and recommended that the council require the applicant to undertake a sensitivity analysis in relation to income streams and to consider the worst case scenario. Why did you not do that? Why pay for advice and then ignore it?

[104] **Jocelyn Davies:** Yn gynnar yn 1998, tynnodd y monitor, a benodwyd gan gyngor y celfyddydau, eich sylw at broblemau, ac argymhellodd y dylai'r cyngor fynnu bod yr ymgeisydd yn ymgymryd â dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â ffrydiau incwm ac ystyried y sefyllfa waethaf a allai ddigwydd. Pam na wnaethoch chi hynny? Pam talu am gyngor ac wedyn ei anwybyddu?

[105] **Alison Halford:** It was not him, Jocelyn.

[105] **Alison Halford:** Nid ef oedd wrthi, Jocelyn.

[106] **Jocelyn Davies:** No. When I say ‘you’, I do not mean you personally.

[106] **Jocelyn Davies:** Nage. Pan ddywedaf ‘chi’, nid chi yn bersonol sydd gennyf dan sylw.

Mr Tyndall: No. It is a reasonable question. I have examined the files in detail on this point and I find exactly what you describe. I read to you from the original assessment report the list of checkpoints going on a scale from one to five. On the viability box in a subsequent file, rather than being marked one to five, it was marked n/a—not applicable—and reference was made to a separate assessment. So I have sought to find details of that separate assessment, which is precisely what you are referring to, and I have not been able to do so.

Mr Tyndall: Na. Mae’n gwestiwn rhesymol. Yr wyf wedi archwilio’r ffeiliau’n fanwl ar y pwynt hwn ac yn canfod yn union yr hyn a ddisgrifiwch. Darllenaf ichi o’r adroddiad asesu gwreiddiol y rhestr o bwyntiau gwirio yn mynd ar raddfa o un i bump. Ar y blwch i farcio hyfywdra y cynllun mewn ffeil ddiweddarach, yn hytrach na chael marc un i bump, fe’i marciwyd n/a—*not applicable*—a chyfeiriwyd at asesiad ar wahân. Felly yr wyf wedi ceisio dod o hyd i fanylion yr asesiad arall hwnnw, sef yr union beth yr ydych yn cyfeirio ato, ac nid wyf wedi llwyddo i wneud hynny.

[107] **Jocelyn Davies:** So who would have decided not to act on those recommendations?

[107] **Jocelyn Davies:** Felly pwy fyddai wedi penderfynu peidio â gweithredu ar yr argymhellion hynny?

Mr Tyndall: Well, I do not know that anyone decided not to act on the recommendations. I have no evidence at all as to what happened as a consequence.

Mr Tyndall: Wel, ni wn fod neb wedi penderfynu peidio â gweithredu ar yr argymhellion. Nid oes gennyf dystiolaeth o gwbl ynghylch beth a ddigwyddodd o ganlyniad.

[108] **Jocelyn Davies:** So were council members aware of those recommendations?

[108] **Jocelyn Davies:** Felly a oedd aelodau'r cyngor yn ymwybodol o'r argymhellion hynny?

Mr Tyndall: That report would have been known to the council, yes. It was attached to the minutes of the capital committee.

Mr Tyndall: Byddai'r adroddiad hwnnw'n hysbys i'r cyngor, byddai. Yr oedd ynghlwm wrth gofnodion y pwyllgor cyfalaf.

[109] **Jocelyn Davies:** We must acknowledge that, despite the fact that a report existed which suggested that further analysis should take place, the council went on to provide a third lottery grant of £555,000 in May of that year. Am I correct in saying that? That the council went on to give more money even though the monitor, who had been commissioned by the council, had suggested that you should do this thing which did not happen?

[109] **Jocelyn Davies:** Rhaid inni gydnabod, er gwaethaf y ffaith bod adroddiad yn bodoli a awgrymai y dylid gwneud dadansoddiad pellach, yr aeth y cyngor ati i ddarparu trydydd grant loteri o £555,000 ym mis Mai y flwyddyn honno. A ydwyf yn gywir i ddweud hynny? Fod y cyngor wedi mynd ati i roi mwy o arian er bod y monitor, a gomisiynwyd gan y cyngor, wedi awgrymu y dylech wneud y peth hwn na ddigwyddodd?

Mr Tyndall: That appears to be the case, yes.

Mr Tyndall: Mae'n ymddangos mai dyna fel y bu, ie.

[110] **Jocelyn Davies:** So was there something else going on that we have not heard about yet? Was there intense lobbying by this applicant of the council members?

[110] **Jocelyn Davies:** Felly a oedd rhywbeth arall yn mynd ymlaen nad ydym ni wedi clywed amdano eto? A fu lobïo dwys gan yr ymgeisydd hwn gydag aelodau'r cyngor?

Mr Tyndall: Here is a situation where there is a report that says a separate report on the key issue, the visitor numbers and the

Mr Tyndall: Dyma sefyllfa lle mae adroddiad sydd yn dweud fod adroddiad arall ar y mater allweddol, sef niferoedd

sensitivity and so on, is being commissioned. However, there is no evidence at all that enables me to determine what happened. To say that there was intense lobbying and so on—I cannot tell you whether a report was commissioned. There was no evidence that it was, but I cannot tell you that it was not because I have no firm evidence that it was not. There certainly is not one available to me.

ymwelwyr a sensitifrwydd ac ati, yn cael ei gomisiynu. Fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth o gwbl sydd yn fy ngalluogi i benderfynu beth a ddigwyddodd. O ran dweud y bu lobiö dwys ac ati—ni allaf ddweud wrthych a gomisiynwyd adroddiad. Nid oedd tystiolaeth i hynny ddigwydd, ond ni allaf ddweud wrthych na ddigwyddodd oherwydd nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth bendant na ddigwyddodd. Yn sicr, nid oes adroddiad ar gael i mi.

[111] **Jocelyn Davies:** Were any other applications managed in this same way? Do you know?

[111] **Jocelyn Davies:** A ddeliwyd ag unrhyw geisiadau eraill yn yr un modd? A wyddoch chi?

Mr Tyndall: Not that I am aware of.

Mr Tyndall: Ddim hyd y gwn i.

[112] **Jocelyn Davies:** Does the arts council have a lottery division?

[112] **Jocelyn Davies:** A oes gan gyngor y celfyddydau adran loteri?

Mr Tyndall: It does at the moment.

Mr Tyndall: Oes, ar y funud.

[113] **Jocelyn Davies:** Did it then?

[113] **Jocelyn Davies:** A oedd ganddo bryd hynny?

Mr Tyndall: Yes.

Mr Tyndall: Oedd.

[114] **Jocelyn Davies:** Do you think that the staff from the lottery division would be able

[114] **Jocelyn Davies:** A ydych yn meddwl y byddai'r staff o adran y loteri yn gallu ateb

to answer any of these questions?

unrhyw rai o'r cwestiynau hyn?

Mr Tyndall: None of the senior staff who were then in the lottery division remain in the employ of the council.

Mr Tyndall: Nid oes neb o'r staff uwch a oedd yn adran y loteri bryd hynny yn dal i fod yn gyflogedig gan y cyngor.

[115] **Janet Davies:** I have had several requests for extra questions and I will call Members in turn. Eleanor?

[115] **Janet Davies:** Yr wyf wedi cael sawl cais am gwestiynau ychwanegol ac fe alwaf ar Aelodau yn eu tro. Eleanor?

[116] **Eleanor Burnham:** I feel very sorry that you have to answer these almost impossible questions. It seems to be a complete catalogue of disasters, a bit like the Dome, I suppose. It is incredible to think that there were so many senior people involved—and I am grateful to Alison Halford for giving us this written chronology of key office holders. They are obviously all senior civil servants who have come to be chair and chief executives and I would just like to put on record that I think it is rather sad. You would imagine that these people, in their previous and present posts, have a great deal to answer for.

[116] **Eleanor Burnham:** Mae'n flin iawn gennyf eich bod yn gorfod ateb y cwestiynau hyn, sydd bron yn amhosibl i'w hateb. Mae'n ymddangos yn gatalog llawn o drychinebau, ychydig fel y Dôm, am wn i. Mae'n anhygoel meddwl fod a wnelo cymaint o bobl uchel â'r peth—ac yr wyf yn ddiolchgar i Alison Halford am roi'r rhestr ysgrifenedig hon o ddeiliaid swyddi allweddol inni. Maent yn amlwg i gyd yn uwch weision sifil sydd bellach yn gadeiryddion ac yn brif weithredwyr a hoffwn gofnodi fy mod i'n meddwl ei fod braidd yn drist. Fe feddylicch fod gan y bobl hyn, yn eu swyddi blaenorol a phresennol, lawer iawn i ateb drosto.

[117] **Alison Halford:** Another point of clarification please, Mr Tyndall. You said, I think—I might have got it wrong—that although there was a lottery director, she became the chief executive. Is that right?

[117] **Alison Halford:** Pwynt arall o eglurhad, os gwelwch yn dda, Mr Tyndall. Dywedasoch, yr wyf yn meddwl—efallai fy mod wedi camgymryd—fod yna gyfarwyddwr loteri, ond ei bod wedi'i phenodi'n brif weithredwr. A yw hynny'n gywir?

Mr Tyndall: Yes.

Mr Tyndall: Ydyw.

[118] **Alison Halford:** But did I understand you correctly when you said that she would not be able to answer the kind of questions that my colleague, Jocelyn Davies, was putting to you, or have I misunderstood?

[118] **Alison Halford:** Ond a ddeellais chi'n iawn pan ddywedasoch na fyddai hi'n gallu ateb y math o gwestiynau yr oedd fy nghyd-Aelod, Jocelyn Davies, yn eu gofyn i chi, ynteu a wyf fi wedi camddeall?

Mr Tyndall: I understood the question to be whether there were current post holders within the lottery division of the arts council who could answer those questions.

Mr Tyndall: Y cwestiwn fel y deellais i oedd a oedd deiliaid swyddi cyfredol o fewn adran loteri cyngor y celfyddydau a allai ateb y cwestiynau hynny.

[119] **Alison Halford:** But you would have assumed—

[119] **Alison Halford:** Ond byddech wedi cymryd—

Mr Tyndall: My answer was that none of the senior staff who were then within the lottery division remain within the employ of the arts council. I am not sure whether I misconstrued the question.

Mr Tyndall: Fy ateb i oedd nad oedd neb o'r staff uwch a oedd yn adran y loteri bryd hynny yn dal i fod yng nghyflogaeth cyngor y celfyddydau. Nid wyf yn siwr a wneuthum i gamddehongli'r cwestiwn.

[120] **Alison Halford:** I misunderstood. However, having looked at the files very carefully, would you feel that those who were in place at the time would be able to better answer Jocelyn Davies's questions?

[120] **Alison Halford:** Fi wnaeth gamddeall. Fodd bynnag, wedi edrych ar y ffeiliau'n ofalus iawn, a deimlech chi y byddai'r rheini a oedd yn gweithio yno ar y pryd yn gallu ateb cwestiynau Jocelyn Davies yn well?

Mr Tyndall: It is difficult for me to answer that.

Mr Tyndall: Mae'n anodd i mi ateb hynny.

[121] **Alison Halford:** Who would be able to answer that question, I wonder?

[121] **Alison Halford:** Pwy fyddai'n gallu ateb y cwestiwn hwnnw, tybed?

Mr Tyndall: Clearly, the question is, does the lack of documentary evidence indicate a lack of activity or does it indicate—

Mr Tyndall: Yn amlwg, y cwestiwn yw, a yw'r diffyg tystiolaeth ddogfennol yn arwydd o ddiffyg gweithredu ynteu a yw'n arwydd o—

[122] **Alison Halford:** No, the question is do you think that the previous director of the lottery division, who is the previous chief executive—bearing in mind that you have spent a great deal of time going through the files—or can you speculate that she might be able to answer the questions put to you by Jocelyn Davies?

[122] **Alison Halford:** Na, y cwestiwn yw a ydych chi'n meddwl y gallai cyfarwyddwr blaenorol adran y loteri, sef y cyn brif weithredwr—gan gofio eich bod chi wedi treulio llawer iawn o amser yn mynd drwy'r ffeiliau—neu a allwch chi ddamcaniaethu y gallai hi fod yn abl i ateb y cwestiynau a ofynnodd Jocelyn Davies ichi?

Mr Tyndall: It seems to me that there are matters of detail that the individual involved might be better placed to answer than I would.

Mr Tyndall: Mae'n ymddangos i mi fod yna faterion o fanylder y byddai'r unigolyn perthnasol efallai mewn sefyllfa well i'w hateb nag y byddwn i.

[123] **Alison Halford:** So that is a definite maybe, is it?

[123] **Alison Halford:** Felly mae hynny'n efallai pendant, ydyw?

[124] **Janet Davies:** I think we will leave it at that, Alison.

[124] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl y gadawn bethau yn y fan yna, Alison.

[125] **Alison Halford:** Just one last point, please. I am concerned that, as my notes say,

[125] **Alison Halford:** Dim ond un pwynt olaf, os gwelwch yn dda. Yr wyf yn bryderus

the trust continued to deny the arts council information. Rhys seems to indicate by the nod of his head that I have got that bit right. However, the trust supremo was a former chair of the arts council and, therefore, I am surprised that there was this gulf of information between the former chair of the arts council and the then current chair of the arts council, whom we know is not you. Can you explain why they did not seem to be talking to each other when we would assume that they would all be singing from the same hymn sheet?

fod yr ymddiriedolaeth, yn ôl fy nodiadau i, wedi parhau i gelu gwybodaeth oddi wrth gyngor y celfyddydau. Mae Rhys fel pe bai'n amneidio gyda'i ben fy mod i'n iawn ynglyn â hynny. Fodd bynnag, yr oedd pennaeth yr ymddiriedolaeth yn gyn gadeirydd cyngor y celfyddydau ac, felly, yr wyf yn synnu bod y fath fwch o wybodaeth rhwng cyn gadeirydd cyngor y celfyddydau a chadeirydd cyfredol cyngor y celfyddydau ar y pryd, y gwyddom nad chi ydyw. A allwch chi egluro pam ei bod yn ymddangos nad oeddent yn siarad â'i gilydd, a ninnau'n tybio y byddent i gyd yn canu o'r un llyfr emynau?

Mr Tyndall: I will ask Rhys to briefly pick up on that point, but it seems to me that the main communication flow at issue was that at official level. The trust officials and staff were not providing information.

Mr Tyndall: Gofynnaf i Rhys ddod i mewn yn fyr ar y pwynt hwnnw, ond mae'n ymddangos i mi mai'r llif cyfathrebu ar lefel swyddogion yw'r prif un y mae cwestiwn yn ei gylch. Nid oedd swyddogion yr ymddiriedolaeth a staff yn darparu gwybodaeth.

[126] **Alison Halford:** Officials? What level are we talking about, please? I am not entirely au fait with your pecking order.

[126] **Alison Halford:** Swyddogion? Am ba lefel yr ydym ni'n siarad, os gwelwch yn dda? Nid wyf yn gwbl gyfarwydd â'ch hierarchaeth.

Mr Tyndall: Sorry, I meant the trust staff. Nothing more complex than that.

Mr Tyndall: Mae'n ddrwg gennyf, staff yr ymddiriedolaeth oedd dan sylw gennyf. Dim mwy cymhleth na hynny.

[127] **Alison Halford:** So you are now

[127] **Alison Halford:** Felly yr ydych yn awr

painting a picture that the senior people did not know what the junior people were doing? yn peintio darlun nad oedd y bobl uwch yn gwybod beth yr oedd y bobl is yn ei wneud?

Mr Tyndall: No. They were not providing information. The requests for information were coming from staff at the arts council to staff at the trust and they were not getting responses. That was where the communication difficulties lay at that point.

Mr Tyndall: Na. Nid oeddent yn darparu gwybodaeth. Yr oedd y ceisiadau am wybodaeth yn dod oddi wrth staff yng nghyngor y celfyddydau i staff yn yr ymddiriedolaeth ac nid oeddent yn cael atebion. Dyna lle'r oedd yr anawsterau cyfathrebu ar y pwynt hwnnw.

[128] **Alison Halford:** And that is nothing to do with senior management, nothing for it to embrace, discover, monitor, find out, check on and question?

[128] **Alison Halford:** Ac nid yw hynny'n ddim o fusnes yr uwch reolwyr, yn ddim byd iddynt ei goleddu, ei ddarganfod, ei fonitro, canfod amdano, ymchwilio iddo a holi yn ei gylch?

Mr Tyndall: It was a question about the council and whether there was a difficulty of communication between the board of the trust and the council, which I suspect, by that time, there was. However, on the particular issues about information, the financial monitoring and so on would have come from the staff of the trust to the staff of the arts council. The arts council staff at the time—as Rhys will be able to confirm, I think—were having difficulty obtaining that information from their counterparts at the trust.

Mr Tyndall: Cwestiwn am y cyngor ydoedd ac ynghylch a oedd trafferthion cyfathrebu rhwng bwrdd yr ymddiriedolaeth a'r cyngor, ac yr wyf yn amau bod erbyn yr adeg honno. Fodd bynnag, ar y materion penodol ynghylch gwybodaeth, byddai'r monitro ariannol ac ati wedi dod oddi wrth staff yr ymddiriedolaeth i staff cyngor y celfyddydau. Yr oedd staff cyngor y celfyddydau ar y pryd—fel y gall Rhys gadarnhau, fe gredaf—yn cael anhawster cael y wybodaeth honno oddi wrth y staff cyfatebol yn yr ymddiriedolaeth.

Mr Parry: Just to confirm what you said, Peter, there was a difficult relationship

Mr Parry: Dim ond i gadarnhau'r hyn a ddywedasoch, Peter, yr oedd perthynas anodd

between the arts council and the trust. It was a continuous struggle to get up to date financial information, for example, from the trust.

rhwng cyngor y celfyddydau a'r ymddiriedolaeth. Yr oedd yn frwydr barhaus i gael y wybodaeth ariannol ddiweddaraf, er enghraifft, oddi wrth yr ymddiriedolaeth.

[129] **Alison Halford:** This was never brought to the attention of the very senior people in both the trust and the arts council?

[129] **Alison Halford:** Ni ddaethpwyd â hyn fyth i sylw'r bobl uchel iawn yn yr ymddiriedolaeth a chyngor y celfyddydau ill dau?

Mr Parry: I cannot recall any discussions at our council regarding the matter. Certainly, our council was informed of the financial difficulties. If you like, it was informed of financial difficulties in spite of the fact that we were having difficulty obtaining financial information from the trust.

Mr Parry: Ni allaf gofio unrhyw drafodaethau yn ein cyngor ni ynglyn â'r mater. Yn sicr, cafodd ein cyngor ni wybod am y trafferthion ariannol. Os dymunwch, cafodd wybod am y trafferthion ariannol er gwaethaf y ffaith ein bod yn cael anhawster cael gwybodaeth ariannol oddi wrth yr ymddiriedolaeth.

[130] **Alun Cairns:** Mr Tyndall, we appreciate that you are in a difficult position, but I would ask you not to be defensive in replying to this question if at all possible. It seems to me that the simple situation is that the trust seemed to have a great deal of influence over the arts council, in that it seemed to persuade the arts council to continue to provide funding, and yet withheld information that might have influenced the decision to go the other way. We have heard about the relationship, in that the former chairman was linked with the trust and so on. Is there any potential link or conflict that we should be aware of that might have been

[130] **Alun Cairns:** Mr Tyndall, yr ydym yn sylweddoli eich bod mewn sefyllfa anodd, ond hoffwn ofyn ichi beidio â bod yn amddiffynnol wrth ateb y cwestiwn hwn os oes modd o gwbl. Mae'n ymddangos i mi mai'r sefyllfa syml oedd bod yr ymddiriedolaeth fel petai â chryn dipyn o ddylanwad dros gyngor y celfyddydau, yn gymaint ag yr ymddangosai ei bod yn darbwylo cyngor y celfyddydau i barhau i ddarparu cyllid, ac eto'n dal yn ôl wybodaeth a allasai wthio'r penderfyniad y ffordd arall. Yr ydym wedi clywed am y berthynas, sef bod y cyn gadeirydd yn gysylltiedig â'r ymddiriedolaeth ac ati. A oes unrhyw

pointed out to you, raised to you or suggested to you since you have been in post or even before that time? I ask you not to be defensive. We are trying to get to the bottom of the issues to ensure that they do not happen again. It is not a witch hunt; it is a preventative issue for future occasions.

gysylltiad neu wrthdaro posibl y dylem fod yn ymwybodol ohono y gallesid bod wedi ei grybwyll, ei godi neu ei awgrymu wrthyhychi ers i chi fod yn eich swydd neu hyd yn oed cyn hynny? Gofynnaf ichi beidio â bod yn amddiffynnol. Yr ydym yn ceisio mynd i waelod y materion hyn er mwyn sicrhau na ddigwyddant eto. Nid erlid gwrachod yr ydym; mater ataliol ydyw er mwyn achlysuron yn y dyfodol.

Mr Tyndall: I have obviously asked the question as to what the nature of the relationships were and were there conflicts and so on. It seems to me that there is a couple of construction of events possible. There is one that suggests that this is a prestigious project with enormous enthusiasm for it. People wanted to see this happen and wanted to see it succeed. It was the first major lottery project in Wales. There was a degree of cachet attached to achieving that distinction. Initially at least, it is very clear that the then Cardiff City Council and the arts council were collaborating to bring this about. The trust came in place and there was general agreement all round that this was a desirable project and that it was worth making the investment in order to make it succeed, and that it was something that there was a need for in the context of the display of art in Wales that would justify public investment as a consequence. From that stage onwards it is possible and reasonable to put a construction on events that there were many visionary and well intentioned people. You

Mr Tyndall: Yn amlwg yr wyf fi wedi holi ynghylch natur y berthynas ac a oedd gwrthdaro ac ati. Mae'n ymddangos i mi fod dau ddadansoddiad posibl o'r hyn a ddigwyddodd. Awgryma un fod hwn yn brosiect llawn bri gyda brwdfrydedd enfawr drosto. Yr oedd pobl yn deisyfu gweld hyn yn digwydd ac eisiau ei weld yn llwyddo. Hwn oedd y prosiect loteri mawr cyntaf yng Nghymru. Yr oedd rhyw radd o ragoriaeth ynghlwm wrth sicrhau'r statws hwnnw. Ar y cychwyn, o leiaf, mae'n amlwg iawn fod Cyngor Dinas Caerdydd, fel yr oedd, a chynghor y celfyddydau yn cydweithio i wireddu hyn. Sefydlwyd yr ymddiriedolaeth ac yr oedd cytundeb cyffredinol fod hwn yn brosiect i'w ddeisyfu a'i bod yn werth gwneud y buddsoddiad er mwyn gwneud iddo lwyddo, a'i fod yn rhywbeth yr oedd angen amdano yng nghyd-destun arddangos celf yng Nghymru a fyddai'n cyfiawnhau buddsoddiad cyhoeddus o ganlyniad. O hynny ymlaen mae'n bosibl ac yn rhesymol cynnig y dadansoddiad fod yna lawer o bobl â gweledigaeth a bwriadau da. Wedyn yr

then hit a situation where, clearly, the degree of scrutiny applied to the project falls short of what we would apply today. So ultimately, you have a situation where what started off as something visionary and well intentioned suddenly becomes a source of difficulty because of the financial issues that we have explored at some length today. It is clear that the work on developing the building did not go smoothly and nor were the builders' plans sufficiently robust to enable the project to be sustainable. At that point, it seems to me that relationships began to become more strained. Inevitably, it will reach a point.

Once the project was open, I think the intention of the arts council at that time was to find out whether, such a large investment having been made, it was possible to find a sustainable future for it. So the arts council invested some money in keeping the centre open for a little longer, but that was to provide sufficient time for a detailed assessment to be done as to whether there were any options that would allow the centre to stay open. At that point, of course, the trust decided that the option which came forward, which would have been a scaling down of the original ambitious vision, was simply too much of a compromise—from its perception of what the artistic requirements were—to proceed, and it closed the centre.

ydych yn taro sefyllfa lle, yn amlwg, mae'r radd o archwilio a wnaethpwyd ar y prosiect yn syrthio'n fyr o'r hyn a wnaem ni heddiw. Felly yn y pen draw, mae gennych sefyllfa lle mae rhywbeth a gychwynnodd fel testun gweledigaeth a bwriadau da yn sydyn yn troi'n ffynhonnell trafferthion oherwydd y materion ariannol yr ydym wedi ymchwilio iddynt yn faith heddiw. Mae'n amlwg nad aeth y gwaith ar ddatblygu'r adeilad rhagddo'n ddidrafferth ac nad oedd cynlluniau'r adeiladwyr yn ddigon cadarn i alluogi'r prosiect i fod yn gynaliadwy. Ar y pwynt hwnnw, mae'n ymddangos i mi fod y berthynas wedi dechrau dangos mwy o strae'n. Yn anochel, bydd yn cyrraedd pwynt.

Unwaith yr oedd y prosiect yn agored, yr wyf yn meddwl mai bwriad cyngor y celfyddydau ar y pryd oedd canfod a fyddai modd, wedi gwneud buddsoddiad mor fawr, sicrhau dyfodol cynaliadwy iddo. Felly buddsoddodd cyngor y celfyddydau rywffaint o arian i gadw'r ganolfan yn agored am ychydig eto, ond yr oedd hynny er mwyn darparu digon o amser i wneud asesiad manwl ynghylch a oedd unrhyw opsiynau a fyddai'n caniatáu i'r ganolfan aros ar agor. Ar y pwynt hwnnw, wrth gwrs, penderfynodd yr ymddiriedolaeth fod yr opsiwn a ddaeth ymlaen, sef lleihau'r weledigaeth uchelgeisiol wreiddiol, yn ormod o gyfaddawd—yn ôl ei chanfyddiad hi o'r gofynion celfyddydol—i fynd ymlaen, a chaeodd y ganolfan.

Now, in terms of conflict of interest, I have pursued this issue, notably in advance of today, because it seems to me a reasonable question to expect to be asked. I have found no evidence. It does seem to me that, in essence, this was a project that started off well, made some serious mistakes and then stumbled into failure and relationships broke down at that point. I can only speculate and, clearly, those are issues that you will want to reach conclusions on yourselves. However, that is my perception, on the basis of the evidence available to me.

Yn awr, yn nhermau gwrthdaro buddiannau, yr wyf wedi edrych i mewn i'r mater hwn, yn enwedig cyn heddiw, oherwydd y mae'n ymddangos i mi yn gwestiwn rhesymol i ddisgwyl y caiff ei ofyn. Nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth. Y mae'n ymddangos i mi, yn ei hanfod, mai prosiect a ddechreuodd yn dda oedd hwn, cyn gwneud rhai camgymeriadau difrifol ac wedyn baglu i fethiant a bod y berthynas wedi chwalu bryd hynny. Ni allaf ond damcaniaethu ac, yn amlwg, mae'r rheini'n faterion y byddwch chi eisiau dod i gasgliadau amdanynt eich hunain. Fodd bynnag, dyna fy nghanfyddiad i, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael imi.

[131] **Alun Cairns:** I am grateful for that answer, in that you have said that you have investigated a potential conflict of interest between the trust and the arts council in light of your expectation of questions today. For you to make investigations, there must have been some sort of indication, or there must have been something to spark that thought off in your mind. Clearly, if it is difficult to share whatever information may well exist now, can that information be shared so that the Auditor General could pursue those issues, in the hope that we can establish and rule out any potential conflict of interest or confirm that one did exist?

a'r lleill sydd yn bresennol. Gofynnaf i'r tystion gyflwyno'u hunain yn ffurfiol mewn munud. Yn gyntaf, af drwy ychydig o faterion cadw ty. Mae ymddiheuriadau ac eilyddion. Mae Eleanor Burnham yma yn lle Kirsty Williams, mae Dai Lloyd yma yn lle Dafydd Wigley, ac mae Lorraine Barrett yma yn lle Janice Gregory. Bydd yn rhaid i Lorraine ymadael am ran o'r cyfarfod. Gellir gwneud cyfraniadau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar gael. Bydd coffi ar gael i'r aelodau a'r tystion tua 3 p.m.

I will now turn to the first item on the agenda. This is the second evidence-taking session in connection with the National Audit Office report on behalf of the Auditor General for Wales, 'The Arts Council of Wales: Centre for Visual Arts', published on 15 November 2001. Members will recall that, at the last meeting, it was decided to invite those responsible at the time for the decisions outlined in the Auditor General's report to this evidence session. I would like to emphasise that all the witnesses are here by invitation, and that they are not presently in post with the arts council. However, the Committee felt that it was important to enable those who made the decisions outlined in the report to have an opportunity to put forward their understanding of events. So this evidence session is a special case, in that we will be hearing from former accounting officers and a former Chair of the arts council. Therefore, I would like to welcome

Trof yn awr at yr eitem gyntaf ar yr agenda. Dyma'r ail sesiwn cymryd tystiolaeth yn gysylltiedig ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol', a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2001. Fe gofia'r aelodau y penderfynwyd, yn y cyfarfod diwethaf, wahodd y rheini oedd yn gyfrifol ar y pryd am y penderfyniadau a amlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r sesiwn tystiolaeth hwn. Hoffwn bwysleisio mai trwy wahoddiad y mae'r holl dystion yma, ac nad ydynt ar hyn o bryd mewn swyddi gyda chyngor y celfyddydau. Fodd bynnag, teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig galluogi'r rheini a wnaeth y penderfyniadau a amlinellwyd yn yr adroddiad i gyflwyno'u dealltwriaeth hwy o bethau. Felly mae'r sesiwn tystiolaeth hwn yn achos arbennig, gan y byddwn yn clywed oddi wrth gyn swyddogion cyfrifo a chyn

the witnesses, and express the Committee's gratitude for accepting our invitation to attend this evidence session. Would you please introduce yourselves for the formal record? I would like to point out that there will be a verbatim record of this evidence-taking session.

Gadeirydd cyngor y celfyddydau. Felly, hoffwn groesawu'r tystion, a mynegi diolch y Pwyllgor am dderbyn ein gwahoddiad i fynychu'r sesiwn tystiolaeth hwn. A fyddech gystal â chyflwyno'ch hunain er mwyn y cofnod ffurfiol? Hoffwn nodi y bydd cofnod gair-am-air o'r sesiwn cymryd tystiolaeth hwn.

Sir Richard Lloyd Jones: Thank you very much, Chairman. Before I introduce myself, I first must apologise. I have a stinking cold and a cough, so if you cannot hear me, please would you let me know and I will try to speak up. I am Richard Lloyd Jones. I was Permanent Secretary at the Welsh Office from 1985 to 1993, and chairman of the Arts Council of Wales from 1994 to March 1999.

Syr Richard Lloyd Jones: Diolch yn fawr, Gadeirydd. Cyn imi gyflwyno fy hun, rhaid imi yn gyntaf ymddiheuro. Mae annwyd a pheswch ofnadwy arnaf, felly os na allwch fy nghlywed, rhowch wybod imi, ac mi geisiaf godi fy llais. Richard Lloyd Jones wyf fi. Yr oeddwn yn Ysgrifennydd Parhaol yn y Swyddfa Gymreig o 1985 hyd 1993, ac yn gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru o 1994 hyd Fawrth 1999.

Mr Jenkins: Madam Cadeirydd, diolch am y gwahoddiad. Fy enw i yw Emyr Jenkins. Yr oeddwn yn brif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru o 1993 tan 1998, pan ymddeolais. A gaf wneud un nodyn bach? Fe hoffwn roi tystiolaeth yn Gymraeg yn y Pwyllgor hwn, ond gan fod y dogfennau y byddwn yn dyfynnu ohonynt yn Saesneg, ac y bydd llawer o'r drafodaeth ar y dogfennau hynny, yr wyf wedi penderfynu rhoi tystiolaeth yn Saesneg. Fodd bynnag, byddaf yn gwbl barod i ateb unrhyw gwestiwn a ofynnir yn Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mr Jenkins: Madam Chair, thank you for the invitation. My name is Emyr Jenkins. I was chief executive of the Arts Council of Wales from 1993 to 1998, when I retired. May I make one brief comment? I would like to give evidence in Welsh in this Committee, but since the documents from which we will be quoting are in English, and since much of the discussion will be on those documents, I have decided to give evidence in English. However, I will be more than willing to answer any question asked in Welsh through the medium of Welsh.

Ms Weston: I am Joanna Weston. I was lottery director of the arts council from 1994 until 1998, and chief executive of the arts council from 1998 to 2000.

Ms Weston: Joanna Weston wyf fi. Fi oedd cyfarwyddwr loteri cyngor y celfyddydau o 1994 hyd 1998, a phrif weithredwr cyngor y celfyddydau o 1998 hyd 2000.

Mr Edge: I am Robert Edge. I was the lottery director at the arts council from May 1998 until February 2001. I would like to correct one thing in the chair's opening statement—I have never been an accounting officer.

Mr Edge: Robert Edge wyf fi. Fi oedd cyfarwyddwr y loteri yng nghyngor y celfyddydau o Fai 1998 hyd Chwefror 2001. Hoffwn gywiro un peth yn natganiad agoriadol y cadeirydd—ni fûm erioed yn swyddog cyfrifo.

Mr Shortridge: I am Jon Shortridge, Permanent Secretary to the Assembly.

Mr Shortridge: Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, wyf fi.

[185] **Janet Davies:** Thank you very much. I think that we need to crack on with this as quickly as possible. I would like to go straight into the first question, which is to all the witnesses, except Mr Shortridge. I would like, before we get into the detail of the Centre for Visual Arts, to ask you to start by telling us about the post that each of you held with the Arts Council of Wales. I know that you have mentioned that briefly, but perhaps you could enlarge slightly on that and on the role in respect of lottery funding by the arts council and, in particular, the Centre for Visual Arts.

[185] **Janet Davies:** Diolch yn fawr. Yr wyf yn meddwl bod angen inni fwrw ymlaen â hyn cyn gynted ag y bo modd. Hoffwn fynd yn syth i mewn i'r cwestiwn cyntaf, a gyfeirir at y tystion i gyd, ac eithrio Mr Shortridge. Hoffwn, cyn inni fynd i mewn i fanylion Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ofyn ichi gychwyn drwy ddweud wrthym am y swydd yr oedd pob un ohonoch yn ei dal gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Gwn eich bod wedi cyfeirio at hynny'n fyr, ond efallai y gallech ymhelaethu ychydig ar hynny ac ar y rôl yng nghyswllt grantiau loteri gan gyngor y celfyddydau ac, yn enwedig, yng nghyswllt Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

Sir Richard Lloyd Jones: As chairman of

Syr Richard Lloyd Jones: Fel cadeirydd

the arts council, I was concerned particularly with, not the management, but taking the responsibility for chairing the council's meetings. The council, as you know, is a charter body. It had 18 members at the time. I saw my role as very much one of leading the council to taking decisions. Underneath, there was a complex structure of committees. That included art form development committees and other committees. The main one that you need to know about is the lottery board, which scrutinised all lottery applications and, unless they were pretty small in financial value, they all came to the arts council for approval. I think that that was my main role. I could talk for a long time about the responsibilities of a chairman of a body like that but, essentially, it was a voluntary body and a charter body too.

Mr Jenkins: I had a dual role in a way, Madam Chairman, without wanting to confuse the Committee. I was appointed in 1993, when it was the Welsh Arts Council, not the Arts Council of Wales. The Welsh Arts Council was a sub-committee of the Arts Council of Great Britain. Therefore, I was employed for the first year of my employment with the arts council by the Arts Council of Great Britain as the director of the Welsh Arts Council. Then, of course, there was cultural devolution in 1994, where each national arts council devolved from the Arts Council of Great Britain and I became chief executive of the Arts Council of Wales,

cyngor y celfyddydau, yr oeddwn i'n ymwneud yn arbennig nid â rheoli, ond â chymryd y cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd y cyngor. Mae'r cyngor, fel y gwyddoch, yn gorff siarter. Yr oedd ganddo 18 o aelodau ar y pryd. Gwelwn mai fy rôl i yn anad dim oedd arwain y cyngor i wneud penderfyniadau. Oddi tanodd, yr oedd adeiledd cymhleth o bwyllgorau. Yr oedd hynny'n cynnwys pwyllgorau datblygu ffurfiau celfyddydol a phwyllgorau eraill. Y prif un y mae angen i chi wybod amdano yw bwrdd y loteri, a archwiliai bob cais loteri, ac oni bai eu bod yn weddol fychan o ran gwerth ariannol, deuai pob un at gyngor y celfyddydau i'w gymeradwyo. Yr wyf yn meddwl mai dyna oedd fy mhrif rôl i. Gallwn siarad yn faith am gyfrifoldebau cadeirydd corff fel hwnnw ond, yn ei hanfod, yr oedd yn gorff gwirfoddol ac yn gorff siarter hefyd.

Mr Jenkins: Yr oedd gennyf fi rôl ddeuol mewn ffordd, Madam Cadeirydd, heb fod eisiau drysu'r Pwyllgor. Fe'm penodwyd yn 1993, pan elwid y Cyngor, yn Saesneg, yn *Welsh Arts Council*, ac nid yn *Arts Council of Wales*. Yr oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn is-bwyllgor i Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr. Felly, fe'm cyflogwyd i am flwyddyn

working directly to the Welsh Office rather than working to the then Department of National Heritage. It is a little complicated, but there was that dual role. In that role, then, from 1994 onwards, when Sir Richard became chairman, I was chief executive up until the end of March 1998. So, I will have to confine my remarks, Madam Chairman, to the period of the initial decision to go ahead with the CVA up until just before the third application.

gyntaf fy nghyflogaeth gyda chyngor y celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr fel cyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Wedyn, wrth gwrs, cafwyd datganoli diwylliannol yn 1994, pryd y datganolwyd pob cyngor celfyddydau cenedlaethol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr ac y deuthum i'n brif weithredwr y Cyngor Celfyddydau Cymru newydd, yn gweithio'n uniongyrchol i'r Swyddfa Gymreig yn hytrach nag i'r Adran Dreftadaeth Genedlaethol fel yr oedd. Yn y cyfnewid hwn, mae ychydig yn gymhleth, ond yr oedd y rôl ddeuol honno'n bodoli. Yn y rôl honno, felly, o ymlaen, pan ddaeth Syr Richard i'r gadair, yr oeddwn i'n brif weithredwr hyd ddiwedd Mawrth 1998. Felly, bydd yn rhaid imi gyfyngu fy sylwadau, Madam Cadeirydd, i gyfnod y penderfyniad gwreiddiol i fynd ymlaen â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol hyd at ychydig cyn y trydydd cais.

Ms Weston: I was employed by the arts council in September 1994. That was before the lottery had started; it started in November 1994. My first task was to set up the lottery unit, as it was then, from nothing, from a blank sheet of paper. The framework that I worked within was made up of Government directions, which were issued by the Welsh Office but originated from the Department of National Heritage; the finance directions, which were quite detailed instructions on financial systems; and some very helpful and detailed guidelines, which the National Audit Office issued for all of the 11 lottery distributors, on how they should develop their systems. Those guidelines ranged from staff policies to disaster recovery procedures to having an application system with application forms that answered the questions

Ms Weston: Fe'm cyflogwyd i gan gyngor y celfyddydau ym Medi 1994. Yr oedd hynny cyn dechrau'r loteri; dechreuodd honno ym mis Tachwedd 1994. Fy ngorchwyl cyntaf oedd sefydlu'r uned loteri, fel yr oedd bryd hynny, o ddim byd, oddi ar ddalen wag o bapur. Yr oedd y fframwaith y gweithiwn ynddo wedi'i lunio o gyfarwyddiadau'r Llywodraeth, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ond a darddai o'r Adran Dreftadaeth Genedlaethol; y cyfarwyddiadau cyllid, a oedd yn gyfarwyddiadau eithaf manwl ar systemau ariannol; a rhai canllawiau buddiol a manwl iawn, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i bob un o'r 11 dosbarthwr loteri, ar sut y dylent ddatblygu'r systemau. Amrywiai'r canllawiau hynny o bolisiau staff i weithdrefnau adfer argyfwng, i gael system geisiadau â ffurflenni cais a

that needed to be answered and so forth. We needed to get what was known then as a statement of fitness from the Department of National Heritage, and that had to be signed off by the NAO before we could do that, confirming that we were working within our regulatory framework and so on. When we did, we were the first arts council of the four in the UK to be given the statement of fitness and we started distribution in March 1995. So, the grant to the CVA, as I think members know, was actually in the first round of grants that were made. I do not know if you want me to go on into my role as chief executive; I suspect that that would be a waste of time.

atebai'r cwestiynau yr oedd angen eu hateb, ac ati. Yr oedd angen inni gael yr hyn a elwid bryd hynny yn ddatganiad addasrwydd oddi wrth yr Adran Dreftadaeth Genedlaethol, ac yr oedd yn rhaid i hwnnw gael ei lofnodi gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cyn y gallem wneud hynny, i gadarnhau ein bod yn gweithio o fewn ein fframwaith rheoleiddiol ac yn y blaen. Pan wnaethom hynny, ni oedd y cyntaf o'r pedwar cyngor celfyddydau yn y DU i gael y datganiad addasrwydd a dechreuasom ddosbarthu ym Mawrth 1995. Felly yr oedd y grant i'r ganolfan, fel y tybiaf y gwyr yr aelodau, mewn gwirionedd yn y cylch cyntaf o grantiau a wnaethpwyd. Ni wn a ydych am imi fynd ymlaen i sôn am fy rôl fel prif weithredwr; yr wyf yn amau mai gwastraff amser fyddai hynny.

[186] **Janet Davies:** I think that is fine, thank you very much. Mr Edge?

[186] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl fod hynny'n iawn, diolch yn fawr. Mr Edge?

Mr Edge: Jo Weston has already outlined the original role of the lottery director. I became the lottery director in May 1998, as I have already said, which was shortly before the National Lottery Act 1998 got Royal Assent. In that role, I had to implement the changes that were in the 1998 Act that were not in the original 1993 Act. We were told to be more strategic, to have a strategic plan, and there were other changes in the policy directions, and the financial directions had also been rewritten. My role, essentially, was to put those changes in place, to continue with the

Mr Edge: Mae Jo Weston eisoes wedi amlinellu rôl wreiddiol y cyfarwyddwr loteri. Deuthum i'n gyfarwyddwr y loteri ym Mai 1998, fel y dywedais eisoes, sef ychydig cyn i Ddeddf Loteri Genedlaethol 1998 gael Cydsyniad Brenhinol. Yn y rôl honno, yr oedd yn rhaid imi weithredu'r newidiadau a oedd yn Neddf 1998 ond nad oedd yn Neddf wreiddiol 1993. Dywedwyd wrthym am fod yn fwy strategol, am gael cynllun strategol, ac yr oedd newidiadau eraill yn y cyfarwyddiadau polisi, ac yr oedd y cyfarwyddiadau ariannol wedi'u

good work that had been maintained to keep the systems in order, to make sure that all our systems and decisions were watertight as per the annual National Audit Office check. I also had to keep our staff up to speed because, at that stage, before I left, we had made certainly over 2,000 lottery grants and had committed over £80 million.

hailysgrifennu hefyd. Fy rôl i, yn ei hanfod, oedd gwneud y newidiadau hynny, parhau â'r gwaith da a wnaethpwyd i gadw'r systemau mewn trefn, a gwneud yn siwr fod ein holl systemau a phenderfyniadau yn dal dŵr yn unol ag archwiliad blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yr oedd yn rhaid imi sicrhau hefyd fod ein staff o gwmpas eu pethau oherwydd, bryd hynny, cyn imi ymadael, yr oeddem yn ddi-os wedi rhoi dros 2,000 o grantiau loteri, ac wedi ymrwymo dros £80 miliwn.

[187] **Janet Davies:** Thank you. Mr Shortridge, would you like to enlarge a little on your role, as the Assembly's Permanent Secretary, with Assembly sponsored public bodies such as the arts council?

[187] **Janet Davies:** Diolch. Mr Shortridge, a hoffech chi ymhelaethu ychydig ar eich rôl chi, fel Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, gyda chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, fel cyngor y celfyddydau?

Mr Shortridge: As the departmental accounting officer, I have to work closely with the accounting officers of all the Assembly sponsored public bodies. There is a letter from me, as the formal accounting officer, which sets out the nature of the relationship, which is defined in more detail in the appointment letter that goes from me to the accounting officers concerned. Basically, my role is to satisfy myself that they have all the necessary systems in place to secure regularity, propriety and value for money for the public funds for which they are responsible.

Mr Shortridge: Fel y swyddog cyfrifo adrannol, mae'n rhaid i mi weithio'n agos gyda swyddogion cyfrifo pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae llythyr oddi wrthyf fi, fel y swyddog cyfrifo ffurfiol, sydd yn amlinellu natur y berthynas, a ddiffinnir yn fanylach yn y llythyr penodi a anfonir gennyf fi at y swyddogion cyfrifo perthnasol. Yn y bôn, fy rôl i yw bodloni fy hun fod gan bob un ohonynt y systemau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau rheoleiddra, priodoldeb a gwerth am arian gyda'r arian cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano.

The Committee also needs to know that, from 25 September 2000 to 30 September 2001, I acted as accounting officer for the Arts Council of Wales because, at that time, it did not have an accounting officer of its own and I stepped in to fill that role.

Mae angen i'r Pwyllgor wybod hefyd y gweithredais fel swyddog cyfrifo i Gyngor Celfyddydau Cymru o 25 Medi 2000 hyd 30 Medi 2001 oherwydd nad oedd ganddo, bryd hynny, ei swyddog cyfrifo ei hun, a chmais innau i mewn i lanw'r rôl honno.

[188] **Janet Davies:** Thank you. I think we needed to get all that on the record. I would like to address a question to Mr Jenkins and to Miss Weston. If we turn to the actual project of the Centre for Visual Arts, the first lottery award of £2 million was made in early 1995. Could you give us any information on how the project came to be assessed as highly recommended for lottery funding?

[188] **Janet Davies:** Diolch. Yr oedd angen inni gael hynny i gyd i lawr ar gof a chadw, yn fy marn i. Hoffwn ofyn cwestiwn i Mr Jenkins a Miss Weston. Os trown at brosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei hun, gwnaethpwyd y dyfarniad loteri cyntaf o £2 filiwn yn gynnar yn 1995. A allech roi unrhyw wybodaeth inni ar sut y darfu i'r prosiect gael ei asesu fel un a gâi ei argymell yn gryf ar gyfer cael arian loteri?

Mr Jenkins: Yes. May I ask Jo to come in and tell you? When you say it was assessed as highly recommended, that was the result of an assessor's report. I think that it might be interesting for the Committee to know how that assessor was appointed, because there was some discussion of that in the last Audit Committee meeting. Would you be willing for me to transfer that question initially across to Miss Weston?

Mr Jenkins: Gallwn. A gaf fi ofyn i Jo ddod i mewn a dweud wrthych? Pan ddywedwch iddo gael ei asesu fel un a gâi ei argymell yn gryf, canlyniad adroddiad aseswr oedd hynny. Yr wyf yn meddwl efallai y byddai o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod sut y penodwyd yr aseswr hwnnw, oherwydd yr oedd rhywfaint o drafod ar hynny yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. A fydddech yn fodlon imi drosglwyddo'r cwestiwn hwnnw yn y lle cyntaf drosodd at Miss Weston?

[189] **Janet Davies:** Yes.

[189] **Janet Davies:** Byddwn.

Ms Weston: Thank you, Chair. I think that it is important to understand the process. I was saying that my first task was to set up the systems of the lottery division, and one of those setting up of systems was to appoint a pool of external assessors. That is the same as what all the other 10 lottery distributors did at that time. I arranged for an advertisement to be placed in the manner of a normal advertisement for a job in the usual publications that the arts council used. It was asked that responses be made straight to Coopers and Lybrand, which I had commissioned to run the entire process on behalf of the arts council. Having consulted with Emyr, as chief executive, and the finance director of the arts council, we thought that, clearly, it was not something that we should do in-house. Draft guidance notes for assessors on what the process would be were sent to the firm of auditors. Applications went to them. They interviewed in most cases. I think that they did an initial sift and then interviewed all the other applicants. They then presented us with their list of approved assessors, grouped into different disciplines: architects, quantity surveyors, arts consultants and that sort of thing. We held a public meeting (1), following that, for all the assessors who had been appointed so that we could share information, so that I could present the issues, as I saw them, and so that other lottery officers could explain the background to the issues, and we took it from there.

Ms Weston: Diolch, Gadeirydd. Yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig deall y broses. Dywedais mai fy ngorchwyl cyntaf oedd sefydlu systemau adran y loteri, ac un o'r camau hynny i sefydlu systemau oedd penodi cronfa o aseswyr allanol. Mae hynny yr un peth ag a wnaeth pob un o'r 10 dosbarthwr loteri arall bryd hynny. Trefnais i osod hysbyseb ar ffurf hysbyseb arferol am swydd yn y cyhoeddiadau arferol a ddefnyddid gan gyngor y celfyddydau. Gofynnai am ymateb yn uniongyrchol i Coopers and Lybrand, a gomisiynwyd gennyf fi i redeg yr holl broses ar ran cyngor y celfyddydau. Wedi ymgynghori ag Emyr, fel prif weithredwr, a chyfarwyddwr cyllid cyngor y celfyddydau, yr oeddem o'r farn glir nad oedd hyn yn rhywbeth y dylem ei wneud yn fewnol. Anfonwyd at y cwmni archwilyr ganllawiau drafft i aseswyr yn amlinellu beth fyddai'r broses. Aeth ceisiadau atynt hwy. Cynaliasant gyfweiliadau yn y rhan fwyaf o achosion. Yr wyf yn meddwl iddynt chwynnu i ddechrau ac wedyn cyfweld pob ymgeisydd arall. Wedyn cyflwynasant inni eu rhestr o aseswyr cymeradwy, wedi'u grwpio'n wahanol ddisgyblaethau: penseiri, maintfesurwyr, ymgynghorwyr celf a'r math yna o beth. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus (1) wedyn i'r holl aseswyr a benodwyd er mwyn inni allu rhannu gwybodaeth, er mwyn i mi allu cyflwyno'r prif faterion, fel y'u gwelwn, ac er mwyn i swyddogion loteri eraill allu egluro'r cefndir i'r materion, ac aethom ymlaen o'r fan honno.

When the application for the CVA came in, we had already been through that process. The then senior capital projects officer, who had the task of appointing an assessor, appointed McCann Matthews Millman to assess this project. I have no doubt that she would have consulted me at the time because we were a small staff; we were just at the starting point. I am sure that she would have done, although I do not particularly remember it. I was aware that McCann Matthews Millman was one of the highest regarded professional arts marketing consultancies in the UK. That was just general background knowledge that I had, having worked in theatre for about 30 years.

Pan ddaeth y cais i mewn ar gyfer y ganolfan, yr oeddem eisoes wedi bod drwy'r broses honno. Penodwyd McCann Matthews Millman i asesu'r prosiect hwn gan yr uwch swyddog prosiectau cyfalaf ar y pryd, a oedd yn gyfrifol am benodi asesydd. Nid wyf yn amau y buasai hi wedi ymgynghori â mi ar y pryd oherwydd yr oeddem yn staff bach; dim ond dechrau yr oeddem. Yr wyf yn siwr y buasai hi wedi gwneud, er nad oes gennyf gof arbennig o'r peth. Yr oeddwn yn ymwybodol fod McCann Matthews Millman yn un o'r cwmnïau ymgynghori proffesiynol uchaf ei barch yn y DU ym maes marchnata'r celfyddydau. Dim ond gwybodaeth gefndir gyffredinol a oedd gennyf oedd hynny, a minnau wedi gweithio ym myd y theatr am ryw 30 mlynedd.

I am not aware of what other arts marketing specialists we had on the books at the time. I do not think that there is anything that I can add to the background, unless you want to ask me any questions.

Ni wn pa arbenigwyr marchnata celfyddydau eraill a oedd gennym ar y llyfrau ar y pryd. Nid wyf yn meddwl fod dim y gallaf ei ychwanegu at y cefndir, oni bai yr hoffech ofyn unrhyw gwestiynau imi.

Mr Jenkins: May I follow on from that, Madam Chairman, and say that the National Audit Office report suggests that we did not go against the advice of the assessor. I think that you have heard how that assessor was appointed, that it was an external process and that we had a list of assessors recommended to us. That assessor then took both the application and had interviews with COLT, the Cardiff Old Library Trust, and submitted

Mr Jenkins: A gaf i ddilyn hynny, Madam Cadeirydd, drwy ddweud fod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn awgrymu nad aethom yn groes i gyngor yr asesydd. Yr wyf yn meddwl eich bod wedi clywed sut y penodwyd yr asesydd hwnnw, mai proses allanol ydoedd ac yr argymhellwyd rhestr o aseswyr inni. Wedyn cymerodd yr asesydd hwnnw y cais, a chynnal cyfweiliadau gyda COLT, sef

a report to us, and it is that report that underlined the value of this project—a project, incidentally, that had been discussed both with Cardiff City Council and with other interested parties for almost 10 years.

Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd, gan gyflwyno adroddiad wedyn i ni, a'r adroddiad hwnnw a danlinellodd werth y prosiect hwn—prosiect, gyda llaw, a oedd wedi'i drafod gyda Chyngor Dinas Caerdydd a gyda chyrff eraill oedd â diddordeb ers bron 10 mlynedd.

[190] **Janet Davies:** Ten years is certainly a long time.

[190] **Janet Davies:** Mae 10 mlynedd yn sicr yn amser maith.

Mr Jenkins: I am giving that as a measure of the length of time. I cannot give exact dates on this, but certainly from the 1980s this had been a project that had been seen as highly desirable, both from the city council's point of view, and from the Arts Council of Wales's point of view. It was a big hole in the arts provision in Wales, not just in the capital city, but in Wales, and this seemed to us to be the culmination of our attempt to fill that hole.

Mr Jenkins: Yr wyf yn rhoi hynny fel mesur o hyd yr amser. Ni allaf roi union ddyddiadau ar hyn, ond yn sicr oddi ar yr 1980au yr oedd hwn yn brosiect a oedd wedi'i weld yn un hynod o ddeniadol, o safbwynt cyngor y ddinas a Chyngor Celfyddydau Cymru ill dau. Yr oedd bwlch mawr yn narpariaeth y celfyddydau yng Nghymru, nid yn unig yn y brifddinas, ond yng Nghymru, ac ymddangosai i ni mai dyma ben draw ein hymgais i lanw'r bwlch hwnnw.

[191] **Janet Davies:** Right. Again, Mr Jenkins and Miss Weston, you had been having these long years of discussions, and we were then facing local government reorganisation, which was taking effect in April 1996. Clearly, there was time pressure being imposed at that point. Could you explain how the arts council managed to deal with that pressure, and whether it did have any impact upon the adequacy of the assessment of the application? Did you feel

[191] **Janet Davies:** Iawn. Eto, Mr Jenkins a Miss Weston, yr oeddech wedi cael y blynyddoedd maith hyn o drafod, ac yr oeddem ar y pryd yn wynebu ad-drefnu llywodraeth leol, a oedd yn dod i rym yn Ebrill 1996. Yn amlwg, yr oedd pwysau amser yn drwm ar y pryd. A allech chi egluro sut y llwyddodd cyngor y celfyddydau i ddelio â'r pwysau hynny, ac a gafodd y pwysau unrhyw effaith ar ddigonolrwydd asesiad y cais? A deimlech fod yn rhaid ichi

that you had to rush things a bit then?

ruthro pethau braidd bryd hynny?

Mr Jenkins: The whole lottery process itself was new. There was no experience in any lottery distributor. It is important, I think, for the Committee to realise that point. Every lottery distributor was inexperienced at that stage. Jo has said that this application came in the first round. It was a big application. There was time pressure on the arts council, and the time pressure was also on the Old Library trust. I would dispute very strongly that the process was rushed or skimmed in any way; we did go through that process with a fine toothed comb. We went through all the procedures that were set out at the time, and I think that that is another important point. Procedures have changed later in the light of experience, yes, but at the time we went through all the procedures that were required of us.

Mr Jenkins: Yr oedd holl broses y loteri ei hun yn newydd. Nid oedd dim profiad gan unrhyw ddosbarthwr loteri. Mae'n bwysig, mi gredaf, i'r Pwyllgor sylweddoli hynny. Yr oedd pob dosbarthwr loteri'n ddibrofiad bryd hynny. Dywedodd Jo i'r cais hwn ddod yn y cylch cyntaf. Yr oedd yn gais mawr. Yr oedd pwysau amser ar gyngor y celfyddydau, ac yr oedd y pwysau amser ar ymddiriedolaeth yr Hen Lyfrgell hefyd. Byddwn i'n gwadu'n gryf iawn i'r broses gael ei rhuthro neu nad oedd yn drwyadl mewn unrhyw ffordd; fe aethom drwy'r broses honno gyda chrib fân. Aethom drwy'r holl weithdrefnau a oedd wedi'u pennu ar y pryd, ac yr wyf yn meddwl fod hynny'n bwynt pwysig arall. Mae gweithdrefnau wedi newid yn ddiweddarach yng ngoleuni profiad, do, ond ar y pryd fe aethom drwy'r holl weithdrefnau yr oedd gofyn inni eu dilyn.

170. However, the pressure, of course, was, as you quite rightly say Madam Chairman, the onset of local government reorganisation. We had been advised by a senior member of the council that, unless we had this project, unless the city council got matching funding—and this was quite clear—in time to put this project and its £3.1 million into the 1995-96 budget, then the whole

171. Fodd bynnag, y pwysau, wrth gwrs, fel y dywedasoch yn gwbl gywir, Madam Cadeirydd, oedd dyfodiad ad-drefnu llywodraeth leol. Yr oedd aelod uwch o'r cyngor wedi'n hysbysu pe na byddai'r prosiect hwn gennym, pe na bai cyngor y ddinas yn cael arian cyfatebol—ac yr oedd hyn yn gwbl glir—mewn pryd i roi'r prosiect hwn a'i £3.1 miliwn i mewn i gyllideb 1995-96,

process would have to go to the shadow authority, which had yet to be elected. There have been comments that the shadow authority covered the same area as the Cardiff City Council; that is true, but there was no way of telling who the members of that shadow authority would be, there was no way of telling whether that shadow authority would want to impose its own priorities on that money, and we were also, in the arts, facing three years of complete standstill central funding—£14.189 million for 1995-96, 1996-97 and 1997-98. We had been warned by the Welsh Office that that was our total. The arts were facing the uncertainties of local government reorganisation—we all know of the problems in Theatr Clwyd caused by local government reorganisation—and there was an uncertain feeling. Therefore, there was huge pressure on all parties—the trust, the city council and the arts council—to get this together by the 1995-96 budget, for that was the last budget that the city council was deciding upon.

yna y byddai'n rhaid i'r holl broses fynd i'r darpar awdurdod, nad oedd wedi'i ethol eto. Clywais sylwadau fod y darpar awdurdod yn ymdrin â'r un maes â Chyngor Dinas Caerdydd; mae hynny'n wir, ond nid oedd unrhyw ffordd o ddweud pwy fyddai aelodau'r darpar awdurdod hwnnw, nid oedd modd dweud a fyddai'r darpar awdurdod hwnnw eisiau gosod ei flaenoriaethau ei hun ar yr arian hwnnw, ac yr oeddem hefyd, yn y celfyddydau, yn wynebu tair blynedd o ddim cynnydd o gwbl yn ein cyllid canolog—£14.189 miliwn ar gyfer 1995-96, 1996-97 ac 1997-98. Yr oedd y Swyddfa Gymreig wedi'n rhybuddio mai dyna oedd ein cyfanswm. Yr oedd y celfyddydau'n wynebu ansicrwydd ad-drefnu llywodraeth leol—gwyddom i gyd am y problemau a achoswyd yn Theatr Clwyd gan ad-drefnu llywodraeth leol—ac yr oedd teimlad o ansicrwydd. Felly, yr oedd pwysau enfawr ar bawb—yr ymddiriedolaeth, cyngor y ddinas a chyngor y celfyddydau—i roi hyn yn ei le erbyn cyllideb 1995-96, am mai honno oedd y gyllideb olaf y byddai cyngor y ddinas yn penderfynu arni.

172.

173. Having said all that, one of the things that we made as absolutely cast iron as we could was that this pressure would not lead us to skimp the assessment process, and I do not believe that I have seen any evidence that suggests that we have.

Wedi dweud hynny i gyd, un o'r pethau a wnaethom mor gwbl haearnidd ag y gallem oedd na fyddai'r pwysau hyn yn ein harwain i arbed o gwbl ar y broses asesu, ac ni chredaf fy mod wedi gweld unrhyw dystiolaeth sydd yn awgrymu inni wneud hynny.

174. [192] **Janet Davies:** Thank you. Could you just give an indication of the date, Mr Jenkins, when these decisions were being taken? Was it in 1994 or early 1995?

175. [192] **Janet Davies:** Diolch. A allech roi rhyw syniad o'r dyddiad, Mr Jenkins, pryd y gwnaethpwyd y penderfyniadau hyn? A oedd yn 1994 neu'n gynnar yn 1995?

176.

Ms Weston: Could I answer that, please, Chairman?

Ms Weston: A allaf i ateb hynny, os gwelwch yn dda, Gadeirydd?

[193] **Janet Davies:** Yes.

[193] **Janet Davies:** Cewch.

Ms Weston: There is quite an important error in the report in front of you. It is paragraph 2.33. I just wanted to point out one of the errors. That point is a year out. It was actually in March 1995 that the decision was taken. Also, March 1995 was the deadline for the then city council to have its matching funding in place. It was to do with the shadow authority not having the power to bind its successor. So, the decision to grant the application from the Centre for Visual

Ms Weston: Mae camgymeriad eithaf pwysig yn yr adroddiad o'ch blaen; sef paragraff 2.33. Dim ond eisiau nodi un o'r camgymeriadau yr oeddwn. Mae'r pwynt hwnnw flwyddyn allan ohoni. Ym mis Mawrth 1995 y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw mewn gwirionedd. Hefyd, Mawrth 1995 oedd y dyddiad olaf i gyngor y ddinas ar y pryd sicrhau ei gyllid cyfatebol. Yr oedd a wnelo hyn â bod y darpar awdurdod heb grym i rwymo'i olynydd. Felly, ym Mawrth

Arts was actually taken in March 1995.

1995 mewn gwirionedd y gwnaethpwyd y penderfyniad i ganiatáu'r cais gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

[194] **Janet Davies:** Thank you. That is very helpful.

[194] **Janet Davies:** Diolch. Mae hynny o gymorth mawr.

[195] **Alun Cairns:** May I cut across briefly? I wanted to respond to Ms Weston's statement that there are a number of errors in the report. Obviously, that concerns me in terms of the accuracy of the report that we have. If there are errors in the document as we go through it, would you be kind enough to highlight them and also give them to us in writing so that they can be taken into consideration when the Committee makes its deliberations?

[195] **Alun Cairns:** A gaf fi dorri ar draws yn fyr? Yr oedd arnaf eisiau ymateb i osodiad Ms Weston fod nifer o gamgymeriadau yn yr adroddiad. Yn amlwg, mae hynny'n fy mhoeni o ran cywirdeb yr adroddiad sydd gennym. Os oes camgymeriadau yn y ddogfen wrth inni fynd drwyddi, a fydddech gystal â thynnu sylw atynt a hefyd eu rhoi inni mewn ysgrifen fel y gellir eu cymryd i ystyriaeth pan fydd y Pwyllgor yn trafod y mater?

Ms Weston: Thank you for the opportunity.

Ms Weston: Diolch am y cyfle.

Sir Richard Lloyd Jones: Chairman, I think the answer is that we would very much like to do that. We were not consulted at all during the preparation of this report and we believe that, if we had been, we could have helped materially with the deployment of the facts before you, so much so that I rather think that, if we undertook to tell you all our concerns about this report, we would be here until tomorrow. That is perhaps putting it a bit strongly, but—

Syr Richard Lloyd Jones: Gadeirydd, tybiaf mai'r ateb yw y byddem yn falch iawn o wneud hynny. Nid ymgynghorwyd â ni o gwbl yn ystod paratoi'r adroddiad hwn a chredwn, petai hynny wedi digwydd, y gallasem roi cymorth ymarferol gyda'r modd y defnyddiwyd y ffeithiau ger eich bron, yn gymaint felly nes fy mod yn tueddu i feddwl, pe ymgwymerem i ddweud wrthyh am ein holl bryderon ynghylch yr adroddiad hwn, y byddem yma tan yfory. Efallai fod hynny'n ddweud mawr, ond—

[196] **Alun Cairns:** With the greatest respect, Sir Richard Lloyd Jones, we are in this position now and we want to make the best of the situation we are in—

[196] **Alun Cairns:** Gyda'r parch mwyaf, Syr Richard Lloyd Jones, yr ydym yn y sefyllfa yma yn awr ac am wneud y gorau o'r sefyllfa yr ydym ynddi—

Sir Richard Lloyd Jones: Yes. We do want to help you with that.

Syr Richard Lloyd Jones: Ydym. Yr ydym yn awyddus i'ch helpu gyda hynny.

[197] **Alun Cairns:** —so there is no point going over old ground. We are in these circumstances. We all understand the reasons behind that and we should use the information that we have, but obviously if we are questioning you on incorrect information, then you need to advise us.

[197] **Alun Cairns:** —felly nid oes diben mynd dros hen dir. Yr ydym yn yr amgylchiadau hyn. Yr ydym i gyd yn deall y rhesymau y tu ôl i hynny a dylem ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym, ond yn amlwg os ydym yn eich holi chi ar wybodaeth anghywir, yna mae angen ichi ddweud wrthym.

Sir Richard Lloyd Jones: Yes, we will need to warn you. We will try to keep it as short as possible, but we will, I fear, have to flag up some of our concerns.

Syr Richard Lloyd Jones: Bydd, bydd angen i ni'ch rhybuddio. Ceisiwn gadw'r peth mor fyr ag sydd yn bosibl, ond mae arnaf ofn y bydd yn rhaid inni leisio rhai o'n pryderon.

[198] **Janet Davies:** I will just ask Sir John Bourn to comment, and then Mr Jenkins.

[198] **Janet Davies:** Yr wyf am ofyn am sylwadau Syr John Bourn, ac wedyn Mr Jenkins.

Sir John Bourn: Thank you, Chair. I would like to make the point, in reference to what has been said about errors, that this report is the external auditor; it was prepared

Syr John Bourn: Diolch, Gadeirydd. Hoffwn wneud y pwynt, gan gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd am gamgymeriadau, mai'r adroddiad hwn yw'r archwilydd allanol; fe'i

according to the usual arrangements, that is to say, by our access to the books and records of the body that we audited. The current accounting officer was consulted and agreed entirely with the facts as stated and the interpretations of them. So, I would just like to register the point that the responsible person was properly consulted and signed the report.

paratowyd yn unol â'r trefniadau arferol, hynny yw, trwy'n gwaith ar lyfrau a chofnodion y corff yr oeddem yn ei archwilio. Ymgynghorwyd â'r swyddog cyfrifo cyfredol a chytunodd yntau'n llwyr â'r ffeithiau fel y'u nodwyd a'r ffordd y'u dehonglwyd. Felly, hoffwn yn syml gofnodi'r pwynt yr ymgynghorwyd yn y modd priodol â'r person cyfrifol ac y llofnodwyd yr adroddiad ganddo.

Mr Jenkins: We fully recognise the convention that Sir John Bourn has mentioned, but I must add my voice to Sir Richard's and say that, in this instance, the convention has not served this Committee well. There are material mistakes in this report and we have already brushed past one when I said that we had conformed, in our initial assessment of the application, to all the directions and regulations that were current at the time. On page 20 of your report are policy directions issued to the Arts Council of Wales under section 26 (1) of the National Lottery etc. Act 1993. That was commented on in the last hearing. I draw your attention to paragraph 1 in the directions:

Mr Jenkins: Yr ydym yn cydnabod yn llawn y confensiwn a grybwyllwyd gan Syr John Bourn, ond rhaid imi ychwanegu fy llais i at un Syr Richard a dweud nad yw'r confensiwn, yn yr achos hwn, wedi gwasanaethu'r Pwyllgor hwn yn dda. Mae camgymeriadau o sylwedd yn yr adroddiad ac yr ydym eisoes wedi ysgubo heibio i un pan ddywedais ein bod wedi cydymffurfio, yn ein hasesiad cychwynnol o'r cais, â'r holl gyfarwyddiadau a rheoliadau a oedd mewn grym ar y pryd. Ar dudalen 20 yn eich adroddiad ceir cyfarwyddiadau polisi a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru dan adran 26 (1) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb. 1993. Gwnaethpwyd sylw ynglyn â hynny yn y gwrandawriad diwethaf. Tynnaf eich sylw at baragraff 1 yn y cyfarwyddiadau:

'in these Directions, any reference to a section is a reference to a section of the National Lottery etc. Act 1993 as amended by the National Lottery Act 1998.'

'yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayyb. 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Loteri

Therefore, these are not the directions under which we were operating at the time, in 1995. That is one example, which Mr Cairns asked us to point out. I hope that you will accept that it needed to be pointed out.

Felly, nid y rhain yw'r cyfarwyddiadau yr oeddem yn eu dilyn ar y pryd, yn 1995. Dyna un enghraifft, y gofynnodd Mr Cairns inni ei dangos. Gobeithiaf y derbyniwch fod angen ei dangos.

[199] **Alun Cairns:** May I just close on this? I am grateful that those issues are being pointed out, but I would like to underline a comment that Sir John Bourn made. When the current accounting officer gave evidence to the Committee some weeks ago, none of these errors were pointed out at that time. The accounting officer also highlighted at the time that he had used the records that were available to the Arts Council of Wales as well. So, obviously, this is not a perfect situation, but we need to make the best of it.

[199] **Alun Cairns:** A gaf fi gau ar hyn? Yr wyf yn ddiolchgar bod sylw'n cael ei dynnu at y materion hynny, ond hoffwn danlinellu sylw a wnaeth Syr John Bourn. Pan roddodd y swyddog cyfrifo cyfredol dystiolaeth i'r Pwyllgor rai wythnosau'n ôl, ni thynnwyd sylw at yr un o'r camgymeriadau hyn bryd hynny. Tanlinellodd y swyddog cyfrifo hefyd ar y pryd ei fod wedi defnyddio'r cofnodion a oedd ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal. Felly, yn amlwg, nid yw hon yn sefyllfa berffaith, ond mae angen inni wneud y gorau ohoni.

[200] **Janet Davies:** Thank you, Alun. I was also going to make the point that the present accounting officer saw the report in draft form and agreed it. Clearly, this is not a totally satisfactory situation for anybody at the moment. We will move on to look at the selection of the external assessor. Alison Halford has some questions to ask.

[200] **Janet Davies:** Diolch, Alun. Yr oeddwn innau yn mynd i wneud y pwynt hefyd fod y swyddog cyfrifo presennol wedi gweld yr adroddiad yn ei ffurf ddrafft ac wedi cytuno arno. Yn amlwg, nid yw hyn yn sefyllfa gwbl foddhaol i neb ar hyn o bryd. Symudwn ymlaen i edrych ar y modd y dewiswyd yr asesydd allanol. Mae gan Alison Halford rai cwestiynau i'w gofyn.

[201] **Alison Halford:** My first two

[201] **Alison Halford:** Mae fy nau gwestiwn

questions have mainly been answered, so I may wander slightly. Thank you very much for coming, and I am sorry, Sir Richard, that you are not very well. Would it be impertinent of me to ask how you got the job?

Sir Richard Lloyd Jones: Me?

[202] **Alison Halford:** Yes.

Sir Richard Lloyd Jones: The Secretary of State for Wales appointed me. Now, it would be a National Assembly appointment.

[203] **Alison Halford:** And your term of office was for how long?

Sir Richard Lloyd Jones: It was for three years initially, and then I was asked to serve another three years, but I asked to serve for two years.

[204] **Alison Halford:** You are doubtless aware that, although the decision was made by the Audit Committee as a whole, I can probably be blamed for the fact that you are sitting here this afternoon. From what you have said already, perhaps it was fortunate that we persisted in asking you to come. That

cyntaf wedi'u hateb i raddau helaeth, felly efallai y crwydraf rywfaint. Diolch yn fawr iawn ichi am ddod, ac mae'n flin gennyf, Syr Richard, nad ydych yn dda iawn. A fyddai'n ddigywilydd ar fy rhan pe gofynnwn ichi sut y cawsoch y swydd?

Syr Richard Lloyd Jones: Fi?

[202] **Alison Halford:** Ie.

Syr Richard Lloyd Jones: Penodwyd fi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bellach, byddai'n benodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

[203] **Alison Halford:** Ac yr oedd eich swydd am dymor o ba hyd?

Syr Richard Lloyd Jones: Yr oedd am dair blynedd i ddechrau, ac yna gofynnwyd imi wasanaethu tair blynedd arall, ond gofynnais am gael gwasanaethu am ddwy flynedd.

[204] **Alison Halford:** Diau eich bod yn ymwybodol, er i'r penderfyniad gael ei wneud gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfanrwydd, y gellir, mae'n debyg, fy meio i am y ffaith eich bod yn eistedd yma y prynhawn yma. O'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn barod, efallai ei bod yn ffodus

leads me on to the report—you must have read it as soon as it came out?

inni ddal ati i ofyn ichi ddod. Mae hynny'n fy arwain ymlaen at yr adroddiad—rhaid eich bod wedi'i ddarllen cyn gynted ag y daeth allan?

Mr Jenkins: No.

Mr Jenkins: Na.

[205] **Alison Halford:** You did not. Perhaps Sir Richard could answer that, then we will ask Mr Jenkins again.

[205] **Alison Halford:** Ni wnaethoch chi. Efallai y gallai Syr Richard ateb hynny, wedyn fe ofynnwn eto i Mr Jenkins.

Sir Richard Lloyd Jones: I do not know when it came out, I am afraid. The first I was aware of it was when it was being displayed on television.

Syr Richard Lloyd Jones: Ni wn pa bryd y daeth allan, mae gennyf ofn. Y cyntaf i mi wybod amdano oedd pan gafodd ei ddangos ar y teledu.

[206] **Alison Halford:** And what was your reaction?

[206] **Alison Halford:** A beth oedd eich ymateb?

Sir Richard Lloyd Jones: Well, I did not see the report. The report then came to me under cover of a letter from the clerk to the Committee. That is when I got it. I cannot remember the date of that letter—towards the end of November.

Syr Richard Lloyd Jones: Wel, ni welais yr adroddiad. Daeth yr adroddiad ataf fi wedyn gyda llythyr oddi wrth glerc y Pwyllgor. Dyna pryd y cefais i ef. Ni allaf gofio dyddiad y llythyr hwnnw—tua diwedd mis Tachwedd.

[207] **Janet Davies:** I will just clarify those dates. The report was published on 15 November and the letter was sent out the day after the last Committee meeting on 23 November.

[207] **Janet Davies:** Fe egluraf y dyddiadau hynny. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Tachwedd ac anfonwyd y llythyr allan y diwrnod ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 23 Tachwedd.

Sir Richard Lloyd Jones: That sounds right. **Syr Richard Lloyd Jones:** Mae hynny'n swnio'n gywir.

[208] **Alison Halford:** Having read the report now, Sir Richard, do you find that it is a very inaccurate document or does £8.8 million just go down the drain because of inexperience or whatever, I wonder? [208] **Alison Halford:** Wedi darllen yr adroddiad yn awr, Syr Richard, a gredwch ei bod yn ddogfen wallus iawn ynteu a ydyw £8.8 miliwn yn mynd i lawr y draen oherwydd diffyg profiad neu beth bynnag, tybed?

Sir Richard Lloyd Jones: Well, I must take a deep breath here and say that, in my view, £8 million has not gone down the drain. **Syr Richard Lloyd Jones:** Wel, rhaid imi gymryd gwynt mawr yn y fan yma a dweud nad yw £8 miliwn wedi mynd i lawr y draen, yn fy marn i.

[209] **Alison Halford:** Please enlarge upon that. [209] **Alison Halford:** Ymhelaethwch ar hynny, os gwelwch yn dda.

Sir Richard Lloyd Jones: Sorry? **Syr Richard Lloyd Jones:** Mae'n ddrwg gennyf?

[210] **Alison Halford:** Please enlarge upon that. [210] **Alison Halford:** Ymhelaethwch ar hynny, os gwelwch yn dda.

Sir Richard Lloyd Jones: Enlarge upon it. Well, what has happened is that, if we are looking at the lottery money—which was originally, I think, to be £2 million and then there were subsequent awards, as you remember—it was used primarily, as I **Syr Richard Lloyd Jones:** Ymhelaethu arno. Wel, yr hyn sydd wedi digwydd yw, os ydym yn edrych ar arian y loteri—sef swm a oedd i fod yn wreiddiol, yr wyf yn meddwl, yn £2 filiwn ac wedyn cafwyd dyfarniadau dilynol, fel y cofiwch—fe'i defnyddiwyd yn

understand it, with the city council money and the input from the charitable trust, to refurbish the building. So, undoubtedly, it is a very serious matter and I would like at some stage to give my views on what I regard as a key question here, which is what was the alternative at the time for the arts council. However, perhaps I can come back to that.

bennaf, yn ôl a ddeallaf, gydag arian cyngor y ddinas a'r cyfraniad gan yr ymddiriedolaeth elusennol, i ailwampio'r adeilad. Felly, heb os, mae'n fater difrifol iawn a hoffwn ryw bryd roi fy sylwadau ar yr hyn y credaf sydd yn gwestiwn allweddol yn y fan hon, sef beth oedd y dewis arall ar y pryd i gyngor y celfyddydau. Fodd bynnag, efallai y caf ddod yn ôl at hynny.

[211] **Alison Halford:** You will be asked a lot of other questions. You were going to say something, Mr Jenkins?

[211] **Alison Halford:** Gofynnir llawer o gwestiynau ichi. Yr oeddech chi'n mynd i ddweud rhywbeth, Mr Jenkins?

[241] **Jocelyn Davies:** Ie, mae'n siwr gennyf fi y buasai rhai pobl wedi gobeithio y buasai cyngor y celfyddydau wedi dangos rhywfaint o weledigaeth realistig ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'n rhaid fod y niferoedd ymwelwyr yn siom enfawr: o dan 50,000 wedi amcangyfrif 250,000. Ai syniad da felly oedd codi'r pris am fynd i mewn?

Mr Jenkins: I am sorry, I cannot comment on the actual visitor numbers. The Committee, of course, and this report, is operating, as we all are at the moment, with a great degree of hindsight. We know what the visitor numbers turned out to be. However, in 1995, we did not know what the visitor numbers were going to be. We did not know that the outcome would be as it was. We tried, in the arts council at the time, to use our best efforts to ensure its success. To be honest, with this application coming before us, not only did the arts council have to have justification for saying 'yes' to an application, it had to have sufficient justification to say 'no' to an application. To find a reason to say 'no' to this application would have been very difficult, and would have given quite the wrong impression of this wonderful project. I do not believe that the thing worked out. You are talking about visitor numbers going back. There is

Mr Jenkins: Mae'n ddrwg gennyf, ni allaf roi sylw ar yr union niferoedd ymwelwyr. Mae'r Pwyllgor, wrth gwrs, a'r adroddiad hwn, a ninnau i gyd ar y foment hon, yn gweithredu gyda chryn radd o ôl-welediad. Gwyddom beth oedd y niferoedd ymwelwyr mewn gwirionedd. Fodd bynnag, yn 1995, nid oeddem yn gwybod beth fyddai'r niferoedd ymwelwyr. Ni wyddem y byddai'r canlyniad fel y bu. Ceisiasom, yng nghyngor y celfyddydau ar y pryd, ddefnyddio'n hymdrechion gorau i sicrhau ei llwyddiant. A dweud y gwir, gyda'r cais hwn yn dod ger ein bron, nid yn unig yr oedd yn rhaid i gyngor y celfyddydau gael cyfiawnhad dros ddweud 'ie' i gais, yr oedd yn rhaid iddo gael digon o gyfiawnhad dros ddweud 'na' wrth gais. Buasai'n anodd iawn canfod rheswm dros ddweud 'na' i'r cais hwn, a buasai wedi rhoi'r argraff gwbl anghywir o'r prosiect bendigedig hwn. Nid wyf yn credu y gweithiodd y peth. Yr ydych yn sôn am

criticism in this report of the cost going up all the time. We did have advice at the time—from the Wales Tourist Board and others; but the Wales Tourist Board specifically—that the costs were unrealistically low and that, in fact, they could go up. There is a direct correlation between the visitor numbers coming down and the cost going up. So there was a balanced budget every time that this was revisited. Of course, in retrospect, cost may have been one of the factors. There is a stipulation in the report that there was a change of artistic policy. I am afraid that that did not happen; that change in policy did not happen. So, it is a complicated business but, yes, the costs went up as the visitor numbers came down or, Madam Chair, if you would like to put it another way, the visitor numbers came down as the costs went up. I am not sure which came first.

niferoedd ymwelwyr yn mynd yn ôl. Mae beirniadaeth yn yr adroddiad hwn am i'r gost godi o hyd. Cawsom gyngor ar y pryd—gan Fwrdd Croeso Cymru ac eraill; ond Bwrdd Croeso Cymru yn benodol—fod y costau'n afrealistig o isel ac, yn wir, y gallent godi. Mae cydberthynas uniongyrchol rhwng y gostyngiad yn niferoedd ymwelwyr a'r gost yn codi. Felly yr oedd cyllideb wedi'i mantoli bob tro yr edrychwyd eto ar hyn. Wrth gwrs, o edrych yn ôl, efallai fod y gost yn un o'r ffactorau. Mae'r adroddiad yn mynnu y bu newid polisi celfyddydol. Mae gennyf ofn na ddigwyddodd hynny; ni ddigwyddodd y newid polisi hwnnw. Felly, mae'n fusnes cymhleth ond, do, aeth y costau i fyny wrth i niferoedd yr ymwelwyr ddod i lawr, neu, Madam Cadeirydd, os hoffech ei roi mewn ffordd arall, daeth y niferoedd ymwelwyr i lawr wrth i'r costau fynd i fyny. Nid wyf yn siwr pa un ddaeth gyntaf.

[242] **Jocelyn Davies:** It is the nature of audit committees like this that we only have hindsight. The only thing that we can do is look back over things.

[242] **Jocelyn Davies:** Natur pwyllgorau archwilio fel hyn yw mai dim ond ôl-welediad sydd gennym. Yr unig beth y gallwn ei wneud yw edrych yn ôl ar bethau.

Mr Jenkins: I have every faith that the Audit Committee can put itself in the position of not having that hindsight. We are not justifying the project. All we are saying is that the judgments and decisions that we took at the time, without hindsight, can, I think, be justified.

Mr Jenkins: Mae gennyf bob ffydd y gall y Pwyllgor Archwilio ei roi ei hun yn y sefyllfa o fod heb yr ôl-welediad hwnnw. Nid ydym yn cyfiawnhau'r prosiect. Y cwbl yr ydym yn ei ddweud yw y gellir, yr wyf yn meddwl, heb ôl-welediad, gyfiawnhau'r dyfarniadau a'r penderfyniadau a wnaethom ar y pryd.

[243] **Jocelyn Davies:** Are you aware of any other projects elsewhere in the UK—not in Wales—that, because of inexperience, because this was a new system, went badly wrong?

[243] **Jocelyn Davies:** A wyddoch am unrhyw brosiectau eraill mewn mannau eraill yn y DU—nid yng Nghymru—a aeth o chwith yn ddrwg oherwydd diffyg profiad, oherwydd fod hon yn system newydd?

Mr Jenkins: I am afraid I think that that question might be answered by Sir John Bourn because there was a whole raft of new regulations brought in because of problems.

Mr Jenkins: Mae arnaf ofn mai Syr John Bourn efallai a allai ateb y cwestiwn hwnnw oherwydd cyflwynwyd llw o reoliadau newydd oherwydd problemau.

[244] **Janet Davies:** Sir John?

[244] **Janet Davies:** Syr John?

Sir John Bourn: I am glad to respond to that, Chair. As I said at the last meeting of the Audit Committee, when we looked at this, there are many examples in the United Kingdom of projects funded by the lottery that, for one reason or another—inexperience of handling the matter, desire to move forward, requirement to move forward fast—were not successful. As I said then, this is not a unique project in terms of lottery-funded projects.

Syr John Bourn: Yr wyf yn falch o ymateb i hynny, Gadeirydd. Fel y dywedais yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, pan edrychasom ar hyn, mae sawl enghraifft yn y Deyrnas Unedig o brosiectau a ariannwyd gan y loteri na fu'n llwyddiannus am ryw reswm neu'i gilydd—diffyg profiad wrth ymdrin â'r mater, awydd i symud ymlaen, gofyniad i symud ymlaen yn gyflym. Fel y dywedais bryd hynny, nid yw hwn yn brosiect unigryw yn nhermau prosiectau a ariennir gan y loteri.

[245] **Janet Davies:** Thank you, Sir John. We will now break for coffee.

[245] **Janet Davies:** Diolch, Syr John. Cymerwn egwyl yn awr am goffi.

[Cynhaliwyd egwyl goffi rhwng 3.05 p.m. a 3.21 p.m.]

252. [246] **Janet Davies:** Welcome back. I now turn to Alun Cairns, who wants to ask some questions, some of which may have already been asked. I am sure that you will skip those, Alun, and go on to those that have not been asked.

253. [247] **Alun Cairns:** Mr Jenkins, I would like to return to one of the final statements that you made before the coffee break. Paragraph 2.2 in the report mentions a change in artistic policy. You said that that was not the case. Clearly, that might well impact on the numbers of visitors, to which my subsequent questions relate. In paragraph 2.2—I think it is; yes, it is—it talks of blockbuster exhibitions such as Picasso and so on. Those are names with which I am familiar. I must admit that I am not very well versed in terms of art appreciation but that is a name that I do recognise. That might well motivate me to go and pay a visit to an exhibition where such paintings are being shown. Therefore, could you reconcile your statement with paragraph 2.22?

254.

[246] **Janet Davies:** Croeso'n ôl. Trof yn awr at Alun Cairns, sydd eisiau gofyn cwestiynau, rhai ohonynt eisoes wedi'u gofyn efallai. Yr wyf yn siwr y gwnewch hepgor y rheini, Alun, a mynd ymlaen at y rheini sydd heb eu gofyn.

[247] **Alun Cairns:** Mr Jenkins, hoffwn fynd yn ôl at un o'r pethau olaf a ddywedasoch cyn yr egwyl goffi. Mae paragraff 2.2 yn yr adroddiad yn sôn am newid yn y polisi celfyddydol. Dywedasoch chi na fu newid. Yn amlwg, gallai hynny yn wir effeithio ar niferoedd ymwelwyr, a dyna destun fy nghwestiynau nesaf. Ym mharagraff 2.2—yr wyf yn credu mai dyna yw; ie, wir—sonnir am arddangosfeydd mawr fel Picasso ac ati. Dyna enwau sydd yn gyfarwydd i mi. Rhaid imi gyfaddef nad wyf yn hyddysg iawn yn nhermau gwerthfawrogi celf ond dyna enw yr wyf yn ei adnabod. Gallai hynny yn wir fy symbylu i fynd i weld arddangosfa lle dangosir lluniau o'r fath. A allech, felly, gysoni'ch gosodiad â pharagraff 2.22?

255.

256. **Mr Jenkins:** Yes. Thank you, Mr Cairns. Yes, it is 2.22, is it not, that we are talking about? ‘The opening programme of the Centre for Visual Arts changed.’ This, I would suggest, has to do with the definition of contemporary art. What happened, Madam Chair, in the development of this concept was that it became very clear that there needed to be co-operation with other arts organisations in Cardiff, in particular the national museum.

Mr Jenkins: Gallaf. Diolch, Mr Cairns. Ie, 2.22, onide, sydd dan sylw gennym? ‘Newidiodd rhaglen agoriadol Canolfan y Celfyddydau Gweledol.’ Mae a wnelo hyn, fe awgrymwn, â’r diffiniad o gelf gyfoes. Yr hyn a ddigwyddodd, Madam Cadeirydd, wrth ddatblygu’r cysyniad hwn oedd y daeth yn amlwg iawn fod angen cydweithredu â sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghaerdydd, yn enwedig yr amgueddfa genedlaethol.

257.

You will see a letter, which has been referred to, from Hugh Hudson Davies, which says that we needed to be absolutely clear about the artistic policy of both the museum and the CVA. Now, the phrase that had been used in the development of this project all along was ‘contemporary and historical art’. That goes through the feasibility study, it goes through an interim document; it goes through all the way to the first application. We did receive a letter from Mr Hugh Hudson Davies saying that he was anxious that there be an understanding of this term ‘contemporary art’. He defined it as the art of living artists. Now, we discussed this because—Mr Cairns is quite right—there was talk in the initial stages of Picasso, Mondrian, Matisse; the big draws, the big names. Hugh Hudson Davies’s letter said that he doubted whether living artists had the box office appeal of those big names. We agreed with him. There is a

Gwelwch lythyr, y cyfeiriwyd ato eisoes, oddi wrth Hugh Hudson Davies, a ddywed fod angen inni fod yn gwbl glir ynghylch polisi celfyddydol yr amgueddfa a’r ganolfan ill dwy. Yn awr, yr ymadrodd a ddefnyddiwyd ar hyd y daith wrth ddatblygu’r prosiect hwn oedd ‘celf gyfoes a hanesyddol’. Aiff hwnnw drwy’r astudiaeth ymarferoldeb, aiff drwy’r ddogfen interim; aiff drwodd yr holl ffordd i’r cais cyntaf. Fe dderbyniaisom lythyr oddi wrth Mr Hugh Hudson Davies yn dweud ei fod yn awyddus y dylid sicrhau dealltwriaeth o’r term yma ‘celf gyfoes’. Ei ddiffiniad ef oedd gwaith celf artistiaid byw. Yn awr, fe drafodasom hyn oherwydd—mae Mr Cairns yn llygad ei le—yr oedd sôn yn y dechrau am Picasso, Mondrian, Matisse; yr atyniadau mawr, yr enwau mawr. Dywedodd llythyr Hugh Hudson Davies ei fod yn amau a oedd gan artistiaid byw yr un apêl o ran denu

document on file; there is a letter from me to Mr Mathew Prichard, the chairman of the trust, offering the trust a grant for £2 million—that is, the first grant—but stating quite categorically that both the trust and the national museum needed to accept that the definition of contemporary art that we were working on, and that we required them to work on, was that it was art produced in the twentieth century.

ymwelwyr â'r enwau mawr hynny. Cytunasom ag ef. Mae dogfen ar y ffeil; mae llythyr oddi wrthyf fi at Mr Mathew Prichard, cadeirydd yr ymddiriedolaeth, yn cynnig grant o £2 filiwn i'r ymddiriedolaeth—hynny yw, y grant cyntaf—ond yn datgan yn gwbl ddiamwys fod angen i'r ymddiriedolaeth a'r amgueddfa genedlaethol dderbyn mai'r diffiniad o gelf gyfoes yr oeddem ni'n gweithio arno, a'r diffiniad yr oeddem yn disgwyl iddynt hwy weithio arno, oedd mai celf a gynhyrchwyd yn yr ugeinfed ganrif ydoedd.

Now, I do not know whether the report has taken Hugh Hudson Davies's definition of contemporary art, but it is absolutely clear and it is on paper that the arts council, the museum and the CVA agreed that the term 'contemporary art' included art produced in the twentieth century. That includes Picasso, Mondrian, Matisse and several others. So there was no change of policy, Madam Chair. To back that up, I can read you a press announcement that was issued by the CVA on 15 November 1999. That is when the centre was open.

Yn awr, ni wn a yw'r adroddiad wedi cymryd diffiniad Hugh Hudson Davies o gelf gyfoes, ond mae'n gwbl glir ac mae ar ddu a gwyn fod cyngor y celfyddydau, yr amgueddfa a'r ganolfan wedi cytuno fod y term 'celf gyfoes' yn cynnwys celf a gynhyrchwyd yn yr ugeinfed ganrif. Mae hynny'n cynnwys Picasso, Mondrian, Matisse a sawl un arall. Felly nid oedd unrhyw newid polisi, Madam Cadeirydd. I ategu hynny, gallaf ddarllen datganiad i'r wasg ichi a gyhoeddwyd gan y ganolfan ar 15 Tachwedd 1999. Yr oedd y ganolfan yn agored bryd hynny.

'Enjoy Picasso, Edvard Munch, Jackson Pollock, Andy Warhol, Francis Bacon etc at the CVA.'

'Mwynhewch Picasso, Edvard Munch, Jackson Pollock, Andy Warhol, Francis Bacon ac ati yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol.'

So I am afraid that I have to disagree with the

Felly mae arnaf ofn fod yn rhaid imi

report. There was no change of policy that would have affected the visitor numbers. I fully subscribe to Mr Cairns's view that we needed those big names to draw the figures that we were hoping to attract.

anghytuno â'r adroddiad. Nid oedd dim newid polisi a fuasai wedi effeithio ar y niferoedd ymwelwyr. Cytunaf yn llwyr â barn Mr Cairns fod angen yr enwau mawr hynny i atynnu'r ffigurau yr oeddem yn gobeithio'u denu.

[248] **Alun Cairns:** Why then were we not able to deliver works of art from people such as Picasso at the centre?

[248] **Alun Cairns:** Pam felly na lwyddwyd i sicrhau gweithiau celf gan bobl fel Picasso yn y ganolfan?

Mr Jenkins: There was a minor exhibition—I would have to confess that it was a minor exhibition—in November 1999 that did feature some of these works. However, the mechanics of the arts world, Mr Cairns, are such that, to get a major exhibition of the work of these world-famous artists, it does need a two or three year lead-in time. You cannot, in fact, set one of those up very, very quickly. It is a matter of regret that the centre did not but, in the end, it was not open long enough in order to be able to set it up. To get these international travelling exhibitions, it does need two or three years lead-in time.

Mr Jenkins: Cafwyd arddangosfa fach—byddai'n rhaid imi gyfaddef mai arddangosfa fach oedd hi—ym mis Tachwedd 1999 a oedd yn cynnwys rhai o'r gweithiau hyn. Fodd bynnag, mae dull gweithredu'r byd celfyddydol, Mr Cairns, yn golygu bod angen cynllunio ddwy i dair blynedd ymlaen llaw i gael arddangosfa fawr o waith yr arlunwyr byd-enwog hyn. Ni ellir, mewn gwirionedd, sefydlu un o'r rheini'n gyflym iawn, iawn. Mater o ofid yw na wnaeth y ganolfan hynny ond, ar ddiwedd y dydd, ni fu'n agored yn ddigon hir i allu trefnu hynny. I gael yr arddangosfeydd teithiol rhyngwladol hyn, mae angen cynllunio ddwy i dair blynedd ymlaen llaw.

[249] **Alun Cairns:** Thank you. If I can turn back to the visitor numbers, I would like to turn to figure 7 on page 9 of the report, which shows the comparators used to forecast visitor numbers for the Centre for Visual Arts. They range from 600,000 to 40,000,

[249] **Alun Cairns:** Diolch. Os caf droi'n ôl at y niferoedd ymwelwyr, hoffwn droi at ffigur 7 ar dudalen 9 yn yr adroddiad, sydd yn dangos y cymaryddion a ddefnyddiwyd i ragweld niferoedd ymwelwyr i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Amrywiant o

from the Tate gallery to the Fruitmarket gallery in Edinburgh. Did the variance from 40,000 to 600,000, ever alert you to the intrinsic difficulty in forecasting visitor numbers with any degree of accuracy?

Mr Jenkins: Well, may I suggest that I think that Miss Weston has touched on this in a previous answer. It is extremely difficult to forecast. I will reiterate that you are looking at those comparators for 1991, whereas we were talking in 1995. Therefore, those comparators should not be taken in absolute terms but, yes, you are quite right, there is a huge variation. This is where the project went wrong. The report is correct in that instance and in that respect. It says that one of the main reasons was that it failed to attract the numbers that it hoped to.

[250] **Alun Cairns:** Did you ever feel, looking at that range from 40,000 to 600,000, that it might well come in at the lower end of the scale?

Mr Jenkins: I suppose, in the range of options, it could have come in at the top end of the scale as well, in the sense that we were going into uncharted territory and, as I said, all the marketing evidence that we were being presented suggested that not only was 250,000 achievable, it might even have been

600,000 i 40,000, o oriel y Tate i oriel y Fruitmarket yng Nghaeredin. A wnaeth yr amrywiad o 40,000 i 600,000 eich rhybuddio o gwbl am anhawster sylfaenol rhagweld niferoedd ymwelwyr gydag unrhyw radd o gywirdeb?

Mr Jenkins: Wel, a gaf fi awgrymu fy mod yn meddwl bod Miss Weston wedi cyffwrdd ar hyn mewn ateb blaenorol. Mae'n eithriadol o anodd rhagweld. Ailadroddaf eich bod yn edrych ar y cymaryddion hynny yn 1991, tra'r oeddem ni'n siarad yn 1995. Felly, ni ddylid cymryd y cymaryddion hynny mewn termau absoliwt ond, ie, yr ydych yn llygad eich lle, y mae amrywiad enfawr. Dyma lle'r aeth y prosiect o chwith. Mae'r adroddiad yn gywir yn yr achos hwnnw ac yn hynny o beth. Dywed mai un o'r prif resymau oedd iddi fethu denu'r niferoedd yr oedd wedi gobeithio'u denu.

[250] **Alun Cairns:** A wnaethoch deimlo erioed, wrth edrych ar yr amrediad hwnnw o 40,000 i 600,000, y gallai'n hawdd ddod i mewn ar ben isaf y raddfa?

Mr Jenkins: Am wn i, yn yr amrediad o opsiynau, fe allasai ddod i mewn ar ben uchaf y raddfa hefyd, yn yr ystyr ein bod yn mynd i dir newydd ac, fel y dywedais, yr oedd yr holl dystiolaeth marchnata a gyflwynid inni yn awgrymu nid yn unig y gellid cael 250,000, ond y gallasai hynny hyd yn oed fod

on the low side. It proved wrong, of course it proved wrong, but that was the evidence that we had to go on at the time.

ar yr ochr isel. Profodd yn anghywir, wrth gwrs y profodd yn anghywir, ond dyna'r dystiolaeth a oedd gennym i weithredu arni ar y pryd.

[251] **Alun Cairns:** Bearing in mind the answer that you have just given me, on what basis did you conclude that it was sensible to include as comparators those attractions which are integral parts of larger tourist attractions, such as—if we look at the Welsh options, keeping it local—the Royal Welch Fusiliers Regimental Museum at Caernarfon castle? In one of your early answers you said that Cardiff itself was an attraction, but is it not fair to analyse that Cardiff itself as a city was competition to the Centre for Visual Arts? If people came to Cardiff for the day, they would go to either or but, on the other hand, if someone went to Caernarfon castle, with the greatest respect to Caernarfon as a retail centre, that competition was not there between Caernarfon castle and the Royal Welch Fusiliers Regimental Museum.

[251] **Alun Cairns:** Yn wyneb yr ateb yr ydych newydd ei roi imi, ar ba sail y daethoch i'r casgliad ei bod yn ddoeth cynnwys i ddibenion cymharu yr atyniadau hynny sydd yn rhannau annatod o atyniadau mwy i ymwelwyr, megis—os edrychwn ar yr enghreifftiau yng Nghymru, a chadw pethau'n lleol—Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol yng nghastell Caernarfon? Yn un o'ch atebion cynnar dywedasoch fod Caerdydd ei hun yn atyniad, ond onid yw'n deg dadansoddi fod Caerdydd ei hun fel dinas yn gystadleuaeth i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol? Os deuai pobl i Gaerdydd am y dydd, fe aent i'r naill neu'r llall, ond, ar y llaw arall, os âi rhywun i gastell Caernarfon, gyda phob parch i Gaernarfon fel canolfan siopa, ni cheid y gystadleuaeth honno rhwng castell Caernarfon ac Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol.

Mr Jenkins: Well, I think you could stand the argument on its head, and say that, if Caernarfon can attract 200,000, then a wonderful, world-famous art gallery in the centre of Cardiff should be able to match it. I do not know about you, Mr Cairns, but one of the things I do not like doing is shopping with my wife, and therefore if I had gone into

Mr Jenkins: Wel, yr wyf yn meddwl y gallech sefyll y ddadl honno ar ei phen, a dweud os gall Caernarfon ddenu 200,000, yna dylai oriel gelf fendigedig, fyd-enwog yng nghanol Caerdydd allu gwneud yr un modd. Ni wn amdano chi, Mr Cairns, ond un o'r pethau nad yw'n dda gennyf eu gwneud yw siopa gyda fy ngwraig, ac felly

the centre of Cardiff, and this had been there, I would have been delighted to go around it. The point I am trying to make is that there is the possibility of a lot of casual visiting in the centre of Cardiff, which was not available in Caernarfon.

pe bawn i wedi mynd i ganol Caerdydd, a bod hon yno, buaswn wrth fy modd yn mynd o'i chwmpas. Y pwynt yr wyf yn ceisio'i wneud yw bod posibilrwydd cael llawer o ymweliadau ar hap yng nghanol Caerdydd, nad oedd ar gael yng Nghaernarfon.

[252] **Alun Cairns:** On what basis would you make the statement that there was a lot of casual visiting?

[252] **Alun Cairns:** Ar ba sail y gwnaech y gosodiad fod llawer o ymweld ar hap?

Mr Jenkins: I am not making the statement that there was a lot, I am saying that the potential for casual visiting was far greater in the centre of Cardiff than it would have been for the Royal Welch Fusiliers Regimental Museum. May I just add one further point? You say that it was not part of a greater whole, as it were, in the way that the fusiliers museum was in Caernarfon, but that was exactly the concept that we were working on—that Cardiff itself was an attraction. This was within 200 yards of the museum, but it was across the road from St David's Hall, with all-day attractions. It was also complementary to the museum—that illustrates why we wanted the programme in the CVA to be complementary to the museum, because then people would go to both.

Mr Jenkins: Nid wyf yn gwneud y gosodiad fod yna lawer, dweud yr wyf fod y potensial ar gyfer ymweld ar hap yn llawer mwy yng nghanol Caerdydd nag y buasai i Amgueddfa Gatrodol y Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol. A gaf fi ychwanegu un pwynt arall? Dywedwch nad oedd yn rhan o gyfanrwydd mwy, fel petai, yn y ffordd yr oedd amgueddfa'r ffiwsilwyr yng Nghaernarfon, ond dyna'r union gysyniad yr oeddem yn gweithio arno—bod Caerdydd ei hun yn atyniad. Yr oedd hon o fewn 200 llath i'r amgueddfa, ond yr oedd dros y ffordd i Neuadd Dewi Sant, gydag atyniadau trwy'r dydd. Yr oedd hefyd yn ategol i'r amgueddfa—dyna pam yr oedd arnom eisiau i'r rhaglen yn y ganolfan fod yn ategol i'r amgueddfa, oherwydd wedyn byddai pobl yn mynd i'r ddwy.

[253] **Alun Cairns:** Okay, thank you for the answer. Can I move to the sensitivity analysis? What can you tell me about the sensitivity analysis?

[253] **Alun Cairns:** Iawn, diolch am yr ateb. A gaf fi symud ymlaen at y dadansoddiad sensitifrwydd? Beth allwch chi ei ddweud wrthyf am y dadansoddiad sensitifrwydd?

Mr Jenkins: May I transfer that across to Miss Weston?

Mr Jenkins: A gaf fi drosglwyddo hynny drosodd i Miss Weston?

Ms Weston: In the first estimate, the only sensitivity analysis that had been done was a 10 per cent variance. Hindsight tells us that it went wrong by more than 10 per cent, and I think that one of the lessons that we learnt very quickly was that, where things are untried, you do need to test variance and sensitivity to a greater extent. However, the fact is that the sensitivity analysis had been done, but it had been limited to a 10 per cent variation.

Ms Weston: Yn yr amcangyfrif cyntaf, yr unig ddadansoddiad sensitifrwydd a wnaethpwyd oedd amrywiad 10 y cant. Wrth edrych yn ôl gwelwn yr aeth o chwith fwy na 10 y cant, ac yr wyf yn meddwl mai un o'r gwersi a ddysgwyd gennym yn gyflym iawn oedd, lle bo pethau heb eu profi, y mae angen profi amrywiad a sensitifrwydd yn fwy trylwyr. Fodd bynnag, y ffaith yw fod y dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i wneud, ond ei fod wedi'i gyfyngu i amrywiad o 10 y cant.

[254] **Alun Cairns:** Why was it limited to 10 per cent?

[254] **Alun Cairns:** Pam y'i cyfyngwyd i 10 y cant?

Ms Weston: I am guessing, because I did not write the estimate myself, but I think that it is fairly standard practice in doing sensitivity analysis to test the big numbers by a 10 per cent variation.

Ms Weston: Yr wyf yn dyfalu, oherwydd nid ysgrifennais yr amcangyfrif fy hun, ond yr wyf yn meddwl ei bod yn arfer pur safonol wrth wneud dadansoddiad sensitifrwydd i brofi'r rhifau mawr yn ôl amrywiad o 10 y cant.

[255] **Alun Cairns:** Therefore, bearing in mind the variance of which we have spoken, of 600,000 to 40,000, was 10 per cent a sensible figure?

[255] **Alun Cairns:** Felly, o gofio'r amrywiad yr ydym wedi siarad amdano, sef 600,000 i 40,000, a oedd 10 y cant yn ffigur synhwyrol?

Ms Weston: The application was not trying to make a case for the CVA attracting an average of those different venues. That would be meaningless.

Ms Weston: Nid oedd y cais yn ceisio dadlau y byddai'r ganolfan yn denu cyfartaledd o ffigurau'r gwahanol ganolfannau hynny. Byddai hynny'n ddiystyr.

[256] **Alun Cairns:** I am not suggesting that either.

[256] **Alun Cairns:** Nid wyf finnu'n awgrymu hynny ychwaith.

Ms Weston: Right.

Ms Weston: Iawn.

[257] **Alun Cairns:** What I am saying is that, if we are using comparators which have an attraction potential of 40,000 right the way up to 600,000, is a sensitivity test of 10 per cent sensible?

[257] **Alun Cairns:** Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw, os ydym yn defnyddio cymaryddion sydd â photensial i ddenu 40,000 yr holl ffordd i fyny i 600,000, a yw prawf sensitifrwydd o 10 y cant yn synhwyrol?

Ms Weston: As I said, with hindsight, it could have been bigger but you must remember that those comparators were illustrations of other types of attractions and what was planned for the CVA at the time was that it was going to be unique and, particularly with its emphasis on hands-on facilities for children, we felt and the trust felt that it was going to be more akin to Techniquest than to a standard contemporary art gallery. That did not turn out to be the case but that was the aim and that is why the figure of 250,000 was arrived at through demographic analysis of the potential rather than by saying this is exactly like the Tate Modern, the Albert Dock or the Grassmarket

Ms Weston: Fel y dywedais, wrth edrych yn ôl, gallasai fod yn fwy, ond rhaid ichi gofio fod y cymaryddion hynny'n enghreifftiau o fathau eraill o atyniadau, ac mai'r bwriad ar gyfer y ganolfan ar y pryd oedd y byddai'n unigryw ac, yn enwedig gyda'i phwyslais ar gyfleusterau cyffwrdd i blant, ein teimlad ni a'r ymddiriedolaeth oedd y byddai ganddi fwy'n gyffredin â Techniquest nag ag oriel gelf gyfoes safonol. Nid felly y bu, ond dyna oedd y nod, a dyna pam y daethpwyd at y ffigur o 250,000 drwy ddadansoddiad demograffig o'r potensial yn hytrach na thrwy ddweud fod hon yn union yr un peth â'r Tate Modern, yr Albert Dock neu'r Grassmarket yng Nghaeredin. Yr oedd yn

in Edinburgh. It was unique. There are plenty of instances, including Techniquet, of unique ventures being very, very successful and, therefore, there was never any expectation that these were direct comparisons or models.

unigryw. Mae digonedd o enghreifftiau, gan gynnwys Techniquet, o fentrau unigryw'n profi'n llwyddiannus iawn, iawn, ac felly nid oedd unrhyw ddisgwyliad erioed y byddai'r rhain yn fodelau neu'n gymariaethau uniongyrchol.

258. [258] **Alun Cairns:** Regarding this variance, was there an assessment in terms of the impact of the risk on the financial viability of the project?

[258] **Alun Cairns:** O ran yr amrywiad hwn, a wnaed asesiad yn nhermau effaith y risg ar ymarferoldeb ariannol y prosiect?

259.

260. **Ms Weston:** There was. It was limited to 10 per cent and then, over the three or four years when plans were developing, the business plan was revisited by the management consultants who were working for the CVA and revised downwards, as you know. At each step, that was matched by an increase in income because it was well recognised between all of the partners that if you charge more, you will get fewer visitors.

261. **Ms Weston:** Do. Fe'i cyfyngwyd i 10 y cant ac wedyn, dros y tair neu bedair blynedd pan oedd y cynlluniau'n datblygu, ailedrychwyd ar y cynllun busnes gan yr ymgynghorwyr rheoli a weithiai i'r ganolfan a'i ddiwygio tuag i lawr, fel y gwyddoch. Ar bob cam, codwyd yr incwm i gyfateb i hynny oherwydd yr oedd y partneriaid i gyd yn sylweddoli os codwch dâl uwch, y cewch lai o ymwelwyr.

262.

263. **Mr Jenkins:** Will you allow me to tail that off, Mr Cairns? You are quoting these figures as if they were part of the application; they

264. **Mr Jenkins:** A ganiatewch imi ychwanegu ar gwt hynny, Mr Cairns? Yr ydych yn dyfynnu'r ffigurau hyn fel pe baent yn rhan

were not. They were four-year-old figures that were not part of the application. They had been included in the feasibility study, but as a general illustration. Therefore, we had to go on demographic market research on the trust's estimate, which we saw at that time, and the advice that we had was that the figure of 250,000 was achievable. We went on the information that we were given by the trust in the application, not in the feasibility study.

o'r cais; nid felly. Ffigurau pedair blwydd oed oeddent, nad oedd yn rhan o'r cais. Yr oeddent wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ymarferoldeb, ond fel enghraifft gyffredinol. Felly, yr oedd yn rhaid inni ddibynnu ar ymchwil marchnad ddemograffig ar amcangyfrif yr ymddiriedolaeth, a welsom ni bryd hynny, a'r cyngor a gawsom oedd y gellid cyrraedd y ffigur o 250,000. Bu inni weithredu ar y wybodaeth a roddwyd inni gan yr ymddiriedolaeth yn y cais, nid yn yr astudiaeth ymarferoldeb.

265.

266. [259] **Alun Cairns:** Working on those demographics that you have just highlighted, how did the arts council view comparisons with other attractions in the centre of Cardiff, such as the Oriel gallery and the Cardiff Old Library building itself, neither of which attracted more than around 70,000 visitors a year? There is a significant increase from 70,000 to 250,000.

267. [259] **Alun Cairns:** A gweithio ar y ddemograffeg honno yr ydych newydd ei thanlinellu, sut yr edrychodd cyngor y celfyddydau ar gymariaethau ag atyniadau eraill yng nghanol Caerdydd, megis yr Oriel ac adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd ei hun, nad oedd y naill na'r llall wedi derbyn mwy na rhyw 70,000 o ymwelwyr y flwyddyn? Mae cryn gynnydd o 70,000 i 250,000.

268.

269. **Mr Jenkins:** If I may say, I think we may have touched on the Oriel gallery comparison. The Oriel

270. **Mr Jenkins:** Os caf ddweud, yr wyf yn meddwl efallai ein bod wedi crybwyll y gymhariaeth â'r Oriel.

gallery is not comparable—or was not; I am afraid that it is now closed. The Oriel gallery was a very, very small gallery. The whole exhibition space was, I would guess, about the size of this room. Therefore, one could argue, if a space the size of this room can attract 50,000 visitors then 250,000 for a huge building like the CVA was a distinct possibility. However, that is another matter. One could argue that. In terms of the 71,000 visitors to the Old Library, this was very much an effort that was being put together by a group of artists who were not working as a trust and who were putting on shows of their own work. It is remarkable that they were able to attract 71,000 visitors and they are to be congratulated on that. However, it was not a direct comparator at all with the CVA and the operation that we envisaged in the centre.

Ni ellir cymharu'r Oriel—neu ni ellid; mae arnaf ofn ei bod wedi cau bellach. Oriel fechan iawn, iawn oedd yr Oriel. Yr oedd y cyfan o'r lle arddangos, mi dybiwn i, oddeutu maint yr ystafell hon. Felly, gellid dadlau, os gall lle o faint yr ystafell hon ddenu 50,000 o ymwelwyr yna yr oedd 250,000 i adeilad enfawr fel y ganolfan yn bosibilrwydd clir. Fodd bynnag, mater arall yw hwnnw. Gellid dadlau hynny. Yn nhermau'r 71,000 o ymwelwyr i'r Hen Lyfrgell, yr oedd hyn i raddau helaeth iawn yn gyd-ymdrech gan griw o artistiaid nad oedd yn gweithio fel ymddiriedolaeth ac a oedd yn arddangos eu gwaith eu hunain. Mae'n hynod iddynt lwyddo i ddenu 71,000 o ymwelwyr a rhaid eu llongyfarch ar hynny. Fodd bynnag, nid oedd yn gystadleuydd uniongyrchol o gwbl â'r ganolfan a'r gweithgaredd yr oeddem ni'n ei ragweld yn y ganolfan.

271.

272. [260] **Alun Cairns:** Thank you. What can you tell me about the impact of charging? Were you aware of the experience of the National Museum of Wales where, upon introducing entrance fees in

273. [260] **Alun Cairns:** Diolch. Beth allwch chi ei ddweud wrthyf am effaith codi tâl? A oeddech yn ymwybodol o brofiad Amgueddfa Genedlaethol Cymru lle, pan gyflwynwyd tâl mynediad yn 1988,

1988, it experienced a 65 per cent fall in visitors?

cafwyd cwymp o 65 y cant yn niferoedd ymwelwyr?

274.

275. **Mr Jenkins:** Yes, we were very conscious of the impact of charging and are delighted that now, in 2000-01, the charges for going into the national museum have been lifted. However, at the time, the national museum was charging to go in. Therefore, the comparators that I mentioned to you were there after the charges had been imposed. Yes, there had been a reduction whenever the charges came in. However, the national museum, in the year that we were considering this application, was attracting 245,000 visitors. There was also a charge for going into St Fagans, and in the year that we were considering here, there were over 400,000 people going into St Fagans. So, yes, the charging did have an effect, and of course it would have been easier to have achieved 250,000 in the CVA if there was no charge, but that was not part of the business case.

276. **Mr Jenkins:** Oeddem, yr oeddem yn ymwybodol iawn o effaith codi tâl ac yr ydym wrth ein boddau yn awr, yn 2000-01, fod y taliadau am fynd i mewn i'r amgueddfa genedlaethol wedi'u dileu. Fodd bynnag, ar y pryd, yr oedd yr amgueddfa genedlaethol yn codi tâl mynediad. Felly, yr oedd y cymaryddion a grybwyllais wrthyh yno wedi i'r taliadau gael eu gosod. Oedd, yr oedd niferoedd wedi disgyn pryd bynnag y cyflwynwyd taliadau. Fodd bynnag, yr oedd yr amgueddfa genedlaethol, yn y flwyddyn yr oeddem ni'n ystyried y cais hwn, yn denu 245,000 o ymwelwyr. Codid tâl hefyd am fynd i mewn i Sain Ffagan, ac yn y flwyddyn yr ydym ni'n ei hystyried yma, aeth dros 400,000 o bobl i mewn i Sain Ffagan. Felly, do, fe gafodd y taliadau effaith, ac wrth gwrs buasai'n haws cyrraedd 250,000 yn y ganolfan pe na chodid tâl, ond nid oedd hynny'n rhan o'r achos busnes.

277.

[261] **Alun Cairns:** I appreciate that, but is

[261] **Alun Cairns:** Yr wyf yn sylweddoli

the common sense approach not that if there are going to be charges, then those comparators should be excluded from your analysis? When Miss Weston earlier mentioned the lottery granted support projects like the Tate gallery, which had been enormously successful and had overshoot the projected figures that were given at the time of the project, with the greatest respect, that was free. Bearing in mind the charging here, I cannot reconcile your comments with a common sense analysis in terms of the visitor projections.

hynny, ond onid yr ymagwedd synnwyr cyffredin yw os am godi tâl, yna na ddylid cynnwys y cymaryddion hynny yn eich dadansoddiad? Pan soniodd Miss Weston yn gynharach am y prosiectau a gâi gymorth grant loteri, fel oriel y Tate, a fu'n hynod lwyddiannus ac a aethai dros y ffigurau disgwylidiedig a roesid ar adeg y prosiect, gyda phob parch, yr oedd mynediad i honno am ddim. Gan fod codi tâl yn y fan yma, ni allaf gysoni'ch sylwadau gyda dadansoddiad synnwyr cyffredin yn nhermau'r rhagolygon ymwelwyr.

Mr Jenkins: May I just say that the comparators that I have used this afternoon were comparators where there was charging. These comparators were part, again, of the feasibility study, not of the application. Therefore, we were not considering the feasibility study; we were considering the application that came before us in January 1995. I have tried to meet your point, because it is a valid point, by comparing like with like—in the sense that they were all being charged—in terms of St Fagans and the national museum. Those are the only comparators that I have used.

Mr Jenkins: A gaf i ddweud yn syml mai cymaryddion lle codid tâl oedd y cymaryddion a ddefnyddiais i y prynhawn yma. Eto, rhan o'r astudiaeth ymarferoldeb, nid o'r cais, oedd y cymaryddion hyn. Felly, nid oeddem ni'n ystyried yr astudiaeth ymarferoldeb; yr oeddem yn ystyried y cais a ddaeth ger ein bron yn Ionawr 1995. Yr wyf wedi ceisio ateb eich pwynt, oherwydd y mae'n bwynt dilys, drwy gymharu tebyg wrth ei debyg—yn yr ystyr y codid tâl ym mhob un—yn nhermau Sain Ffagan a'r amgueddfa genedlaethol. Dyna'r unig gymaryddion yr wyf fi wedi'u defnyddio.

Sir Richard Lloyd Jones: I think that the impact of charging had a considerable impact on the management of the national museum. I am right out of my ground here, but I do remember that, after charging was introduced, the then directors of the museum

Syr Richard Lloyd Jones: Yr wyf yn meddwl fod codi tâl wedi cael effaith sylweddol ar reolaeth yr amgueddfa genedlaethol. Yr wyf y tu allan i'm maes yn y fan hon, ond yr wyf yn cofio, ar ôl i daliadau gael eu cyflwyno, fod cyfarwyddwyr yr

spent a great deal of time reshaping the museum and marketing it. That is why I am sure that those visitor numbers that Mr Jenkins quoted earlier went up. So you are dealing with a dynamic situation, I think.

amgueddfa ar y pryd wedi treulio llawer iawn o amser yn ailwampio'r amgueddfa ac yn ei marchnata. Dyna pam mae'n siwr gennyf fi y cynyddodd y niferoedd ymwelwyr hynny a ddyfynnwyd gan Mr Jenkins yn gynharach. Felly yr ydych yn delio â sefyllfa ddeinamig, yr wyf yn meddwl.

[262] **Janet Davies:** Thank you, Sir Richard. Eleanor, you wanted to look at the research of the local market?

[262] **Janet Davies:** Diolch, Syr Richard. Eleanor, yr oedd arnoch eisiau edrych ar yr ymchwil i'r farchnad leol?

[263] **Eleanor Burnham:** Yes, I will try to be brief, because I know it is going on a bit. Paragraph 2.16 on page 11 of the Auditor General's report lists a number of assumptions on which the potential visitor market was based. What was the basis of these assumptions, and how sure was the council that they were sound? That could be directed to both Mr Jenkins and Ms Weston.

[263] **Eleanor Burnham:** Oedd, mi geisiaf fod yn fyr, oherwydd gwn fod hyn yn rhygnu ymlaen braidd. Mae paragraff 2.16 ar dudalen 11 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn rhestru nifer o ragdybiaethau y seiliwyd y ddarpar farchnad ymwelwyr arnynt. Beth oedd sail y rhagdybiaethau hyn, a pha mor sicr oedd y cyngor eu bod yn gadarn? Gellid cyfeirio hynny at Mr Jenkins a Ms Weston ill dau.

Ms Weston: I am sorry, you were asking what was the basis of the—?

Ms Weston: Mae'n ddrwg gennyf, yr oeddech yn holi beth oedd sail y—?

[264] **Eleanor Burnham:** The assumptions.

[264] **Eleanor Burnham:** Y rhagdybiaethau.

Ms Weston: I do not have access—

Ms Weston: Nid wyf yn gallu—

[265] **Eleanor Burnham:** For the potential

[265] **Eleanor Burnham:** O ran y ddarpar

visitor market.

farchnad ymwelwyr.

Ms Weston: Do you mean of it going up, or the original numbers that were estimated?

Ms Weston: A ydych yn golygu cynnydd ynddi, ynteu'r niferoedd gwreiddiol a amcangyfrifwyd?

[266] **Eleanor Burnham:** How did you research the potential visitor market, and on what was that research based?

[266] **Eleanor Burnham:** Sut y gwnaethoch ymchwilio i'r ddarpar farchnad ymwelwyr, ac ar beth y seiliwyd yr ymchwil honno?

Ms Weston: We did not research it directly ourselves. We are not a market research—sorry, when I say 'we', I mean that the arts council did not research it directly itself. That is why the arts council employed external assessors with various specialisms. The arts council did, during the time that I was there, employ a marketing expert, and the CVA's marketing plans, together with its reassessment, including its reassessment of visitor numbers, was examined in very close detail by that particular officer of the arts council. However, she would have been looking at work that had already been done and checking from her professional knowledge of market research that the assumptions that had been made were correct. It is not my speciality. I cannot take you any further than that, I am sorry.

Ms Weston: Ni wnaethom ymchwilio iddi'n uniongyrchol ein hunain. Nid cwmni ymchwil marchnad—mae'n flin gennyf, pan ddywedaf 'ni wnaethom', yr hyn a olygaf yw na wnaeth cyngor y celfyddydau ei hun ymchwilio'n uniongyrchol iddi. Dyna pam y cyflogodd cyngor y celfyddydau aseswyr allanol gydag amrywiol arbenigeddau. Fe fu i gyngor y celfyddydau, yn ystod fy amser yno, gyflogi arbenigwr marchnata, ac archwiliwyd cynlluniau marchnata'r ganolfan, ynghyd â'i ailasesiad, gan gynnwys ei ailasesiad o niferoedd ymwelwyr, yn fanwl iawn gan y swyddog arbennig honno yng nghyngor y celfyddydau. Fodd bynnag, buasai'n edrych ar waith a oedd eisoes wedi'i wneud ac yn gwirio ar sail ei gwybodaeth broffesiynol am ymchwil marchnad fod y rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn gywir. Nid fy arbenigedd i yw hyn. Ni allaf fynd â chi ymhellach na hynny, mae'n ddrwg gennyf.

[267] **Eleanor Burnham:** Okay. We notice

[267] **Eleanor Burnham:** Iawn. Sylwn nad

that the assessment of the local market did not involve any surveys of people living within or visiting the catchment area, to get a more informed view of the local population's propensity to visit, which you discussed earlier. Apparently, neither did it address the question of how much people might be prepared to pay. Do you now consider those to be fundamental weaknesses in that survey?

oedd yr asesiad o'r farchnad leol yn cynnwys unrhyw arolygon o bobl yn byw o fewn y dalgylch neu'n ymweld â'r dalgylch, i gael barn fwy gwybodus am duedd y boblogaeth leol i ymweld, a drafodwyd gennych yn gynharach. Nid aeth i'r afael ychwaith, yn ôl pob tebyg, â chwestiwn faint y byddai pobl yn fodlon ei dalu. A ydych bellach yn ystyried fod y rheini'n wendidau sylfaenol yn yr arolwg hwnnw?

Ms Weston: Not really, because the point of the survey, which was commissioned by the CVA from Cardiff Arts Marketing, was attitudinal research. It was to look at how people felt about the building itself, about the planned use and so on. It was not designed to assess the market. The sample that it took was much too small to do that. It was qualitative research—like a focus group, but more so—to find out directly from people what their attitudes were. So I would not have thought that that ought to impact on the projected visitor numbers.

Ms Weston: Ddim mewn gwirionedd, oherwydd ymchwil i agweddau oedd pwynt yr arolwg, a gomisiynwyd gan y ganolfan o gwmni Marchnata Celfyddydau Caerdydd. Yr oedd i edrych ar sut y teimlai pobl am yr adeilad ei hun, am y defnydd arfaethedig ac ati. Nid oedd wedi'i fwriadu i asesu'r farchnad. Yr oedd y sampl a gymerodd yn llawer rhy fach i wneud hynny. Ymchwil ansoddol ydoedd—fel grwp ffocws, ond yn fwy felly—i ganfod yn uniongyrchol gan bobl beth oedd eu hagweddau. Felly ni fuaswn wedi meddwl y dylasai hynny effeithio ar y niferoedd ymwelwyr a ragwelid.

One of the assessor's reports on the whole marketing plan remarked that that attitudinal research had thrown up some very useful points for the CVA and shown an encouraging—I cannot remember the exact words used—it was encouraged by the attitude to what was planned to happen in the building. Therefore, I do not think that the

Yn ôl un o adroddiadau'r asesydd ar y cynllun marchnata yn ei gyfanrwydd, yr oedd yr ymchwil agweddol hwnnw wedi codi ambell bwynt defnyddiol iawn i'r ganolfan ac wedi bod yn galonogol—ni allaf gofio'r union eiriau a ddefnyddiwyd—yr oedd wedi'i galonogi gan yr agwedd tuag at yr hyn oedd ar y gweill yn yr adeilad. Felly, nid wyf yn

two are directly comparable.

meddwl y gellir cymharu'r ddau'n uniongyrchol.

Sorry, you asked about charging as well. You are right that it did not address charging, but the places that were mentioned in the research, apart from shops, were all charging at the time. So you could say that you could take that as read.

Mae'n ddrwg gennyf, holasoch ynghylch codi tâl hefyd. Yr ydych yn iawn nad aethpwyd i'r afael â chodi tâl, ond yr oedd y lleoedd a grybwyllwyd yn yr ymchwil, ar wahân i siopau, i gyd yn codi tâl ar y pryd. Felly gallech ddweud y gellid cymryd hynny'n ganiataol.

[268] **Eleanor Burnham:** I do not know whether Mr Jenkins has anything else to add?

[268] **Eleanor Burnham:** Ni wn a oes gan Mr Jenkins unrhyw beth arall i'w ychwanegu?

Mr Jenkins: I do not have anything to add to that.

Mr Jenkins: Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at hynny.

[269] **Eleanor Burnham:** Okay. In light of the concerns raised and the questions that I have just asked, do you feel that there was sufficient guidance and experience available to the Arts Council of Wales to deal with an application of this magnitude?

[269] **Eleanor Burnham:** Iawn. Yn wyneb y pryderon a leisiwyd a'r cwestiynau yr wyf newydd eu gofyn, a ydych yn teimlo bod digon o arweiniad a phrofiad ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru ar y pryd i ddelio â chais o'r maint hwn?

Ms Weston: We all know that, now, the application would not have been dealt with at that stage. We moved very quickly after the first few rounds of lottery funding. I am sorry to come back to the report, but it does, on first reading to somebody who does not know the details, give the impression that these

Ms Weston: Gwyddom i gyd na fuasid bellach wedi delio â'r cais bryd hynny. Symudasom yn gyflym iawn ar ôl yr ychydig gylchoedd cyntaf o ddyrannu arian loteri. Mae'n ddrwg gennyf ddod yn ôl at yr adroddiad, ond y mae, ar y darlenniad cyntaf i rywun nad yw'n gwybod y manylion, yn

improvements in the process have been made lately. In fact, the key improvements that have been made to the lottery application system—that is, the three-stage application process of feasibility, then development, then full application, and the monthly monitoring and the withholding of payments if the arts council did not get the information it needed—were already in place while Richard Lloyd Jones was chairman, Emyr Jenkins was chief executive and I was lottery director. We put those in place because we could see, from this application and from a few others, that we were just going too fast, along with all the other lottery distributors. We were moving at exactly the same pace, in responding to guidance from the Department of National Heritage and from the NAO, and revising our systems, and that happened very quickly. So, no, I am not saying that the system with the CVA was perfect, but I would say that we handled a difficult situation. By the end of the capital project, we had come back to what was almost as if we had gone through that three-stage process.

rhoi'r argraff bod y gwelliannau hyn yn y broses wedi'u gwneud yn ddiweddar. Mewn gwirionedd, yr oedd y gwelliannau allweddol sydd wedi'u gwneud i'r system geisiadau loteri—hynny yw, proses y cais tri cham sef astudiaeth ymarferoldeb, wedyn datblygu, wedyn cais llawn, a'r monitro misol a chadw taliadau'n ôl os na châi cyngor y celfyddydau y wybodaeth yr oedd arno'i angen—eisoës wedi digwydd tra'r oedd Richard Lloyd Jones yn gadeirydd, Emyr Jenkins yn brif weithredwr a minnau'n gyfarwyddwr loteri. Gwnaethom y gwelliannau hynny oherwydd y gallem weld, o'r cais hwn ac ychydig o rai eraill, ein bod yn mynd yn rhy gyflym, fel y dosbarthwyr loteri eraill i gyd. Yr oeddem i gyd yn symud ar yr un cyflymdra'n union, wrth ymateb i ganllawiau gan yr Adran Dreftadaeth Genedlaethol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a diwygio'n systemau, a digwyddodd hynny'n gyflym iawn. Felly, na, nid wyf yn dweud bod y system gyda'r ganolfan yn berffaith, ond buaswn yn dweud ein bod wedi trin sefyllfa anodd. Erbyn diwedd y prosiect cyfalaf, yr oeddem wedi dod yn ôl at rywbeth a oedd bron fel pe baem wedi mynd drwy'r broses dri cham honno.

[270] **Eleanor Burnham:** I am quite new to the whole scenario because I am not a regular member of this Committee. I am just concerned really. Perhaps it makes it even more of a failure if you say that those procedures were already in motion. I assumed from what we have heard that the

[270] **Eleanor Burnham:** Yr wyf fi'n eithaf newydd i'r holl beth oherwydd nid wyf yn aelod rheolaidd o'r Pwyllgor hwn. Dim ond pryderu yr wyf, mewn gwirionedd. Efallai ei fod yn ei wneud yn fwy o fethiant fyth os dywedwch chi fod y gweithdrefnau hynny eisoës yn eu lle. Yr oeddwn i wedi tybio o'r

three-stage procedure was fairly new—

hyn a glywsom fod y drefn dri cham yn weddol newydd—

Ms Weston: I am sorry, I did not explain it. Could I just correct that? I am saying that it was not in place at the point where we made the first grant to the CVA. We are clear on that. However, it was put in place very quickly after the first few rounds of lottery funding, in about 1997.

Ms Weston: Mae'n ddrwg gennyf, nid esboniais y peth. A gaf fi gywiro hynny? Dweud yr wyf nad oedd yn ei le ar y pwynt pryd y rhoesom y grant cyntaf i'r ganolfan. Yr ydym yn glir ar hynny. Fodd bynnag, fe'i sefydlwyd yn fuan iawn ar ôl yr ychydig gylchoedd cyntaf o ddyrannu arian loteri, oddeutu 1997.

[271] **Eleanor Burnham:** We are talking about huge amounts of money. I have a note here: £1.5 million and £550,000 respectively; £723,000 was approved in March 1997 and £550,000 in 1998. These are just mind-boggling figures for somebody like me because, during this time, the projection for visitors kept falling.

[271] **Eleanor Burnham:** Yr ydym yn sôn am symiau anferth o arian. Mae gennyf nodyn yn y fan yma: £1.5 miliwn a £550,000 yn eu trefn; cymeradwywyd £723,000 ym Mawrth 1997 a £550,000 yn 1998. Mae'r rheini'n ffigurau anhygoel i rywun fel fi, oherwydd, yn ystod yr amser hwn, dal i gwympo wnâi'r rhagolwg ymwelwyr.

Ms Weston: It was revised in line with the difficulties in balancing the budget and the acknowledgement that, if you charged more in order to raise the income, then you would attract fewer people. There is one external factor that we have not mentioned yet, and that is the intention that was announced by the Government both in Westminster and here to remove admission charges to museums and galleries. Of course, in general terms, everybody in the arts council welcomed that very much, but it did cause consternation relating to the CVA and it was

Ms Weston: Fe'i diwygiwyd yn unol â'r anawsterau i fantoli'r gyllideb a chan gydnabod, pe codid tâl uwch er mwyn cynyddu'r incwm, yna y denid llai o bobl. Mae un ffactor allanol nad ydym wedi ei grybwyll eto, sef y bwriad a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn San Steffan ac yma i ddileu taliadau mynediad i amgueddfeydd ac orielau. Wrth gwrs, mewn termau cyffredinol, croesawyd hynny'n fawr iawn gan bawb yng nghyngor y celfyddydau, ond fe achosodd bryder ynghylch y ganolfan ac yr oedd yn un o'r ffactorau a gymerwyd i

one of the factors that was taken into account when the CVA did its last revision of projected visitor numbers down to 182,000.

ystyriaeth pan addasodd y ganolfan ei rhagolygon niferoedd ymwelwyr am y tro olaf i lawr i 182,000.

[272] **Eleanor Burnham:** I will address Mr Jenkins with the next question. At key stages in the project, the projected number of visitors was reduced from 282,000 progressively to 182,000. Why was there no corresponding reduction in the forecast admission income and why did you not raise this with the trust or even require a reduced forecast of revenues to be reflected in a revised business plan?

[272] **Eleanor Burnham:** Cyfeiriaf y cwestiwn nesaf at Mr Jenkins. Ar gamau allweddol yn y prosiect, lleihawyd y nifer o ymwelwyr a ragwelid o 282,000 fesul tipyn i 182,000. Pam na fu lleihad cyfatebol yn yr incwm mynediad a ragwelid a pham na chodasoch hyn gyda'r ymddiriedolaeth neu hyd yn oed fynnu bod rhagolwg refeniw llai'n cael ei adlewyrchu mewn cynllun busnes diwygiedig?

Mr Jenkins: Can I first of all dispute the start point on that? I think that I have said that we were not considering the feasibility study at the time, therefore the 282,000 is not part of our discussion at all. Our base point was the 250,000 that was coming through when the first application came to us, and therefore, forgive me, but I do believe that the table shows minus 11 per cent. I do not think that you can start any baseline at minus 11 per cent as shown in figure 9. Really, our start point was that first lottery application in January 1995 which said 252,000. Therefore, it follows from that that the first intimation that we got that the visitor figures were going down was the second lottery application, where you see the figure 205,000. The business case took this into account. We have documentary evidence that the business case was taken into account. The entrance fee

Mr Jenkins: A gaf fi yn gyntaf herio'r man cychwyn ar hynny? Yr wyf yn meddwl fy mod wedi dweud nad oeddem yn ystyried yr astudiaeth ymarferoldeb ar y pryd, felly nid yw'r 282,000 yn rhan o'n trafodaeth ni o gwbl. Ein pwynt gwaelodol ni oedd y 250,000 a ddaeth drwodd pan ddaeth y cais cyntaf atom, ac felly, maddeuwch imi, ond yr wyf yn credu fod y tabl yn dangos minws 11 y cant. Nid wyf yn meddwl y gallwch ddechrau unrhyw linell waelod ar finws 11 y cant fel a ddangosir yn ffigur 9. Mewn gwirionedd, ein man cychwyn ni oedd y cais loteri cyntaf hwnnw yn Ionawr 1995 a ddywedodd 252,000. Felly, mae'n dilyn o hynny mai'r arwydd cyntaf a gawsom ni fod y ffigurau ymwelwyr yn mynd i lawr oedd yr ail gais loteri, lle gwelwch y ffigur 205,000. Cymerwyd hyn i ystyriaeth yn yr achos busnes. Mae gennym dystiolaeth ddogfennol

went up to balance the figures coming down, and at no stage were we given to understand that the business plan, the income and expenditure of the CVA was not covered and gave us a balanced budget. As you say, as the figures came down—although I would dispute the start point—there is no denying that they came down in the next two applications, but the income was going up because the entrance fee was going up. Which is cause and which is effect, I am not sure, I cannot tell you. Whether the entrance fee was going up and therefore the visitor numbers were coming down, or was it because the visitor numbers were coming down that it had to raise the entrance fee, I do not know.

y cymerwyd yr achos busnes i ystyriaeth. Aeth y tâl mynediad i fyny i fantoli'r ffigurau a oedd yn dod i lawr, ac ni roddwyd ar ddeall inni ar unrhyw adeg nad oedd y cynllun busnes, incwm a gwariant y ganolfan, wedi'i ofalu amdano ac yn rhoi cyllideb gytbwys inni. Fel y dywedwch, wrth i'r ffigurau ddod i lawr—er y byddwn i'n herio'r man cychwyn—nid oes gwadu y daethant i lawr yn y ddau gais nesaf, ond yr oedd yr incwm yn mynd i fyny am fod y tâl mynediad yn mynd i fyny. Pa un yw'r achos a pha un yw'r effaith, nid wyf yn siwr, ni allaf ddweud wrthyh. Ai y tâl mynediad oedd yn mynd i fyny ac felly bod y niferoedd ymwelwyr yn dod i lawr, ai oherwydd bod y niferoedd ymwelwyr yn dod i lawr yr oedd yn rhaid cynyddu'r tâl mynediad, ni wn.

[273] **Alun Cairns:** Cadeirydd, could I come in with one very small supplementary?

[273] **Alun Cairns:** Gadeirydd, a gaf fi ddod i mewn ag un cwestiwn atodol bach iawn?

[274] **Janet Davies:** Very quickly.

[274] **Janet Davies:** Yn sydyn iawn.

[275] **Alun Cairns:** Bearing in the mind the record of the applicant for support then—it projected at the outset, say, 252,000, and then it fell down to 182,000 by the third application—at the second and third application, did you ever consider the feasibility of it actually achieving those figures, bearing in mind its record, and did you not want to test its projections at that time?

[275] **Alun Cairns:** O gofio record yr ymgeisydd am gymorth bryd hynny—rhagwelodd ar y dechrau, dyweder, 252,000, ac wedyn cwmpodd i lawr i 182,000 erbyn y trydydd cais—ar yr ail a'r trydydd cais, a fu ichi ystyried erioed pa mor ymarferol ydoedd y byddai byth yn cyrraedd y ffigurau hynny mewn gwirionedd, o gofio'i record, ac onid oeddech yn awyddus i brofi'i ragolygon bryd hynny?

Mr Jenkins: I am afraid I can only answer for the second application. Perhaps Jo would like to come in on the whole question.

Mr Jenkins: Mae arnaf ofn na allaf ond ateb dros yr ail gais. Efallai yr hoffai Jo ddod i mewn ar y cwestiwn cyfan.

Ms Weston: On the third application, we were getting close to the point where the centre was close to opening but had not yet opened. The marketing plan was assessed by the arts council's marketing officer, who is an expert in market research and projecting visitor numbers, and so it was flagged up in the assessor's report that we should assess the revised visitor numbers, and we did that with our own staff. Also, as I have already mentioned, the CVA itself reappointed Deloitte and Touche to look at the whole business plan. Therefore, we were challenging the revised figures at every stage, and we were using a combination of external assessors and our own staff throughout the whole process. There was monthly monitoring going on, there was monitoring of the whole marketing plan. One of the things that this report misses altogether is the fact that the arts council as an organisation includes the lottery department, or whatever, but it also includes the art form department and the access division, as they are known. Those divisions have experts in their own right—one is in marketing, and one is in visual arts—and those people were monitoring the marketing side and the visual arts programme as well. Therefore, there was a very, very active relationship of monitoring and challenge going on, and we were

Ms Weston: Ar y trydydd cais, yr oeddem yn nesáu at y pwynt lle'r oedd y ganolfan yn agos at agor ond nad oedd eto wedi agor. Aseswyd y cynllun marchnata gan swyddog marchnata cyngor y celfyddydau, sydd yn arbenigwr mewn ymchwil marchnad a rhagweld niferoedd ymwelwyr, felly tanlinellwyd yn adroddiad yr asesydd y dylem asesu'r niferoedd ymwelwyr diwygiedig, a gwnaethom hynny gyda'n staff ein hunain. Hefyd, fel y crybwyllais eisoes, ailbenododd y ganolfan ei hun Deloitte and Touche i edrych ar y cynllun busnes yn ei gyfanrwydd. Felly, yr oeddem yn herio'r ffigurau diwygiedig ar bob cam, ac yr oeddem yn defnyddio cyfuniad o aseswyr allanol a'n staff ein hunain drwy gydol y broses. Yr oedd monitro misol yn digwydd, yr oedd monitro ar y cynllun marchnata cyfan. Un o'r pethau y mae'r adroddiad hwn yn ei golli'n llwyr yw'r ffaith fod cyngor y celfyddydau fel corff yn cynnwys adran y loteri, neu beth bynnag, ond ei fod hefyd yn cynnwys yr adran ffurfiau celf a'r adran fynediad, fel y'u hadwaenir. Mae gan yr adrannau hynny arbenigwyr—mae un ym maes marchnata, a'r llall yn y celfyddydau gweledol—ac yr oedd y bobl hynny'n monitro'r ochr farchnata a'r rhaglen gelfyddydau gweledol hefyd. Felly, yr oedd perthynas weithredol iawn, iawn o fonitro a

reassured at key stages, right up until the building opened, and then we could see—everybody could see—because there was no way of testing it before that.

herio yn mynd rhagddi, ac yr oeddem yn cael sicrwydd ar gamau allweddol, hyd at agoriad yr adeilad, ac wedyn gallem weld—gallai pawb weld—oherwydd nid oedd unrhyw ffordd o'i brofi cyn hynny.

[276] **Eleanor Burnham:** My penultimate question is to Ms Weston, Mr Edge and Mr Jenkins—whoever wants to answer. In response to the third application, the project monitor reported in March 1998 that the application still had to be assessed against such criteria as the long-term effect of the organisation's financial stability, the amount of partnership funding and the quality of design and construction. With concerns as serious as the financial stability of the project, was it prudent to recommend the third award?

[276] **Eleanor Burnham:** Mae fy nghwestiwn olaf ond un i Ms Weston, Mr Edge a Mr Jenkins—pwy bynnag sydd eisiau ateb. Mewn ymateb i'r trydydd cais, adroddodd monitor y prosiect ym Mawrth 1998 fod y cais yn dal heb ei asesu yn erbyn meini prawf megis effaith hirdymor sefydlogrwydd ariannol y sefydliad, swm yr arian partneriaeth ac ansawdd y gwaith dylunio ac adeiladu. Gyda phryderon mor ddifrifol â sefydlogrwydd ariannol y prosiect, a oedd argymhell y trydydd dyfarniad yn gam doeth?

Mr Jenkins: Can I hand this over to Mr Edge? That was after my retirement, I am afraid.

Mr Jenkins: A gaf fi drosglwyddo hwn i Mr Edge? Yr oedd hynny ar ôl fy ymddeoliad, mae arnaf ofn.

Mr Edge: I suggest that this, I am afraid, seems to be a misinterpretation of what the project assessor was asked to do at the third stage. The third grant was a grant that was made as a response to an application for equipment and fit-out of the building. The assessment that was made was made by an architect who had been following the project through; he had been the external project monitor throughout. He may have been under

Mr Edge: Awgrymaf ei bod yn ymddangos bod hyn, mae gennyf ofn, yn gamddehongliad o'r hyn y gofynnwyd i asesydd y prosiect ei wneud ar y trydydd cam. Grant oedd y trydydd grant a roddwyd fel ymateb i gais am offer a ffitiadau i'r adeilad. Cafodd yr asesiad a wnaethpwyd ei wneud gan bensaer a fu'n dilyn y prosiect drwodd; ef fu monitor allanol y prosiect drwy gydol y broses. Efallai iddo fod dan yr argraff

the impression that other people were going to look afresh at other parts of the business plan, or whatever, because we were using standard forms. However, at that stage, the refurbishment work had already started, the builders were on site and the application was just concerned with the equipment and fit-out.

y byddai pobl eraill yn edrych o'r newydd ar rannau eraill o'r cynllun busnes, neu beth bynnag, oherwydd yr oeddem yn defnyddio ffurflenni safonol. Fodd bynnag, erbyn hynny, yr oedd y gwaith adnewyddu eisoes wedi dechrau, yr oedd yr adeiladwyr ar y safle ac yr oedd a wnelo'r cais â'r offer a'r ffitiadau'n unig.

[277] **Eleanor Burnham:** I am not sure that I am competent enough to continue with a supplementary to that. Perhaps you have one, Chair. Shall I ask my final question to Sir Richard? Is that okay?

[277] **Eleanor Burnham:** Nid wyf yn siwr fy mod yn ddigon cymwys i fynd ymlaen â chwestiwn atodol i hynny. Efallai fod un gennyh chi, Gadeirydd. A wna fi ofyn fy nghwestiwn olaf i Syr Richard? A ydyw hynny'n iawn?

[278] **Janet Davies:** Yes, quickly.

[278] **Janet Davies:** Ydyw, yn gyflym.

[279] **Eleanor Burnham:** Did council members and you, as chairman, receive advice from officials in relation to the changes in forecast visitor numbers and concerns about the financial viability of the project? If so, what action, if any, was taken? If none, why not?

[279] **Eleanor Burnham:** A gafodd aelodau'r cyngor a chi, fel cadeirydd, gyngor gan swyddogion ynglyn â'r newidiadau yn y rhagolygon niferoedd ymwelwyr a phryderon ynghylch ymarferoldeb ariannol y prosiect? Os do, beth a wnaethpwyd, os gwnaethpwyd rhywbeth? Os na wnaethpwyd dim, pam ddim?

Sir Richard Lloyd Jones: I cannot recall exactly. I have not looked at the minutes of council meetings, I am afraid. The preparation has been done by the officers who knew the files, but I am pretty sure that what would have happened is that the lottery

Syr Richard Lloyd Jones: Ni allaf gofio'n union. Nid wyf wedi edrych ar gofnodion cyfarfodydd y cyngor, mae gennyf ofn. Gwnaethpwyd y gwaith paratoi gan y swyddogion a adwaenai'r ffeiliau, ond yr wyf yn eithaf siwr mai'r hyn a fyddai wedi

board would have taken regular reports on this and that we, as council members, would have relied heavily on the lottery board's discussions. I may say that I would have taken comfort from that, because I did not take part in lottery board discussions. I did not think that to be really proper. My role as chairman—there has to be some sort of court of appeal, does there not, in an organisation like the arts council? However, I did go to two or three lottery boards and I was impressed with the rigour with which they went through, not only the projects that they were asked to approve, but also the monitoring.

digwydd yw y buasai bwrdd y loteri wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar hyn ac y buasem ni, aelodau'r cyngor, wedi dibynnu'n drwm ar drafodaethau bwrdd y loteri. Gallaf ddweud y buaswn i wedi ymgysuro am hynny, gan na chymerais i ran yn nhrafodaethau bwrdd y loteri. Ni feddyliwn y byddai hynny'n briodol iawn. Fy rôl fel cadeirydd—mae'n rhaid cael rhyw fath o lys apêl, onid oes, mewn corff fel cyngor y celfyddydau? Fodd bynnag, fe fynychais ddau neu dri bwrdd loteri a gwerthfawrogi mor drylwyr yr aent drwy, nid yn unig y prosiectau y gofynnid iddynt eu cymeradwyo, ond y monitro hefyd.

[280] **Eleanor Burnham:** So you would not have been directly involved and you would not have been aware of all these concerns?

[280] **Eleanor Burnham:** Felly ni fuasech chi wedi ymhél yn uniongyrchol ac ni fuasech yn ymwybodol o'r holl bryderon hyn?

Sir Richard Lloyd Jones: I might not have been directly involved, but that is no answer, is it? I was the chairman of the council. I take responsibility. That is why I have come here today.

Syr Richard Lloyd Jones: Efallai na fuaswn wedi ymhél â'r peth yn uniongyrchol, ond nid yw hynny'n ateb o gwbl, nac ydyw? Fi oedd cadeirydd y cyngor. Cymeraf gyfrifoldeb. Dyna pam y deuthum yma heddiw.

[281] **Alison Halford:** Chair, I know that we are pushed for time but may I please ask a quick question? Sir Richard, you said a 'court of appeal'? In your opening remarks, you gave us the indication that you had an enormous amount of hands-on responsibility as chair. What are you saying now, with your

[281] **Alison Halford:** Gadeirydd, gwn ein bod yn brin o amser ond a gaf fi ofyn cwestiwn sydyn, os gwelwch yn dda? Syr Richard, dywedasoch 'llys apêl'? Yn eich sylwadau agoriadol, rhoesoch yr argraff inni fod gennych beth wmbredd o gyfrifoldeb gweithredol fel cadeirydd. Beth ydych chi'n

court-of-appeal hat?

ei ddweud yn awr, gyda'ch het llys apêl?

Sir Richard Lloyd Jones: That was probably a misstatement, was it not? I had better withdraw it. What I mean is that the council was a place where there should be room for debate about things that the council members were worried about. It was not an executive body, incidentally; it did not manage the business of the council in the way, I think, that you and I would think of management. Our job was to approve policy, set policy, to act as trustees and discharge the fiduciary responsibility of trustees, because we were a board of trustees. That was our main job. What I simply mean is that, very often—if you look at the composition of the council at the time, you will see that there are some pretty strong-minded people on it. If they were not happy with the decisions that were being taken, they were perfectly free to bring them to council, and then I had to resolve it. It was in that sense that I meant that I did not go hands-on.

Syr Richard Lloyd Jones: Mae'n debyg mai camosodiad oedd hwnnw, onid e? Byddai'n well imi ei dynnu'n ôl. Yr hyn a olygaf yw fod y cyngor yn fan lle dylai fod lle i drafod pethau yr oedd aelodau'r cyngor yn poeni amdanynt. Nid oedd yn gorff gweithredol, gyda llaw; ni reolai fusnes y cyngor yn y ffordd y byddech chi a mi, dybiaf i, yn meddwl am reoli. Ein gwaith oedd cymeradwyo polisi, pennu polisi, gweithredu fel ymddiriedolwyr a chyflawni cyfrifoldeb ymddiriedol ymddiriedolwyr, am mai bwrdd o ymddiriedolwyr oeddem. Dyna oedd ein priod waith. Yr hyn a olygaf yn syml yw, yn aml iawn—os edrychwch ar gyfansoddiad y cyngor ar y pryd, fe welwch fod rhai pobl eithaf penderfynol arno. Os nad oeddent yn hapus gyda'r penderfyniadau a wneid, yr oeddent yn berffaith rhydd i ddod â hwy i'r cyngor, ac wedyn byddai'n rhaid i mi eu datrys. Yn yr ystyr hwnnw y golygwn nad oeddwn yn gadeirydd gweithredol.

[282] **Alison Halford:** But you indicated—forgive me, I know that we are pressed for time, but it is an important point; there is no point in you coming here and sitting through this if we do not assess the information—did you not just say that you really left the lottery board situation to the lottery people? You did not actually say that, did you—?

[282] **Alison Halford:** Ond rhoesoch yr argraff—maddeuwch imi, gwn fod amser yn brin, ond mae'n bwynt pwysig; nid oes diben ichi ddod yma ac eistedd drwy hyn os nad aseswn y wybodaeth—onid ydych newydd ddweud eich bod mewn gwirionedd wedi gadael sefyllfa bwrdd y loteri i bobl y loteri? Nid dyna a ddywedasoch mewn gwirionedd, nage—?

Sir Richard Lloyd Jones: No, not entirely.

Syr Richard Lloyd Jones: Na, ddim yn hollol.

[283] **Alison Halford:**—because that would rather have abdicated your responsibility as the chair, I would suggest.

[283] **Alison Halford:**—oherwydd buasai hynny wedi golygu braidd eich bod yn gwrthod eich cyfrifoldeb fel cadeirydd, fe awgrymwn i.

Sir Richard Lloyd Jones: I think that if you are chairman of a body like the arts council, you simply cannot be hands-on everywhere: you have a chief executive. I had every confidence in him and the lottery director, for one thing. There is no room for two people to manage, in that sense. However, I fully accept that I had to take responsibility and I was assisted in that by the other council members. This is not a good answer, but you know what I am after.

Syr Richard Lloyd Jones: Yr wyf yn meddwl os ydych yn gadeirydd corff fel cyngor y celfyddydau, na allwch fod yn weithredol ymarferol ym mhobman: mae gennych brif weithredwr. Yr oedd gennyf bob hyder ynddo ef a chyfarwyddwr y loteri, yn un peth. Nid oes lle i ddau berson reoli, yn yr ystyr hwnnw. Fodd bynnag, derbynïaf yn llawn fod yn rhaid imi gymryd cyfrifoldeb a chefais gymorth yn hynny o beth gan aelodau eraill y cyngor. Nid yw hwn yn ateb da, ond gwyddoch beth sydd gennyf.

[284] **Alison Halford:** So the buck stops where, Sir Richard? With you or Mr Jenkins?

[284] **Alison Halford:** Felly ym mhle mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw, Syr Richard? Gyda chi ynteu Mr Jenkins?

278. **Sir Richard Lloyd Jones:** Well, I think that that depends. The buck stops with me for the overall conduct of the council. I was responsible to the Secretary of State throughout my time as arts council

279. **Syr Richard Lloyd Jones:** Wel, yr wyf yn meddwl fod hynny'n dibynnu. Gyda mi y mae'r cyfrifoldeb am ymddygiad cyffredinol y cyngor. Yr oeddwn yn gyfrifol i'r Ysgrifennydd Gwladol

chairman. The buck stopped with me. However, I would not go to the Public Accounts Committee to account.

drwy gydol fy nghyfnod fel
cadeirydd cyngor y celfyddydau.
Gyda mi yr oedd y cyfrifoldeb.
Fodd bynnag, ni fyddwn yn mynd
gerbron y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus i roi cyfrif.

280.

281. **Mr Jenkins:** The buck stops with me for the Public Accounts Committee and then with Ms Weston, who was my successor.

282. **Mr Jenkins:** Gyda mi y mae'r cyfrifoldeb am y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac wedyn gyda Ms Weston, sef fy olynydd.

283.

284. [285] **Alison Halford:** I will not fight with the buck any more.

285. [285] **Alison Halford:** Ni wnaf ymrafael gyda chwestiwn y cyfrifoldeb mwyach.

286.

287. [286] **Janet Davies:** Dai, you want to look at some key changes that took place to the project?

288. [286] **Janet Davies:** Dai, mae arnoch chi eisiau edrych ar rai newidiadau allweddol a ddigwyddodd i'r prosiect?

289.

290. [287] **David Lloyd:** Yes. We have touched on these issues to a degree already. I have a short preamble and then one question. Whoever feels confident to reply can reply. We have heard that the proposed charging regime changed significantly during the life of the

1. [287] **David Lloyd:** Oes. Yr ydym wedi crybwyll y materion hyn i ryw raddau eisoes. Mae gennyf ragymadrodd byr ac wedyn un cwestiwn. Caiff pwy bynnag sydd yn teimlo'n hyderus i ateb, ateb. Clywsom fod y drefn arfaethedig ar gyfer codi tâl wedi newid yn

project. The initial plan was to charge £2 for full admission, but this was revised to £3.50 and so on. We have also heard about the realities of the programming, whether it was a planned change or not—obviously, Picasso cannot materialise at the drop of a hat, as we have heard. Did council members receive advice from officials in relation to these changes—both the changes in planned admission fees and the changes in the programming—given that both those aspects were critical in attracting the visitor targets? Did the council members receive advice from officials? We have heard about the monitoring and the challenging, but did any advice go further than that? In particular, why did the council not take action to investigate and freeze lottery grant payments if it was not happy?

292.

293. **Mr Jenkins:** Can I address the first—

296. **Sir Richard Lloyd Jones:** Sorry, Chair. I think that we need to come to the basic dilemma here, which is that that project was not going to

sylweddol yn ystod oes y prosiect. Y cynllun ar y dechrau oedd codi £2 am fynediad llawn, ond codwyd hynny i £3.50 ac yn y blaen. Clywsom hefyd am realiti'r rhaglennu, boed hynny'n newid a gynlluniwyd ai peidio—yn amlwg, ni all Picasso ymddangos ar amrantiad, fel y clywsom. A gafodd aelodau'r cyngor gyngor gan swyddogion ynglyn â'r newidiadau hyn—sef y newidiadau yn y taliadau mynediad a fwriedid a'r newidiadau yn y rhaglen—o gofio bod y ddwy agwedd honno'n allweddol i ddenu'r ymwelwyr a dargedwyd? A gafodd aelodau'r cyngor gyngor gan swyddogion? Clywsom am y monitro a'r herio, ond a aeth unrhyw gyngor ymhellach na hynny? Yn enwedig, pam na weithredodd y cyngor i ymchwilio i daliadau grant loteri a'u rhewi os nad oedd yn hapus?

294. **Mr Jenkins:** A gaf fi ateb y cyntaf—

295.

Syr Richard Lloyd Jones: Mae'n ddrwg gennyf, Gadeirydd. Yr wyf yn meddwl fod angen inni ddod at y cyfyng-gyngor sylfaenol yma, sef nad oedd y

happen unless the building was refurbished. So the money had to be spent. I read the advice in the auditor's report that the arts council had a duty to protect the investment. However, it is very debatable whether you protect an investment when you are in the middle of building or refurbishing a building by saying that you will not give any more grant out. It is a big, big decision to take. The other side of this, of course, is that this project was not only underpinned by a lottery investment, it was underpinned by a promise of revenue funding of £200,000 a year, which we had earmarked for the Centre for Visual Arts. In a sense, it was the prospect of having to increase that revenue funding that was the risk element. I believe my colleagues would argue that, although there were serious changes in the building costs, after allowing for inflation they might be the sort of increases you might expect when you refurbish an old building. You open it up and you find things that are unexpected.

298. However—no, perhaps, I do not want to take the Committee down this road—but there is a

prosiect hwn yn mynd i ddigwydd os na châi'r adeilad ei ailwampio. Felly yr oedd rhaid gwario'r arian. Darllenais y gosodiad yn adroddiad yr archwilydd fod gan gyngor y celfyddydau ddyletswydd i warchod y buddsoddiad. Fodd bynnag, mae'n amheus iawn ai gwarchod buddsoddiad a wnewch pan ydych ar ganol codi neu ailwampio adeilad drwy ddweud na roddwch ychwaneg o grant at y gwaith. Mae'n benderfyniad mawr, mawr i'w wneud. Yr ochr arall i hyn, wrth gwrs, yw fod y prosiect hwn wedi'i gynnal nid yn unig gan fuddsoddiad loteri, yr oedd wedi'i gynnal gan addewid o gyllid refeniw o £200,000 y flwyddyn, a glustnodwyd gennym ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Mewn un ystyr, y rhagolwg o orfod cynyddu'r cyllid refeniw hwnnw oedd yr elfen o risg. Credaf y dadleuai fy nghyd-aelodau, er bod newidiadau difrifol yng nghostau'r adeilad, wedi ichi ganiatáu am chwyddiant y gallent fod y math o godiadau a ddisgwylicch wrth ailwampio hen adeilad. Byddwch yn agor ei berfedd ac yn dod o hyd i bethau annisgwyl.

297.

299. Fodd bynnag—na, efallai nad oes arnaf eisiau mynd â'r Pwyllgor i lawr y ffordd hon—ond y mae

fundamental conflict of interest really here between the arts council's two purposes when it comes to protecting lottery investments. Obviously, when the thing failed, the arts council took the decision that it could not put its revenue grant programme at risk to the extent necessary to fund the centre. So it was not able to protect the investment.

gwrthdaro buddiannau sylfaenol yma mewn gwirionedd rhwng dau bwrpas cyngor y celfyddydau o safbwynt gwarchod buddsoddiadau loteri. Yn amlwg, pan aeth yr hwch drwy'r siop, penderfynodd cyngor y celfyddydau na allai beryglu ei raglen grantiau refeniw i'r graddau angenrheidiol i ariannu'r ganolfan. Felly nid oedd yn gallu gwarchod y buddsoddiad.

300.

301. **Ms Weston:** Can I comment on the issue of withholding payments? The report says in paragraph 3.10:

302. **Ms Weston:** A gaf i wneud sylw ar fater cadw taliadau yn ôl? Dywed yr adroddiad ym mharagraff 3.10:

303.

304. 'The Arts Council of Wales has told us that it will in the future withhold the monthly draw down of funds'.

306. 'Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dweud wrthym ni y bydd, yn y dyfodol, yn cadw'r arian misol'.

307.

305.

308. I have in my file letters from February 1997 to the CVA saying that

309. Yn fy ffeil mae gennyf lythyrau o Chwefror 1997 at Ganolfan y Celfyddydau Gweledol yn dweud

310.

311. 'to date we have not received cash flows. We would reiterate that we are unable to release any further payments until they have been

312. 'hyd yma nid ydym wedi derbyn cofnodion llif arian. Ailadroddwn na allwn ryddhau unrhyw daliadau pellach hyd nes byddant wedi dod i

- received’.
- 313.
314. A letter from November 1998:
315. Dyma lythyr o Dachwedd 1998:
- 316.
317. ‘receipt by the arts council of the full pre-opening programme will be necessary before the 1999-2000 revenue grant can be released’.
319. ‘bydd angen i gyngor y celfyddydau dderbyn y rhaglen gyn-agor lawn cyn y gellir rhyddhau grant refeniw 1999-2000’.
- 318.
- 320.
321. There is a file note to a meeting in January 1999, where information requirements were specified before capital draw down was possible. Then, in December 1999, a letter from the access division, not the lottery division, saying that
323. Ceir nodyn ffeil i gyfarfod yn Ionawr 1999, lle pennwyd y gofynion gwybodaeth cyn y byddai’n bosibl caniatáu tynnu cyfalaf i lawr. Wedyn, yn Rhagfyr 1999, llythyr gan yr adran fynediad, nid adran y loteri, yn dweud
- 322.
- 324.
325. ‘the lottery division will not authorise any further capital payments until balance revenue budget proposals have been agreed.’
- ‘ni wnaiff adran y loteri awdurdodi unrhyw daliadau cyfalaf pellach hyd nes byddir wedi cytuno ar gynigion cyllideb refeniw balans.’
- 326.
327. As I said, we were constantly monitoring and the whole arts council was working together. I should not speculate, but I think that that is why a great deal of the monitoring activity was missed in
328. Fel y dywedais, yr oeddem yn monitro’n gyson ac yr oedd cyngor y celfyddydau yn ei gyfanrwydd yn cydweithio. Ni ddylwn ddyfalu, ond yr wyf yn meddwl mai dyna pam y methwyd llawer iawn o’r

this report.

gweithgaredd monitro yn yr
adroddiad hwn.

329.

[288] **Janet Davies:** This question is for Mr Jenkins and possibly Miss Weston, and it has already been touched upon. Sir Richard made the point that, halfway through work on a building of that sort, it is very difficult to pull out and leave it in that condition. Knowing the building, that is fair enough. Nevertheless, there was this big increase in costs. Did you consider the first estimate to be reliable given a building of that nature? Should the lottery application have been processed and grant approval given before you reached the technically termed Royal Institute of British Architects stage D?

[288] **Janet Davies:** Cwestiwn yw hwn i Mr Jenkins ac o bosib Miss Weston, ac mae wedi'i grybwyll eisoes. Gwnaeth Syr Richard y pwynt ei bod, hanner ffordd drwy waith ar adeilad o'r fath, yn anodd iawn tynnu allan a'i adael yn y cyflwr hwnnw. O adnabod yr adeilad, mae hynny'n ddigon teg. Serch hynny, cafwyd y cynnydd mawr hwn yn y costau. A wnaethoch farnu fod yr amcanbris cyntaf yn ddibynadwy ar gyfer adeilad o'r natur hwn? A ddylasid bod wedi prosesu'r cais loteri a rhoi cymeradwyaeth grant cyn ichi gyrraedd cam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), a'i roi mewn termau technegol?

Ms Weston: We discovered, along with the other 10 lottery distributors, that it was better to offer development funding to reach RIBA stage D before offering the full amount for the full development. We acknowledged that, and that is why we moved quickly to that point where we did go to the three-stage process. So, yes, if we were granting this application today, it would not have been funded at that stage but, given the support and the positive assessor's reports that we had, I think that it is fair to guess that we would have offered development funding. At that point, presumably, we would have had more accurate costs and then, all the signals still being positive, we could well have gone

Ms Weston: Darganfuom, ynghyd â'r 10 dosbarthwr loteri arall, ei bod yn well cynnig arian datblygu i gyrraedd cam D RIBA cyn cynnig y swm llawn ar gyfer y datblygiad llawn. Yr oeddem yn cydnabod hynny, a dyna pam y symudasom yn gyflym i'r pwynt hwnnw lle yr aethom i'r broses dri cham. Felly, ie, pe baem yn caniatáu'r cais hwn heddiw, ni fuasai wedi cael arian ar y cam hwnnw ond, gyda'r gefnogaeth a'r adroddiadau asesydd cadarnhaol a oedd gennym, yr wyf yn meddwl ei bod yn deg tybio y buasem wedi cynnig arian datblygu. Ar y pwynt hwnnw, gellir tybio, buasem wedi cael costau cywirach ac wedyn, a bod yr arwyddion i gyd yn dal yn gadarnhaol,

on to fund the whole thing. In this case, looking back, that sort of process was included within the development of the building itself.

gallasem yn wir fod wedi mynd ymlaen i ariannu'r holl beth. Yn yr achos hwn, o edrych yn ôl, yr oedd y math hwnnw o broses wedi'i gynnwys o fewn datblygiad yr adeilad ei hun.

[289] **Janet Davies:** Thank you. Val has some questions on the building.

[289] **Janet Davies:** Diolch. Mae gan Val gwestiynau ar yr adeilad.

[290] **Val Lloyd:** I will move on from the Chair's questioning to a similar arena, particularly relating to paragraph 23.2 on page 14. It mentions the upgrading of fixtures and fittings, internal doors, a glass lobby and so on. Do you consider that to have been fully justified and essential? Perhaps Mr Jenkins could answer that, or Miss Weston.

[290] **Val Lloyd:** Symudaf ymlaen oddi wrth gwestiynau'r Cadeirydd at faes tebyg, yn enwedig o ran paragraff 23.2 ar dudalen 14. Mae'n sôn am uwchraddio gosodion a ffitiadau, drysau mewnol, cyntedd gwydr ac ati. A ydych o'r farn fod cyfiawnhad llawn dros y rheini a'u bod yn hanfodol? Efallai y gallai Mr Jenkins ateb hynny, neu Miss Weston.

Mr Jenkins: The second application? Forgive me, I am not absolutely familiar with that. You are right, there was a cost, but the second application—and I can only speak about the second application—there was an application for £1.5 million. The majority of that was refused, simply because the arts council felt that yes, there was a case for meeting unforeseen costs, but that extra costs, such as nugatory fees and everything else, were not permissible for grant. Therefore, less than half of the original application, or about half of the second application, was accepted; the rest was refused.

Mr Jenkins: Yr ail gais? Maddeuwch imi, nid wyf yn gwbl gyfarwydd â hwnnw. Yr ydych yn gywir, yr oedd cost, ond yr ail gais—a dim ond am yr ail gais y gallaf fi siarad—yr oedd cais am £1.5 miliwn. Gwrthodwyd y rhan fwyaf o hynny, yn syml oherwydd y teimlai cyngor y celfyddydau bod yna achos, oedd, dros dalu costau na ragwelwyd, ond nad oedd costau ychwanegol, fel ffioedd pitw a phopeth arall, yn gymwys am grant. Felly, derbyniwyd llai na hanner y cais gwreiddiol, neu oddeutu hanner yr ail gais; gwrthodwyd y gweddill.

[291] **Val Lloyd:** Therefore, table 10 on page 14 indicating that the cost of demolition and alterations rose three and a half times is incorrect then?

[291] **Val Lloyd:** Felly, mae tabl 10 ar dudalen 14, yn dangos fod cost dymchwel ac addasiadau wedi codi dair gwaith a hanner yn anghywir?

Mr Jenkins: Forgive me, I am not a building expert.

Mr Jenkins: Maddeuwch imi, nid wyf yn arbenigwr ar adeiladu.

[292] **Val Lloyd:** No, I do not claim to be either.

[292] **Val Lloyd:** Na, nid wyf innau'n honni bod ychwaith.

Mr Jenkins: However, my memory is—and perhaps Miss Weston will correct me—that the increase in the demolition costs could well have come under the category of unforeseen costs, which we would then consider. However, the extra costs, the piling on of the costs, and fees for change of architects and all the rest of it, we rejected.

Mr Jenkins: Fodd bynnag, fy nghof i yw—ac efallai y gwnaiff Miss Weston fy nghywiro—y gallai'r cynnydd yn y costau dymchwel yn wir fod wedi dod dan gategori costau na ragwelwyd, y byddem wedyn yn eu hystyried. Fodd bynnag, y costau ychwanegol, y pentyrru costau, a'r ffioedd am newid penseiri a'r gweddill i gyd, bu inni wrthod y rheini.

[293] **Val Lloyd:** I will ask just a little bit more on that. I notice again in paragraph 2.32 that what I would have considered to be an essential item, such as information technology, had been completely omitted from the budget. Given that the application was made in March 1995, I would have thought that IT was an essential component. Perhaps it was not in 1985 but, by 1995, even those of us who are Luddites might accept that IT was essential.

[293] **Val Lloyd:** Holaf ychydig bach mwy am hynny. Sylwaf eto ym mharagraff 2.32 fod yr hyn y buaswn i'n ystyried yn eitem hanfodol, fel technoleg gwybodaeth, wedi'i hepgor yn llwyr o'r gyllideb. Gan mai ym Mawrth 1995 y gwnaethpwyd y cais, buaswn wedi meddwl fod TG yn gydran hanfodol. Efallai nad oedd felly yn 1985, ond erbyn 1995, efallai y byddai hyd yn oed y Luddiaid yn ein plith yn derbyn fod TG yn hanfodol.

Mr Edge: Sorry, I did think that the question was going the other way to ask about the difference between the second and the third applications, because it was in the third application that we did talk about IT. I am afraid I cannot answer the earlier one because it was before my time. In 1995, I was elsewhere.

Mr Edge: Mae'n ddrwg gennyf, yr oeddwn yn meddwl fod y cwestiwn yn mynd y ffordd arall i holi am y gwahaniaeth rhwng yr ail gais a'r trydydd, oherwydd yn y trydydd cais y soniasom am TG. Mae arnaf ofn na allaf ateb yr un cynharach oherwydd yr oedd cyn fy amser i. Yn 1995, yr oeddwn i yn rhywle arall.

Ms Weston: I will comment then that I think that you are quite right that it might have been possible to see IT as essential in 1995, but it was not nearly so obvious and clear that an enterprise like this would have to have an IT infrastructure as it would be now. Therefore, if it was something that was omitted from the plans, which clearly it was, we had to take the decision that either we say, 'Well, hard luck, it was not in the original plan therefore it is not going to be funded' or we could take a more pragmatic view and say, 'Yes, times have moved on; it is essential' and fund that part of the development. I think it is a fair comment.

Ms Weston: Fe ddywedaf felly fy mod yn meddwl efallai eich bod yn llygad eich lle y gallasai fod yn bosibl gweld fod TG yn hanfodol yn 1995, ond nid oedd yn agos at fod mor amlwg a chlir y byddai'n rhaid i fenter fel hon gael isadeiledd TG ag y byddai yn awr. Felly, os oedd yn rhywbeth a hepgorwyd o'r cynlluniau, sydd yn amlwg yn wir, yr oedd yn rhaid i ni benderfynu naill ai ein bod yn dweud 'Wel, hen dro, nid oedd yn y cynllun gwreiddiol felly ni fydd yn cael arian' neu y gallem gymryd golwg fwy pragmataidd a dweud, 'Do, symudodd amser ymlaen; mae'n hanfodol,' ac ariannu'r rhan honno o'r datblygiad. Mae'n sylw teg yn fy marn i.

[294] **Val Lloyd:** Sir Richard, if I could just ask you one question. I believe that Eleanor asked this question, but in relation to a different arena, so your answer may very well be similar. Did council members receive advice from officials in relation to the increase in building costs?

[294] **Val Lloyd:** Syr Richard, os caf ofyn dim ond un cwestiwn ichi. Credaf fod Eleanor wedi gofyn y cwestiwn hwn, ond mewn perthynas â maes arall, felly gallai'ch ateb chi yn wir fod yn debyg. A gafodd aelodau'r cyngor gyngor gan swyddogion mewn perthynas â'r cynnydd mewn costau

adeiladu?

Sir Richard Lloyd Jones: I cannot remember, I am afraid.

Syr Richard Lloyd Jones: Ni allaf gofio, mae arnaf ofn.

Mr Jenkins: Would it help if I just explained very quickly what the procedure was? The application came in to the lottery division—and I am only speaking of the time that I was there—the lottery division would then examine it, would give it out for assessment, would assemble, therefore, a report, which would go, first of all, to the lottery advisory board. That board consisted of some very high-powered individuals; people with expertise in this field. They would examine it again and question the officials very rigorously in that board and would put a report together with a recommendation, which would then go to council. The whole dossier would then appear before council, plus the members of the lottery advisory board would be present, because they were members of council. Therefore, for the third time, this lottery application would be examined in council. I cannot, I am afraid, remember the exact details, but I would be very, very surprised if these aspects—the charging aspect is an important aspect; the visitor numbers is an important aspect—I cannot believe that these were not in the report that went through the lottery advisory board and through to council. Perhaps Miss Weston would concur.

Mr Jenkins: A fyddai'n helpu pe eglurwn i'n sydyn iawn beth oedd y drefn? Daeth y cais i mewn i adran y loteri—a dim ond am y cyfnod yr oeddwn i yno yr wyf yn siarad—byddai adran y loteri wedyn yn ei archwilio, yn ei roi allan i'w asesu, yn llunio, felly, adroddiad a fyddai'n mynd, yn gyntaf oll, i fwrdd cynghori'r loteri. Yr oedd y bwrdd hwnnw'n cynnwys unigolion grymus iawn; pobl ag arbenigedd yn y maes hwn. Byddent yn ei archwilio eto ac yn holi'r swyddogion yn galed iawn yn y bwrdd hwnnw cyn llunio adroddiad gydag argymhelliad, a fyddai'n mynd i'r cyngor wedyn. Wedyn byddai'r ffeil gyfan yn ymddangos gerbron y cyngor, ac yn ogystal byddai aelodau bwrdd cynghori'r loteri'n bresennol, am eu bod yn aelodau o'r cyngor. Felly, am y trydydd tro, câi'r cais loteri hwn ei archwilio yn y cyngor. Ni allaf, mae gennyf ofn, gofio'r union fanylion, ond byddwn yn synnu'n fawr iawn pe na bai'r agweddau hyn—mae'r agwedd godi tâl yn agwedd bwysig; mae niferoedd ymwelwyr yn agwedd bwysig—ni allaf gredu nad oedd y rhain yn yr adroddiad a aeth drwy fwrdd cynghori'r loteri a thrwodd i'r cyngor. Efallai y byddai Miss Weston yn cyd-fynd.

Ms Weston: Certainly. That is a pretty thorough description of the process.

Ms Weston: Yn sicr. Mae hynny'n ddisgrifiad eithaf trwyadl o'r broses.

[295] **Val Lloyd:** Is it possible for you to remember what action was taken then?

[295] **Val Lloyd:** A allwch chi gofio beth ddigwyddai wedyn?

Ms Weston: Yes. At each of the different stages—each of the different applications—there was an external assessor of the application itself appointed. Incidentally, I did read that, in the last Committee meeting, there was a criticism that there were only five assessor's reports. The arts council does not appoint a project monitor to see it all the way through. This was always intended to be a one-off assessment of the application itself and then monitoring, as I have explained, is done by a mixture of external and arts council staff. After each assessment, the assessment was sent to the applicant for comment and, at each stage, the applicant took action. I have described already the various actions, but one was to appoint Deloitte and Touche in order to review the estimates and review the business plan itself. Another was to do a complete review of the marketing strategy, which itself was appraised by our in-house marketing expert. The third one was subject to both external assessment and reappointment of the CVA's management consultants. So, yes, action was taken at every stage.

Ms Weston: Gallaf. Ym mhob un cam unigol—pob un o'r ceisiadau gwahanol—penodwyd asesydd allanol ar y cais ei hun. Gyda llaw, fe ddarllenais fod beirniadaeth yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf mai dim ond pum adroddiad asesydd a gafwyd. Nid yw cyngor y celfyddydau yn penodi monitor prosiect i gadw llygad arno o'r dechrau i'r diwedd. Bwriadwyd hyn erioed i fod yn asesiad unwaith-ac-am-byth o'r cais ei hun ac wedyn gwneir y monitro, fel yr esboniais, gan gymysgedd o staff allanol a staff cyngor y celfyddydau. Ar ôl pob asesiad, anfonwyd yr asesiad at yr ymgeisydd am sylwadau ac, ar bob cam, gweithredodd yr ymgeisydd. Yr wyf eisoes wedi disgrifio'r camau a gymerwyd, ond un oedd penodi Deloitte and Touche i adolygu'r amcangyfrifon ac adolygu'r cynllun busnes ei hun. Un arall oedd gwneud adolygiad cyflawn o'r strategaeth farchnata, adolygiad a gafodd ei werthuso gan ein harbenigwr mewnol ni ar farchnata. Yr oedd y trydydd yn amodol ar asesiad allanol ac ar ailbenodi ymgynghorwyr rheoli'r ganolfan. Felly, do, fe weithredwyd ar bob cam.

[296] **Val Lloyd:** I am sorry, I obviously did not make myself quite sharp enough on that. I intended to ask what action was taken when the report went to council.

[296] **Val Lloyd:** Mae'n ddrwg gennyf, yn amlwg ni eiriais fy nghwestiwn yn ddigon clir. Bwriadais ofyn pa weithredu a ddigwyddodd pan aeth yr adroddiad i'r cyngor.

Ms Weston: I see. I beg your pardon. When reports went to council, they had already been through very detailed discussion at the lottery board. Usually, the chairman of the lottery board would summarise the issues, in addition to the full written report that was sent to council. Certainly, with a project of this size, there would have been debate. There was always a debate at council because council members were very, very interested in what was happening.

Ms Weston: Gwelaf fi. Maddeuwch imi. Pan âi adroddiadau i'r cyngor, yr oeddent eisoes wedi bod drwy drafodaeth fanwl iawn ar fwrdd y loteri. Fel arfer, byddai cadeirydd bwrdd y loteri'n crynhoi'r prif bwyntiau, yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig llawn a anfonid i'r cyngor. Yn sicr, gyda phrosiect o'r maint hwn, byddai dadl wedi digwydd. Yr oedd dadl bob amser yn y cyngor gan fod gan aelodau'r cyngor ddiddordeb mawr iawn yn yr hyn oedd yn digwydd.

Mr Jenkins: May I add a supplement to that? As chief executive, it was my aim to have got the bugs out of the system before it went to council. I am sure that every chief executive has the same aim. However, I was very often set back on my heels by the questioning in council and the referral back, either from the lottery board or from council itself, with instructions to modify or to amend the advice or to look at different aspects of the thing. As the chairman has said, the council members were very, very keen in examining every one in great detail and, of course, this application got very intense scrutiny because of its size.

Mr Jenkins: A gaf fi ychwanegu atodiad i hynny? Fel prif weithredwr, fy nod i oedd cael gwared ar y brychau yn y system cyn iddo fynd at y cyngor. Yr wyf yn siwr bod pob prif weithredwr yn rhannu'r un nod. Fodd bynnag, yn aml cawn fy nharo'n ôl ar fy sodlau gan yr holi yn y cyngor a'r cyfeirio'n ôl, un ai gan fwrdd y loteri neu gan y cyngor ei hun, gyda chyfarwyddiadau i addasu neu ddiwygio'r cyngor a roddwn neu i edrych ar wahanol agweddau'r peth. Fel y dywedodd y cadeirydd, yr oedd aelodau'r cyngor yn frwd iawn, iawn wrth archwilio pob cais yn fanwl dros ben ac, wrth gwrs, daeth y cais hwn dan chwyddwydr manwl iawn oherwydd ei faint.

[297] **Janet Davies:** Jocelyn, do you want to look at the assessment process?

[297] **Janet Davies:** Jocelyn, oes arnoch chi eisiau edrych ar y broses asesu?

[298] **Jocelyn Davies:** Yes, thank you. When you were looking at the applications from the centre, was there intense lobbying for an early decision from other parties? If there was, what impact did that have upon the assessment processes?

[298] **Jocelyn Davies:** Oes, diolch. Pan oeddech yn edrych ar y ceisiadau gan y ganolfan, a gafwyd lobïo dwys dros benderfyniad sydyn gan bartïon eraill? Os do, pa effaith a gafodd hynny ar y prosesau asesu?

Mr Jenkins: Are you asking about the first application now—the first decision to fund it?

Mr Jenkins: Ai holi am y cais cyntaf yr ydych yn awr—y penderfyniad cyntaf i'w noddi?

[299] **Jocelyn Davies:** Well, all of them, but when you were considering the applications.

[299] **Jocelyn Davies:** Wel, pob un ohonynt, pan oeddech chi'n ystyried y ceisiadau.

Mr Jenkins: The urgency, of course, was with the first application, for reasons that I have already explained. No, there was, to my mind, no intense lobbying. I cannot remember any lobbying at all, except to say that all parties involved in this were in favour of the principle. It was up to us to get the details right and it was up to us to get the assessment done meticulously. I would venture to suggest that it was done meticulously. However, I cannot remember any huge lobbying about this in any way. Once the application was in, we would not have countenanced any lobbying, simply because we had a huge number of

Mr Jenkins: Gyda'r cais cyntaf yr oedd y brys, wrth gwrs, am resymau a eglurais eisoes. Na, ni chafwyd, i'm meddwl i, unrhyw lobïo dwys. Ni allaf gofio unrhyw lobïo o gwbl, ac eithrio dweud fod pob parti a oedd yn ymwneud â hyn o blaid yr egwyddor. Mater i ni oedd cael y manylion yn iawn a mater i ni oedd sicrhau y gwneid yr asesiad yn fanwl gywir. Mentraf awgrymu y'i gwnaethpwyd yn fanwl gywir. Fodd bynnag, ni allaf gofio unrhyw lobïo mawr am hyn mewn unrhyw fodd. Unwaith yr oedd y cais i mewn, ni fuasem wedi cymeradwyo unrhyw lobïo, yn syml am fod gennym nifer enfawr o geisiadau'n dod i mewn a buasai caniatáu

applications coming in and to have countenanced lobbying would have laid us open to immense pressure from so many different directions. I am not aware of any lobbying in regard to this application. I do not remember any.

Sir Richard Lloyd Jones: Madam Chairman, I am now trying to rack my memory. I took over as chairman in 1994 and, of course, I had hand-over briefing from the previous chairman. It is inconceivable that he did not mention this project to me at that stage. It is inconceivable. However, by that stage, we did not have a lottery unit so there was nothing I could say other than we have to get the systems in place first. I do not recall subsequent events. I am afraid that, if there had been any lobbying, I would certainly have said, 'no, with the applications in, I cannot take a view on it until the lottery board has looked at it and made recommendations and, indeed, I cannot take a view on it until council has taken a view on it'.

[300] **Jocelyn Davies:** Yes, and that would have been perfectly proper. As decision makers ourselves, we are often used to the nature of lobbying, but there was no lobbying even though, as you told us earlier, this had been acknowledged by people and that the absence of a centre like this was a gaping hole for us for about 10 years. People had been talking about—

lobïo wedi'n gadael yn agored i bwysau aruthrol o gymaint o wahanol gyfeiriadau. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw lobïo ynglyn â'r cais hwn. Ni chofiaf ddim.

Syr Richard Lloyd Jones: Madam Cadeirydd, yr wyf yn awr yn ceisio tyrchu i'm cof. Cymerais y gadair yn 1994 ac wrth gwrs, cefais gyfarwyddiadau wrth drosglwyddo oddi wrth y cadeirydd blaenorol. Anodd credu na soniodd am y prosiect hwn wrthyf bryd hynny. Mae'n anodd credu. Fodd bynnag, erbyn hynny nid oedd gennym uned loteri, felly nid oedd dim y gallwn ei ddweud ond bod yn rhaid inni gael y systemau yn eu lle yn gyntaf. Ni chofiaf beth ddigwyddodd wedyn. Mae arnaf ofn, pe bai lobïo wedi digwydd, y buaswn yn sicr wedi dweud 'na, gyda'r ceisiadau i mewn, ni allaf lunio barn arno nes bydd bwrdd y loteri wedi edrych arno a gwneud argymhellion ac, yn wir, ni allaf lunio barn arno nes bod y cyngor wedi llunio barn arno.'

[300] **Jocelyn Davies:** Ie, a buasai hynny'n berffaith briodol. Fel penderfynwyr ein hunain, yr ydym wedi arfer yn aml â natur lobïo, ond ni fu dim lobïo er, fel y dywedasoch wrthym yn gynharach, bod hyn wedi'i gydnabod gan bobl a bod absenoldeb canolfan fel hon yn agendor mawr inni am ryw 10 mlynedd. Yr oedd pobl wedi bod yn siarad am—

Mr Jenkins: That was the arts council's view, not any lobbyist's view. The arts council's view was that this was a desirable project, or at least the principle of trying to fulfil this spectrum of provision in Cardiff was. So, yes, in terms of the principle, but this was a time before Miss Weston joined the council. It was a time before I joined the council. This was a long-term wish to get a project like this up and running.

Mr Jenkins: Barn cyngor y celfyddydau oedd hynny, nid barn unrhyw lobïwr. Barn cyngor y celfyddydau oedd fod hwn, neu o leiaf yr egwyddor o geisio cyflawni'r sbectwm hwn o ddarpariaeth yng Nghaerdydd, yn brosiect i'w ddeisyfu. Felly, ie, yn nhermau'r egwyddor, ond adeg oedd hwn cyn i Miss Weston ymuno â'r cyngor. Yr oedd yn adeg cyn i mi ymuno â'r cyngor. Dymuniad tymor hir oedd hwn i sefydlu a rhedeg prosiect fel hwn.

[301] **Jocelyn Davies:** Of the arts council, but not of the arts world?

[301] **Jocelyn Davies:** Dymuniad cyngor y celfyddydau, ond nid byd y celfyddydau?

Mr Jenkins: Yes, there was great enthusiasm in the visual arts sector in Wales for this kind of development.

Mr Jenkins: Oedd, yr oedd brwdfrydedd mawr yn sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru dros y math hwn o ddatblygiad.

[302] **Jocelyn Davies:** But that did not result in any lobbying from the arts world once this application had come in, that you recall?

[302] **Jocelyn Davies:** Ond ni wnaeth hynny esgor ar unrhyw lobïo o fyd y celfyddydau unwaith yr oedd y cais hwn wedi dod i law, i chi ei gofio?

Mr Jenkins: No, I would hope that you accept that once the application was in, the process then took over, and there was no interference from outside at all.

Mr Jenkins: Na, gobeithio y derbyniwch, unwaith yr oedd y cais i mewn, yna cymerodd y broses drosodd, ac ni fu dim ymyrraeth o'r tu allan o gwbl.

[303] **Jocelyn Davies:** I accept that, if you

[303] **Jocelyn Davies:** Yr wyf yn derbyn hynny, os y dywedwch wrthyf eich bod wedi

say to me you resisted that, and you—

gwrthsefyll hynny, a'ch bod—

Mr Jenkins: No, I am not saying that—we would have resisted it had it been there. I am not aware that it ever was there.

Mr Jenkins: Na, nid wyf yn dweud hynny— buasem wedi'i wrthsefyll pe bai wedi bod yno. Nid wyf yn ymwybodol y bu yno erioed.

[304] **Jocelyn Davies:** Right, okay. The current chief executive of the arts council felt obliged to carry out an investigation into the possible conflict of interest between the council and the trust. As the chief executive at the time that the key decisions were made about this project, can you confirm whether you were aware of any conflicts of interest?

[304] **Jocelyn Davies:** Reit, iawn. Teimlai prif weithredwr cyfredol cyngor y celfyddydau fod yn rhaid iddo gynnal ymchwiliad i'r gwrthdaro buddiannau posibl rhwng y cyngor a'r ymddiriedolaeth. Fel y prif weithredwr ar yr adeg y gwnaethpwyd y penderfyniadau allweddol ynglyn â'r prosiect hwn, a allwch gadarnhau a oeddech yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau?

Mr Jenkins: No, I was not aware of any. There is a paragraph here that talks about Mr Mathew Prichard's role as the chair. As I have explained, he was the chair when I joined the arts council, but he was not my employer, because I was employed by the Arts Council of Great Britain, not by the Welsh Arts Council, as it was then. It suggests here that Mr Mathew Prichard was concurrently the president of the national museum. He did not become president of the national museum until the end of 1996, two and a half years after he left the council. I have had very little contact with Mr Prichard since he left the council, and I cannot recall any instance where there was a conflict. We did have a regime, as every body has—and I know that the Assembly has—of declaring

Mr Jenkins: Na, nid oeddwn yn ymwybodol o hynny. Mae paragraff yma sydd yn sôn am rôl Mr Mathew Prichard fel cadeirydd. Fel yr esboniais, ef oedd y cadeirydd pan ymunais i â chyngor y celfyddydau, ond nid ef oedd fy nghyflogwr, oherwydd fe'm cyflogwyd gan Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr, nid gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Awgrymir yma fod Mr Mathew Prichard yn llywydd yr amgueddfa genedlaethol ar yr un pryd. Nid aeth yn llywydd yr amgueddfa genedlaethol tan ddiwedd 1996, ddwy flynedd a hanner wedi iddo adael y cyngor. Ychydig iawn o gysylltiad yr wyf wedi'i gael gyda Mr Prichard er iddo adael y cyngor, ac ni allaf gofio unrhyw achlysur lle bu gwrthdaro. Yr oedd gennym drefn, fel sydd gan bob corff—a gwn fod gan y Cynulliad—o ddatgan

interests when there are friendships, and it happened at the last meeting. We had all that regime in place, and I was very glad to see that my successor but two could find no evidence of any conflict. I am not aware of any conflict either.

buddiant pan fo cyfeillgarwch, ac fe ddigwyddodd yn y cyfarfod diwethaf. Yr oedd gennym yr holl drefn honno yn ei lle, ac yr oeddwn yn falch iawn o weld na allai fy olynnydd namyn dau ganfod unrhyw dystiolaeth o wrthdaro o gwbl. Nid wyf innau'n ymwybodol o unrhyw wrthdaro ychwaith.

[305] **Jocelyn Davies:** No. He did say that he concluded that there was not a conflict, but he did feel moved to carry out the investigation. You did not?

[305] **Jocelyn Davies:** Na. Fe ddywedodd iddo ddod i'r casgliad na fu gwrthdaro, ond fe gafodd ei ysgogi i gynnal yr ymchwiliad. Oni wnaethoch chi?

Mr Jenkins: Of course I did. I mean—

Mr Jenkins: Wrth gwrs y gwneuthum. Hynny yw—

[306] **Jocelyn Davies:** You carried out an investigation?

[306] **Jocelyn Davies:** Gwnaethoch gynnal ymchwiliad?

Mr Jenkins: I was there at the time. It was not an investigation. I was monitoring it all the time.

Mr Jenkins: Yr oeddwn yno ar y pryd. Nid ymchwiliad ydoedd. Yr oeddwn yn ei fonitro drwy'r amser.

[307] **Jocelyn Davies:** But you did an assessment of whether there could possibly be a conflict?

[307] **Jocelyn Davies:** Ond fe wnaethoch asesiad i weld a ellid o bosibl gael gwrthdaro?

Mr Jenkins: I was very conscious of it in every application. Wales is a small place—it is a very small place. There were thousands

Mr Jenkins: Yr oeddwn yn ymwybodol iawn ohono ym mhob cyd-destun. Lle bach yw Cymru—lle bach iawn. Yr oedd miloedd

of applications coming in. I was very conscious of this factor with every application, and it did not occur, as far as I am aware, in my time. I was not directing. I was not in the receipt of any grant or anything like that. There was no conflict at all as far as I could see, with this application nor, if I may say so, with any other application during my time there.

o geisiadau'n dod i mewn. Yr oeddwn yn ymwybodol iawn o'r ffactor hwn gyda phob cais, ac ni ddigwyddodd, hyd y gwn i, yn ystod fy amser i. Nid oeddwn i yn cyfarwyddo. Nid oeddwn i yn derbyn grant na dim felly. Nid oedd dim gwrthdaro o gwbl hyd y gwelwn i, gyda'r cais hwn nac, os caf ddweud, gydag unrhyw gais arall yn ystod fy amser i yno.

[308] **Jocelyn Davies:** Sir Richard, do you have any comment on that?

[308] **Jocelyn Davies:** Syr Richard, a oes gennych unrhyw sylw ar hynny?

Sir Richard Lloyd Jones: Not really, except to repeat the dilemma that I laid before the Committee earlier. There is a conflict of objective, if you like, between taking the risk involved in this assessment, which turned out to be wrong obviously, and then protecting it on the one hand, and having to fund the subsidised running costs of the Centre for Visual Arts when it had opened. The project could not, I think—you will correct me if I am wrong—have gone ahead had we not committed £200,000 a year by way of subsidy after the centre opened. Therefore, that is the conflict that worries me. I am not aware of conflicts of interest between individuals and, as Mr Jenkins says, we were pretty rigorous on the council in declaring any interests that we had and leaving the room while the matter was discussed.

Syr Richard Lloyd Jones: Ddim yn wir, ac eithrio ailadrodd y cyfyng-gyngor a osodais ger bron y Pwyllgor yn gynharach. Y mae gwrthdrawiad amcan, os hoffwch, rhwng cymryd y risg a oedd ynghlwm wrth yr asesiad hwn, a oedd yn anghywir yn y diwedd yn amlwg, ac wedyn ei warchod ar y naill law, a gorfod talu costau rhedeg cymorthdaledig Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi iddi agor. Ni allasai'r prosiect, dybiaf fi—cywirwch fi os wyf yn anghywir—fynd yn ei flaen pe na baem wedi ymrwymo £200,000 y flwyddyn o gymhorthdal wedi i'r ganolfan agor. Felly, dyna'r gwrthdrawiad sydd yn fy mhoeni i. Nid wyf yn ymwybodol o wrthdrawiadau buddiannau rhwng unigolion ac, fel y dywed Mr Jenkins, yr oeddem yn eithaf trwyadl ar y cyngor o ran datgan unrhyw fuddiannau a oedd gennym a gadael yr ystafell tra trafodid y mater.

[309] **Janet Davies:** We are all aware that improvements have been made more recently to improve the rigour of the Arts Council of Wales's assessment procedures, and Peter Tyndall, the current accounting officer, raised this. Mr Jenkins, do you feel that the staff in post that handled the early lottery projects had the skills and expertise to assess applications? Were they given training, or did you recruit the expertise necessary, particularly perhaps in the finance and project management?

[309] **Janet Davies:** Yr ydym i gyd yn ymwybodol fod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar i wella trylwyrdd gweithdrefnau asesu Cyngor Celfyddydau Cymru, a chodwyd hyn gan Peter Tyndall, y swyddog cyfrifo cyfredol. Mr Jenkins, a deimlwch fod y staff yn y swyddi a ddeliai â'r prosiectau loteri cynnar yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd i asesu ceisiadau? A roddwyd hyfforddiant iddynt, neu a wnaethoch recriwtio'r arbenigedd angenrheidiol, yn enwedig efallai ym maes rheoli cyllid a phrosiectau?

Mr Jenkins: I think that your general point, Madam Chair, is a valid one—that the procedures and the directions have all developed over the last eight years. After all, we are seven or eight years down the track. I would be perfectly happy to concede the charge of inexperience. Inexperience was common to all lottery distributors. I would, however, strongly refute any charge of incompetence. We operated exactly the procedures and the regime that were being imposed on us at the time. That, as I think Sir John Bourn has said, has now changed considerably and been tightened up and I am very grateful. If we were doing the same thing now, we might not be doing it the same way because we are under a different regime. Therefore, yes, I would strongly support the changes that have taken place. They are sensible and I would hope that they could prevent this kind of problem arising in future.

Mr Jenkins: Credaf fod eich pwynt cyffredinol, Fadarn Gadeirydd, yn un dilys—bod y gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau oll wedi datblygu dros yr wyth mlynedd diwethaf. Wedi'r cyfan, yr ydym saith neu wyth mlynedd i lawr y lein. Byddwn yn berffaith hapus derbyn y cyhuddiad o ddiffyg profiad. Yr oedd diffyg profiad yn gyffredin i bob dosbarthwr loteri. Byddwn, fodd bynnag, yn gwadu'n gryf unrhyw gyhuddiad o ddiffyg cymhwysedd. Bu inni weithredu'n union y gweithdrefnau a'r drefn a osodid arnom ar y pryd. Mae hynny, fel y dywedodd Syr John Bourn, yr wyf yn meddwl, bellach wedi newid yn sylweddol ac wedi'i dynhau ac yr wyf yn ddiolchgar iawn. Pe baem yn gwneud yr un peth yn awr, efallai na fyddem yn ei wneud yn yr un ffordd oherwydd yr ydym dan drefn wahanol. Felly, byddwn, mi fyddwn yn cefnogi'n gryf y newidiadau sydd wedi digwydd. Maent yn synhwyrol a

However, I would also strongly defend what we were doing in 1995 almost as pioneers in Wales, as they were in Scotland and in the Arts Council of England and in Northern Ireland. We were going in parallel. We were comparing with them. I was having monthly meetings with my opposite numbers in the other national regions. We were working together. Yes, the regime may have been deficient at the time. I am not disputing that. What I am claiming is that we complied exactly with the regime that we had.

gobeithiaf y gallant atal y math yma o broblem rhag codi yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn amddiffyn yn gryf yr hyn yr oeddem ni'n ei wneud yn 1995 bron fel arloeswyr yng Nghymru, fel yr oeddent yn yr Alban ac yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Yr oeddem yn mynd ochr yn ochr. Yr oeddem yn cymharu â hwy. Yr oeddwn i'n cael cyfarfodydd misol gyda'm cydgyfarwyddwyr yn y rhanbarthau cenedlaethol eraill. Yr oeddem yn cydweithio. Oedd, efallai fod y drefn yn ddiffygiol ar y pryd. Nid wyf yn gwadu hynny. Yr hyn yr wyf yn ei haeru yw ein bod wedi cydymffurfio'n union gyda'r drefn a oedd gennym.

[310] **Janet Davies:** Thank you. I want now to consider the way the investment during the construction and operation of the project and on the closure of the centre was handled. Again, I will ask the question to Mr Jenkins and perhaps Miss Weston also. It appears that a full risk assessment of the project was not undertaken and that there were no contingency plans in place. Do you think, with hindsight, that that should have happened?

[310] **Janet Davies:** Diolch. Yn awr hoffwn ystyried y modd yr ymdriniwyd â'r buddsoddiad yn ystod adeiladu a gweithredu'r prosiect a phan gaewyd y ganolfan. Eto, gofynnaf y cwestiwn i Mr Jenkins ac efallai i Miss Weston hefyd. Mae'n ymddangos na wnaethpwyd asesiad risg llawn o'r prosiect ac nad oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn yn eu lle. A ydych yn meddwl, wrth edrych yn ôl, y dylasai hynny fod wedi digwydd?

Ms Weston: I think that it is something similar to the previous issue about learning and going to a three-stage application process. We did feel that having the external assessment and the constant monitoring was a way of managing risk. However, you are

Ms Weston: Yr wyf yn meddwl ei fod rywbeth yn debyg i'r pwynt diwethaf ynghylch dysgu a symud at broses geisiadau tri cham. Yr oeddem yn teimlo fod cael yr asesiad allanol a'r monitro parhaus yn ffordd o reoli risg. Fodd bynnag, yr ydych yn llygad

quite right that we did not carry out a specific formal risk assessment and we quickly moved to the point where we did. With hindsight, it would have been more useful if we had done that in this case. After we had been operating for, I do not know how long—six months or a year; I could find out—we received guidance from the Department of National Heritage at that time on risk assessment and we acted on it swiftly. We undertook the staff training that was supplied and recommended and we adapted our systems to take into account the need for a proper risk assessment at the appraisal stage.

[311] **Janet Davies:** Thank you. I would like to ask you another question before I go back to Dai. It was quite a big lottery grant. Why was no charge put on the building? That would have safeguarded the arts council's investment, would it not?

Ms Weston: Yes, it would have done. A charge was not put on the building, first, because it was not something that we were geared up to do at that time. If you say that we should have been, I would agree with you. However, it was not done. I do understand that those things are being done retrospectively now. I think that, at the time, everybody involved took some comfort from the fact that it was on a 99-year lease. We did always insist on a minimum 25-year lease in the case of any work on a building. We also

eich lle na wnaethom gyflawni asesiad risg ffurfiol penodol ac fe symudasom yn gyflym i bwynt lle'r oeddem yn gwneud hynny. Gydag ôl-welediad, buasai'n fwy buddiol pe baem wedi gwneud hynny yn yr achos hwn. Wedi inni fod yn gweithredu am, ni wn ba hyd—chwe mis neu flwyddyn; gallwn ganfod faint—cawsom arweiniad gan Adran y Dreftadaeth Genedlaethol ar y pryd ar asesu risg a gweithredasom ar hynny'n ddi-oed. Ymgymerasom â'r hyfforddi staff a ddarperid ac a argymhellid, ac addasu'n systemau i gymryd i ystyriaeth yr angen am asesiad risg priodol yn y cam gwerthuso.

[311] **Janet Davies:** Diolch. Hoffwn ofyn cwestiwn arall ichi cyn mynd yn ôl at Dai. Yr oedd yn grant loteri eithaf mawr. Pam na osodwyd pridiant ar yr adeilad? Buasai hynny wedi diogelu buddsoddiad cyngor y celfyddydau, oni fuasai?

Ms Weston: Buasai. Ni osodwyd pridiant ar yr adeilad, yn gyntaf, am nad oedd yn rhywbeth yr oeddem wedi'n paratoi i'w wneud ar y pryd. Os dywedwch y dylasem fod, cytunaf â chi. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd. Yr wyf yn deall fod y pethau hynny'n cael eu gwneud yn ôl-weithredol yn awr. Yr wyf yn meddwl, ar y pryd, fod pawb a oedd yn ymwneud â'r peth yn cymryd rhywfaint o gysur o'r ffaith ei fod ar brydles 99 mlynedd. Byddem bob amser yn mynnu prydles o 25 mlynedd o leiaf yn achos

took some comfort from the fact that it was a 99-year-lease and that it was owned by the local authority, which shared our aims and aspirations for the building.

unrhyw waith ar adeilad. Cymerasom rywfaent o gysur hefyd o'r ffaith ei fod yn brydles 99 mlynedd a'i fod yn eiddo'r awdurdod lleol, a oedd yn rhannu'n hamcanion a'n dyheadau ni ar gyfer yr adeilad.

[312] **Janet Davies:** Thank you. Dai?

[312] **Janet Davies:** Diolch. Dai?

[313] **David Lloyd:** I now turn to the selection of the project monitor. I have a couple of quick questions to Ms Weston as regards the selection process for the project monitor. How was the project monitor selected in the first place? Was there a tender evaluation panel to select the project monitor or was this the decision of one individual? How much was the project monitor paid? What was the basis for pricing? Did the contract provide for financial redress if the advice was unsound?

[313] **David Lloyd:** Trof yn awr at y modd y dewiswyd monitor y prosiect. Mae gennyf ychydig o gwestiynau byr i Ms Weston ynglyn â'r broses ar gyfer dewis monitor y prosiect. Sut y dewiswyd monitor y prosiect yn y lle cyntaf? A gafwyd panel arfarnu tendrau i ddewis monitor y prosiect ynteu ai penderfyniad un unigolyn oedd hyn? Faint a dalwyd i fonitor y prosiect? Beth oedd sail y prisio? A ddarparai'r contract iawndal ariannol pe roddwyd cyngor cyfeiliornus?

Ms Weston: The project monitors were all appointed as a group, as a pool that was sort of segregated into various types of expertise. From that point, where we had the pool in place—and that process was being carried out by PricewaterhouseCoopers—the project officer in question would appoint the assessor. It was not normal practice to appoint a project monitor, if by a monitor you mean somebody who sees the project right the way through. However, in this case, the senior capital officer took the decision,

Ms Weston: Penodwyd y monitoriaid prosiectau i gyd fel grwp, fel cronfa a oedd wedi'i lled wahanu'n wahanol fathau o arbenigedd. O'r pwynt hwnnw, lle'r oedd y gronfa yn ei lle gennym—a chyflawnid y broses honno gan PricewaterhouseCoopers—byddai'r swyddog prosiect perthnasol yn penodi'r asesydd. Nid oedd yn arferol penodi monitor prosiect, os mai'r hyn a olygwch wrth fonitor yw rhywun sydd yn cadw llygad ar brosiect o'r dechrau i'r diwedd. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, penderfynodd yr

having consulted me and possibly other people, that it would be a good idea to have a monitor to monitor monthly. That person would have been picked from the pool of assessors that already existed, according to their expertise, but also according to availability.

uwch swyddog cyfalaf, wedi ymgynghori â mi ac efallai â phobl eraill, y byddai'n syniad da cael monitor i fonitro'n fisol. Byddai'r person hwnnw wedi'i ddewis o'r gronfa aseswyr a fodolai eisoes, yn ôl eu harbenigedd, ond hefyd yn ôl pwy oedd ar gael.

[314] **David Lloyd:** Okay. How much was the project monitor paid? Do we know that aspect of it?

[314] **David Lloyd:** Iawn. Faint a dalwyd i fonitor y prosiect? A wyddom ni'r agwedd honno ohoni?

Ms Weston: No, I do not know that. There was a standard rate that was paid by all of the arts councils in the early days that seemed like a lot at the time. It was £300 a day, but you have to remember within that that most assessments were two or three days' work. Therefore, whether that was varied for the longer term monitoring situation, I do not know I am afraid.

Ms Weston: Na, ni wn i hynny. Yr oedd cyfradd safonol a delid gan bob cyngor celfyddydau yn y dyddiau cynnar a ymddangosai'n swm mawr ar y pryd. £300 y dydd ydoedd, ond rhaid cofio o fewn hynny mai deuddydd neu dri o waith oedd y rhan fwyaf o asesiadau. Felly, a amrywiwyd hynny ar gyfer y sefyllfa fonitro dros dymor hwy, ni wn, mae arnaf ofn.

[315] **David Lloyd:** Do you know then if the contract provided for financial redress if any advice from the project monitor was unsound?

[315] **David Lloyd:** A wyddoch felly a oedd y contract yn darparu ar gyfer iawndal ariannol pe roddai monitor y prosiect unrhyw gyngor cyfeiliornus?

Ms Weston: Yes, in that it was part of the process that was undertaken by PricewaterhouseCoopers to check that everybody that it had confirmed as assessors had professional indemnity insurance.

Ms Weston: Oedd, o ran ei fod yn rhan o'r broses yr ymgwymerwyd â hi gan PricewaterhouseCoopers i wirio fod gan bawb yr oedd wedi'u cadarnhau fel aseswyr yswiriant indemniad proffesiynol.

[316] **David Lloyd:** Okay.

[316] **David Lloyd:** Iawn.

[317] **Janet Davies:** Lorraine, you have sat there very patiently—

[317] **Janet Davies:** Lorraine, yr ydych chi wedi eistedd yno'n amyneddgar iawn—

[318] **Lorraine Barrett:** I know. You are going to wonder why I am here today. You will soon find out. I have a question for Miss Weston, on the failure to act on various problems and concerns. I am looking at paragraph 3.13 in the Auditor General's report. The monitor that Dai Lloyd has just asked you about alerted you to problems in early 1998, and recommended that the council require the applicant to undertake a sensitivity analysis, and to consider a worst-case scenario. I just wondered why you did not do that. This was the advice that you paid for, yet apparently it was not followed up.

[318] **Lorraine Barrett:** Mi wn. Yr ydych yn mynd i feddwl tybed pam yr wyf fi yma heddiw. Cewch wybod toc. Mae gennyf gwestiwn i Miss Weston, ar y methiant i weithredu ar amryfal broblemau a phryderon. Yr wyf yn edrych ar baragraff 3.13 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Bu i'r monitor y mae Dai Lloyd newydd eich holi amdano eich rhybuddio am broblemau yn gynnar yn 1998, gan argymhell y dylai'r cyngor fynnu bod yr ymgeisydd yn gwneud dadansoddiad sensitifrwydd, ac ystyried y senario waethaf bosibl. Dim ond meddwl yr oeddwn tybed pam na wnaethoch hynny. Dyma'r cyngor yr oeddech wedi talu amdano, eto yn ôl pob tebyg ni ddilynwyd ef.

Ms Weston: The arts council did act on that advice. In 1998, there was the appraisal of the third application. There was appraisal of the business plan by officers internal to the arts council. The response of the CVA to the assessor's report was to tell us that it would reappoint Deloitte and Touche in order to review the business plan and assess the impact of a much later than planned opening. I do have documentary evidence for that. Therefore, as I think I have said before, at each stage, we did act on the advice that we

Ms Weston: Fe weithredodd cyngor y celfyddydau ar y cyngor hwnnw. Yn 1998, cafwyd y gwerthusiad ar y trydydd cais. Gwerthuswyd y cynllun busnes gan swyddogion mewnol cyngor y celfyddydau. Ymateb y ganolfan i adroddiad yr asesydd oedd dweud wrthym y byddai'n ailbenodi Deloitte and Touche i adolygu'r cynllun busnes ac asesu effaith agor llawer yn hwyrach nag a gynlluniwyd. Mae gennyf dystiolaeth ddogfennol dros hynny. Felly, fel y dywedais o'r blaen, yr wyf yn meddwl, ar

were given.

bob cam, bu inni weithredu ar y cyngor a roddwyd inni.

[319] **Lorraine Barrett:** Okay. Are we happy with that? I am not sure that I can take that one much further, but I do not know if anyone else wants to pursue it.

[319] **Lorraine Barrett:** Iawn. A ydym yn hapus gyda hynny? Nid wyf yn siwr a allaf fynd â honno lawer ymhellach, ond ni wn a oes unrhyw un arall eisiau ei dilyn.

[320] **Janet Davies:** I think that Jocelyn would like to come in just for a moment.

[320] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl yr hoffai Jocelyn ddod i mewn am funud.

[321] **Jocelyn Davies:** Yes, because this is something that I touched on earlier. I will read to you what Mr Tyndall said to us in response to that exact same question. He said that he would read to us from the original assessment report, in the files that he now has available to him.

[321] **Jocelyn Davies:** Hoffwn, oherwydd dyma rywbeth y cyffyrddais arno'n gynharach. Darllenaf ichi beth ddywedodd Mr Tyndall wrthym wrth ateb yr union gwestiwn hwnnw. Dywedodd y byddai'n darllen inni o adroddiad yr asesiad gwreiddiol, yn y ffeiliau sydd bellach ar gael iddo.

'I read to you from the original assessment report the list of checkpoints going on a scale from one to five. On the viability box, in a subsequent file, rather than being marked one to five, it was marked n/a—not applicable—and reference was made to a separate assessment. So I have sought to find details of that separate assessment, which is precisely what you are referring to, and I have not been able to do so.'

'Darllenaf ichi o'r adroddiad asesu gwreiddiol y rhestr o bwyntiau gwirio yn mynd ar raddfa o un i bump. Ar y blwch i farcio hyfywdra y cynllun mewn ffeil ddiweddarach, yn hytrach na chael marc un i bump, fe'i marciwyd n/a—*not applicable*—a chyfeiriwyd at asesiad ar wahân. Felly yr wyf wedi ceisio dod o hyd i fanylion yr asesiad arall hwnnw, sef yr union beth yr ydych yn cyfeirio ato, ac nid wyf wedi llwyddo i wneud hynny.'

Why can the current chief executive not find anything in the files about that assessment? Why has he been unable to do so?

330. Pam na all y prif weithredwr cyfredol ddod o hyd i unrhyw beth yn y ffeiliau am yr asesiad hwnnw? Pam y mae wedi methu â gwneud hynny?

Ms Weston: I do not know that. However, I can tell you that, at the point we got that assessment, an assessment had already been carried out two or three months earlier—which the assessor may not have been aware of—by McCann Matthews Millman, which was looking at the business and marketing side. We had been in discussion with the CVA about responding to that assessment. That was around the time that it was applying for revenue funding for the following year, as well as the capital involvement. Two things happened as a result of that recommendation. One was that arts council officers assessed the revised marketing plan, and the CVA appointed Deloitte and Touche in order to assess the whole of its business plan.

Ms Weston: Ni wn hynny. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthy ch, pan gawsom yr asesiad hwnnw, fod asesiad eisoes wedi'i wneud ddau neu dri mis yn gynharach—nad oedd yr aseswr efallai'n ymwybodol ohono—gan McCann Matthews Millman, a oedd yn edrych ar yr ochr fusnes a marchnata. Buom mewn trafodaeth gyda'r ganolfan ynglyn ag ymateb i'r asesiad hwnnw. Yr oedd hynny oddeutu'r amser yr oedd yn gwneud cais am gyllid refeniw ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yn ogystal â'r cyfranogiad cyfalaf. Digwyddodd dau beth o ganlyniad i'r argymhelliad hwnnw. Un oedd bod swyddogion cyngor y celfyddydau wedi asesu'r cynllun marchnata diwygiedig, a phenododd y ganolfan Deloitte and Touche i asesu'i chynllun busnes cyfan.

[322] **Jocelyn Davies:** Yes, but why can the current chief executive not find that stuff in the files? He came here and said,

[322] **Jocelyn Davies:** Ie, ond pam na all y prif weithredwr cyfredol ganfod y pethau hyn yn y ffeiliau? Daeth yma a dywedodd,

'I have no evidence at all as to what happened as a consequence.'

'Nid oes gennyf dystiolaeth o gwbl ynghylch beth a ddigwyddodd o ganlyniad.'

He repeated it to us three or four times. He was quite definite on it.

331. Ailadroddodd hynny wrthym dair neu bedair gwaith. Yr oedd yn eithaf pendant.

Ms Weston: I would be happy to supply you with my evidence.

Ms Weston: Byddwn i'n hapus i roi fy nhystiolaeth i ichi.

[323] **Jocelyn Davies:** Does he have it though?

[323] **Jocelyn Davies:** Ond a ydyw ganddo ef?

Ms Weston: I do not know.

Ms Weston: Ni wn i ddim.

Sir Richard Lloyd Jones: Personally, I am very anxious that we do not get drawn into contradicting any evidence given previously, because we were not here to hear it.

Syr Richard Lloyd Jones: Yn bersonol, yr wyf yn awyddus iawn inni beidio â chael ein tynnu i mewn i wrth-ddweud unrhyw dystiolaeth a roddwyd yn flaenorol, oherwydd nid oeddem yma i'w chlywed.

[324] **Janet Davies:** I accept that.

[324] **Janet Davies:** Yr wyf yn derbyn hynny.

Sir Richard Lloyd Jones: He is an accounting officer, and he was therefore before you, I submit, in a different situation to us.

Syr Richard Lloyd Jones: Swyddog cyfrifo ydyw ef, ac felly yr oedd ger eich bron, awgrymaf, mewn sefyllfa wahanol i ni.

[325] **Janet Davies:** I think we do have to accept that. We cannot really take that any further.

[325] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl fod yn rhaid inni dderbyn hynny. Ni allwn yn wir fynd â hynny ddim pellach.

[326] **Lorraine Barrett:** Shall I go on?

[326] **Lorraine Barrett:** A af fi ymlaen?

[327] **Janet Davies:** Yes, please.

[327] **Janet Davies:** Ie, os gwelwch yn dda.

[328] **Lorraine Barrett:** I have a question for Mr Jenkins. Looking at paragraph 3.9 in the Auditor General's report, it says that much of the council's monitoring of the project comprised informal discussions with the project monitor, and over a period of nearly six years, only five written reports were provided. Do you feel that this is an adequate level of monitoring, given the £3.2 million of lottery money? Do you feel that the reports provided value for money?

[328] **Lorraine Barrett:** Mae gennyf gwestiwn i Mr Jenkins. Ym mharagraff 3.9 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, dywedir fod llawer o waith monitro'r cyngor ar y prosiect yn golygu trafodaethau anffurfiol gyda monitor y prosiect, a thros gyfnod o bron chwe blynedd, mai dim ond pum adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd. A ydych yn teimlo fod hyn yn lefel ddigonol o fonitro, o gofio'r £3.2 miliwn o arian loteri? A ydych yn teimlo fod yr adroddiadau wedi darparu gwerth am arian?

Mr Jenkins: May I just comment that I was only present for two of the four years. There are five formal full reports. However, there is a letter on file between the grant supervision officer and the monitor agreeing monthly contact between the monitor, so it may be the case—and I cannot speak on the second half, but I think that I am right on this one—that there were only five formal monitoring reports. However, the monitor was involved on a monthly basis, and we have a letter on file agreeing to that arrangement.

Mr Jenkins: A gaf fi wneud y sylw mai dim ond am ddwy o'r pedair blynedd yr oeddwn i'n bresennol. Mae pum adroddiad llawn ffurfiol. Fodd bynnag, mae llythyr ar y ffeil rhwng y swyddog goruchwyllo grantiau a'r monitor yn cytuno ar gyswllt misol rhwng y monitor, felly efallai ei bod yn wir—ac ni allaf siarad am yr ail hanner, ond yr wyf yn meddwl fy mod yn iawn ar hyn—mai dim ond pum adroddiad monitro ffurfiol a gafwyd. Fodd bynnag, yr oedd y monitor yn ymwneud â'r peth yn fisol, ac mae gennym lythyr ar y ffeil yn cytuno i'r trefniant hwnnw.

[329] **Lorraine Barrett:** I wonder if Ms Weston can fill in those two years?

[329] **Lorraine Barrett:** Tybed a all Ms Weston lanw'r ddwy flynedd hynny i mewn?

Ms Weston: I think that there is a basic misunderstanding about what a project monitor is. The five reports that are referred to are assessments of applications, and we would normally expect to have one assessment or a group of assessments of a single application, so it is no surprise that there are five assessments. The arrangement about monitoring was that the capital project should be monitored monthly, and it was. There was also monitoring, on the revenue side, of marketing plans and business plans, and the different divisions within the arts council were supporting the work of the other.

Ms Weston: Yr wyf yn meddwl fod yma gamddealltwriaeth sylfaenol ynghylch beth yw monitor prosiect. Asesiadau o geisiadau yw'r pum adroddiad y cyfeirir atynt, a byddem fel arfer yn disgwyl cael un asesiad neu grwp o asesiadau ar gais unigol, felly nid yw'n syndod mai pum asesiad sydd. Y trefniant ynghylch monitro oedd y dylid monitro'r prosiect cyfalaf yn fisol, a gwnaethpwyd hynny. Ar yr ochr refeniw, cafwyd monitro hefyd ar gynlluniau marchnata a chynlluniau busnes, ac yr oedd y gwahanol adrannau o fewn cyngor y celfyddydau'n cefnogi gwaith ei gilydd.

Mr Jenkins: Yes, forgive me, may I come back on that? I think I have probably dropped into the same trap of confusing assessments and monitoring. An assessment is a dipping in to assess a particular application. Monitoring is a constant process and happens monthly, as we have both said.

Mr Jenkins: Ie, maddeuwch imi, a gaf fi ddod yn ôl ar hynny? Yr wyf yn meddwl fy mod, mae'n debyg, wedi syrthio i'r un fagl o ddrysu asesiadau a monitro. Golyga asesiad alw i mewn i asesu cymhwysiad arbennig. Mae monitro'n broses barhaus ac yn digwydd yn fisol, fel y dywedasom ein dau.

[330] **Lorraine Barrett:** Yes, that is actually mentioned in the report. Do you want us to examine the monitoring as opposed to just the assessment of the applications, or are we happy with that?

[330] **Lorraine Barrett:** Ie, crybwyllir hynny yn yr adroddiad mewn gwirionedd. A oes arnoch eisiau inni archwilio'r monitro yn hytrach na dim ond yr asesu ar y ceisiadau, ynteu a ydym yn hapus â hynny?

[331] **Janet Davies:** I will leave it to you, Lorraine.

[331] **Janet Davies:** Fe'i gadawaf i chi, Lorraine.

[332] **Lorraine Barrett:** Yes, I think we can look back at the answers.

[332] **Lorraine Barrett:** Ie, yr wyf yn meddwl y gallwn ni edrych yn ôl ar yr atebion.

Ms Weston: Could I just mention one more thing? If you would like, I have a list here of 35 key meetings and documents that were part of the monitoring process as the project developed.

Ms Weston: A gaf i sôn am un peth arall? Os hoffech, mae gennyf restr yma o 35 cyfarfod a dogfennau allweddol a oedd yn rhan o'r broses fonitro wrth i'r prosiect ddatblygu.

[333] **Janet Davies:** You will let us have a copy of that?

[333] **Janet Davies:** Fe adewch inni gael copi o honno?

Ms Weston: If you would like it, yes.

Ms Weston: Os hoffech, gwnaf.

[334] **Janet Davies:** Thank you very much.

[334] **Janet Davies:** Diolch yn fawr.

[335] **Lorraine Barrett:** Looking at paragraph 3.11 of the Auditor General's report, it states that the staff of the arts council had difficulty obtaining financial information from the trust during the construction phase and also when the centre was opened. Consequently, the arts council was perhaps unsighted when the centre was experiencing those financial difficulties. Can you tell us why this was, and do you think that you could have done more to obtain the

[335] **Lorraine Barrett:** Ym mharagraff 3.11 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, dywedir i staff cyngor y celfyddydau gael anhawster cael gwybodaeth ariannol gan yr ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod adeiladu a hefyd pan oedd y ganolfan yn agored. O ganlyniad, efallai nad oedd cyngor y celfyddydau yn gweld y darlun llawn pan oedd y ganolfan yn wynebu'r anawsterau ariannol hynny. A allwch ddweud wrthym pam yr oedd hyn, ac a ydych yn

information that you needed? I think that that is probably for Miss Weston, and possibly Mr Edge afterwards.

meddwl y gallasech wneud mwy i gael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnoch? Yr wyf yn meddwl mae'n debyg mai cwestiwn i Miss Weston yw hynny, ac efallai Mr Edge wedyn.

Ms Weston: I have acknowledged that it was difficult at times to get information but, again, I doubt whether you want me to go through the full list. I do have a long list of budgets, estimates, cash flows, designs and plans that were obtained as part of our information gathering process. There is something in the report saying that, in January 2000, the most up-to-date figures we had were for August 1999. As it happens, the following month, in February 2000, we had figures through to December 1999. Therefore, for any organisation to produce monthly management accounts up to that point is acceptable. I cannot tell you why we had difficulty, but we did not relax and sit back. Officers worked extremely hard to obtain the information that we needed throughout the project. Eventually, we got the information that we needed and we acted on it.

Ms Weston: Yr wyf wedi cydnabod ei bod yn anodd cael gwybodaeth ar adegau ond, eto, yr wyf yn amau a oes arnoch eisiau imi fynd drwy'r rhestr lawn. Y mae gennyf restr hir o gyllidebau, amcangyfrifon, ffigurau llif arian, dyluniadau a chynlluniau a gafwyd fel rhan o'n proses gasglu gwybodaeth. Y mae rhywbeth yn yr adroddiad sydd yn dweud mai'r ffigurau diweddaraf a oedd gennym, yn Ionawr 2000, oedd ffigurau Awst 1999. Fel y mae'n digwydd, erbyn y mis nesaf, Chwefror 2000, yr oedd gennym ffigurau drwodd i Ragfyr 1999. Felly, mae i unrhyw gorff ddarparu cyfrifon rheoli misol hyd at y pwynt hwnnw yn dderbyniol. Ni allaf ddweud wrthyhch pam y cawsom anhawster, ond ni wnaethom ymlacio ac eistedd yn ôl. Gweithiodd swyddogion yn eithriadol o galed i gael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnom drwy gydol y prosiect. Yn y diwedd, cawsom y wybodaeth yr oedd ei hangen arnom a gweithredasom arni.

Sir Richard Lloyd Jones: Chairman, are we covered by privilege, because we are talking about a third party now? It worries me slightly now that I do not have any protection.

Syr Richard Lloyd Jones: Gadeirydd, a oes braint yn ein gwarchod, oherwydd yr ydym yn siarad am drydydd parti yn awr? Mae'n fy mhoeni ychydig yn awr nad oes gennyf unrhyw warchodaeth.

[336] **Janet Davies:** I believe that we are, but I will check with Miss Parkes.

[336] **Janet Davies:** Credaf fod, ond gofynnaf i Miss Parkes am sicrwydd.

Miss Parkes: Certainly. Things that are said here are covered by absolute privilege.

Miss Parkes: Yn sicr. Gwarchodir pethau a ddywedir yn y fan hon gan ffraint absoliwt.

[337] **Janet Davies:** Thank you. That is advice from the Office of the Counsel General.

[337] **Janet Davies:** Diolch. Dyna gyngor gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Sir Richard Lloyd Jones: Thanks very much. I just wanted to clear that up.

Syr Richard Lloyd Jones: Diolch yn fawr. Dim ond eisiau bod yn glir ar hynny yr oeddwn i.

[338] **Lorraine Barrett:** May I follow on from that? The Committee received a letter, as written evidence, from Mr Mathew Prichard, who was chairman of the trustees at the time. He told us that at no stage was the centre asked by the arts council to address the problems regarding the lack of information. Is this your recollection? There seems to be a bit of a conflict here. You answered this in part. If you had difficulty in obtaining that information, which hampered your monitoring, why did you not raise it directly with the Centre for Visual Arts?

[338] **Lorraine Barrett:** A gaf i ddilyn ymlaen oddi ar hynny? Derbyniodd y Pwyllgor lythyr, fel tystiolaeth ysgrifenedig, oddi wrth Mr Mathew Prichard, sef cadeirydd yr ymddiriedolwyr ar y pryd. Dywedodd ef wrthym na ofynnwyd i'r ganolfan ar unrhyw adeg gan gyngor y celfyddydau i ddelio â'r problemau parthed y diffyg gwybodaeth. Ai dyma a gofiwch chi? Mae'n ymddangos bod ychydig o wrthdaro yma. Atebasoch hyn yn rhannol. Os cawsoch anhawster i gael y wybodaeth honno, a hynny'n llyffetheirio'ch gwaith monitro, pam na wnaethoch godi hyn yn uniongyrchol gyda Chanolfan y Celfyddydau Gweledol?

Ms Weston: I do not think that it hampered

Ms Weston: Nid wyf yn meddwl y

the monitoring to the extent that we were unable to monitor. It was difficult and hard work and officers did deal with the difficulties and, as an officer of the arts council, I would not go to the chairman of an organisation to resolve a difficulty that could be resolved by officers on both sides.

llyffetheiriodd y monitro i'r graddau ein bod yn methu monitro. Yr oedd yn waith anodd a chaled ac fe ddeliodd swyddogion gyda'r anawsterau ac, fel un o swyddogion cyngor y celfyddydau, nid awn i at gadeirydd corff i ddatrys anhawster y gellid ei ddatrys gan swyddogion ar y ddwy ochr.

[339] **Lorraine Barrett:** I do not know whether Mr Edge wants to come in on this.

[339] **Lorraine Barrett:** Nid wyf yn gwybod a hoffai Mr Edge ddod i mewn ar hyn.

Mr Edge: I can add a little to that, particularly about the final period shortly before closure. There are a number of letters on file asking for financial information towards the end of the period when it was actually open and it did take a letter and reminders before we were getting the management accounts.

Mr Edge: Ychydig a allaf ei ychwanegu at hynny, yn enwedig am y cyfnod olaf ychydig cyn cau. Mae nifer o lythyrau ar y ffeil yn gofyn am wybodaeth ariannol tua diwedd y cyfnod pan oedd yn agored ac fe gymerodd lythyr a sawl nodyn atgoffa cyn inni gael y cyfrifon rheoli.

[340] **Lorraine Barrett:** Sir Richard, were council members aware of the difficulties that staff had in obtaining up-to-date financial information from the applicant? Was any action taken?

[340] **Lorraine Barrett:** Syr Richard, a oedd aelodau'r cyngor yn ymwybodol o'r anawsterau a gâi staff i gael y wybodaeth ariannol ddiweddaraf oddi wrth y cleient? A wnaethpwyd unrhyw beth?

Sir Richard Lloyd Jones: After 1999 I was not there, and I suspect that this is quite largely to do with the closing stages of the project. I do not know if Jo Weston can throw any light on this. I do not recall it being brought as an issue to council. I suspect that the ethos of the workers, if I might put it that

